

Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr

Paratowyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain

mewn partneriaeth ag

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rhagfyr 2005



THE BRITISH HORSERACING BOARD



The British Horse Society
Registered Charity No. 210504



British Horse Industry Confederation



Department for Environment, Food and Rural Affairs
Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR
Ffôn 020 7238 6000
Gwefan: www.defra.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2006

Y Goron sy'n berchen ar yr hawlfraint yn y drefn deipograffyddol a'r cynllun.

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r cyhoeddiad hwn gan:

Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Cynulliad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn 02920 823593

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan Defra: www.defra.gov.uk/rural/horses

Cyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Argraffwyd yn y DU, Mai 2004, ar ddeunydd sy'n cynnwys 80% o ôl-wastraft defnyddwyr ac 20% o fwydion cwbl ddi-glorin.

Cod cynnyrch PB 11323w

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair gweinidogol	6
Rhagair y diwydiant	8
Crynodeb gweithredol	10
Cyflwyniad	18
• Diben y Strategaeth hon • Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau • Natur y Diwydiant Ceffylau • Maint y diwydiant • Iechyd a Lles Ceffylau • Pwysigrwydd y diwydiant • Dyfodol y diwydiant • Paratoi'r Strategaeth hon • Nodau strategol	
Nodau ac amcanion strategol	
1. Uno'r Diwydiant Ceffylau a datblygu ei effaith genedlaethol, rhanbarthol a lleol	26
a) Uno'r diwydiant yn genedlaethol b) Datblygu dylanwad rhanbarthol a lleol y diwydiant	
2. Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth a datblygu cyfraniad cymdeithasol y Diwydiant Ceffylau	33
a) Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth b) Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu'r manteision cymdeithasol, addysgol ac iechyd sy'n gysylltiedig â cheffylau	
3. Gwella perfformiad economaidd busnesau marchogol	44
a) Codi safonau o ran perfformiad busnes b) Annog cydweithredu i wella cyfleoedd busnes c) Sicrhau cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Datblygu - ch) Sicrhau chwarae teg o ran materion ariannol a rheoliadol d) Dod i farn ar statws y ceffyl ar gyfer y diwydiant cyfan - dd) Mynd i'r afael â phroblemau yn gysylltiedig ag yswiriant a rheoli risgiau iechyd a diogelwch e) Cynyddu gwerth nwyddau a gwasanaethau marchogol f) Cynyddu twristiaeth farchogol	

4. Gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau marchogol 60
 - a) Denu a chadw staff
 - b) Darparu amgylchedd lle y mae pobl am ddatblygu gyrfa
 - c) Nodi lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi
 - ch) Gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y coleg ac yn y gweithle
5. Cynyddu mynediad i farchogaeth a gweithgarwch gyrru cerbydau oddi ar y ffordd 65
 - a) Sicrhau rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cydgysylltiedig wedi'i gynnal yn dda
 - b) Cynyddu'r ddarpariaeth o ran llwybrau marchogaeth eraill oddi ar y ffordd ac ardaloedd â mynediad agored i farchogion
 - c) Parhau ag addysg diogelwch i fodurwyr, marchogion a gyrwyr cerbydau
 - ch) Sicrhau bod marchogaeth a gyrru cerbydau mewn trefi a maestrefi yn cael ei hyrwyddo a'i wella
6. Ystyried effaith amgylcheddol y ceffyl 80
 - a) Gwella safonau rheoli tir
 - b) Annog storio a gwaredu gwrtaith yn gywir ac yn ddiogel
 - c) Annog y defnydd o geffylau mewn prosiectau pori er lles cadwraeth sy'n cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth tir pori
7. Annog rhagoriaeth mewn chwaraeon 88
 - a) Ymestyn y rhaglen datblygu hyfforddiant
 - b) Gwella safon cyfleusterau
 - c) Ymestyn rhaglenni datblygu athletwyr a cheffylau hirdymor
 - ch) Annog cyrff nad ydynt yn aelodau cyswllt i ymaelodi
8. Gwella ansawdd ein ceffylau a'n merlod a gweithgarwch bridio 92
 - a) Sefydlu cyrff arwain i gynorthwyo'r broses o wella ansawdd ceffylau a merlod
 - b) Manteisio ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol i wella bridio
 - c) Codi safonau mewn greoedd
 - ch) Cydbwyso gwelliannau genetig ag amrywiaeth genetig
 - d) Gwarchod ceffylau a merlod brodorol a chynhenid
 - dd) Hyfforddi ceffylau ifanc

Adnoddau, Monitro a Gweithredu	102
--------------------------------	-----

Atodiad A: Nodau ac amcanion Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus adrannau'r Llywodraeth	103
--	-----

Rhagair Gweinidogol


Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y cyfraniad mawr y mae'r diwydiant ceffylau yn ei wneud i'r economi, a'r rhan bwysig y mae ceffylau yn ei chwarae ym mywydau cymaint o bobl mewn dinasoedd ac ardaloedd gwledig ledled Cymru a Lloegr. At hynny, mae'r Llywodraeth, ar y cyd â Chyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, yn rhannu argyhoeddiad cryf bod gan y diwydiant y potensial i ddatblygu ymhellach a chyfrannu hyd yn oed yn fwy. Nod y Strategaeth hon yw gwireddu'r potensial hwnnw.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r berthynas rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth wedi datblygu'n sylweddol, ac mae partneriaeth waith wirioneddol wedi cael ei chreu. Mae cyhoeddi'r Strategaeth hon yn garreg filltir yn hanes y bartneriaeth hon, ac yn cydnabod gwerth a photensial pob gweithgarwch sy'n ymwneud â cheffylau.

Roeddem wrth ein bodd gyda'r ymatebion adeiladol a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft, ac mae'r ddogfen wedi datblygu'n sylweddol o ganlyniad i hynny. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno her gyffrous ac ymestynnol, a chydabyddwn y gwaith sylfaen a wnaed gan Gyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain ac eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf i alluogi'r diwydiant i gyflawni'r her honno. Mae'r Strategaeth bellach yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut y gall y diwydiant gyfrannu at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, megis twf economaidd, datblygiadau cymunedol, addysg, chwaraeon, iechyd, adfywio gwledig, diogelu'r amgylchedd a chynhwysiant cymdeithasol a sut y gall y Llywodraeth ei helpu i wella ei berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth yn derfynol, a bydd y Llywodraeth yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o gydweithio â'r diwydiant i gyflawni amcanion cyffredin, er enghraifft mewn perthynas â gwella mynediad marchogion i lwybrau diogel oddi ar y ffordd ac ehangu cyfranogiad. Rydym hefyd am annog y diwydiant i edrych ymlaen at fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddo, megis Gemau Olympaidd Llundain yn 2012.


Nid yw'r Strategaeth hon yn annibynnol. Fe'i cynhyrchwyd ochr yn ochr â'r Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer y Ceffyl, Merlen ac Asyn sydd hefyd yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r diwydiant ceffylau, ac mae'n ategu gwaith presennol megis y cynllun pasbortau ceffylau a sefydlu'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol, y mae'r Llywodraeth eisoes wedi buddsoddi llawer iawn o arian cyhoeddus ynddi.

Mae'r diwydiant ceffylau yn cwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau a busnesau, y mae pob un ohonynt yn dibynnu mewn un ffordd neu'r llall ar y ceffyl ac yn tynnu ar y brwdfrydedd angerddol y mae'n ei greu. Bydd angen manteisio ar y brwdfrydedd hwn er mwyn gweithredu'r Strategaeth, ac ymdrechion parhaus a chadarnhaol pawb sydd â diddordeb mewn ceffylau neu sy'n ymwneud â busnes sy'n gysylltiedig â cheffylau. Er mwyn sicrhau llwyddiant y Strategaeth hon, mae'n hanfodol bod y gwaith da a wnaed ar ddatblygu'r Strategaeth hon yn parhau ac nad yw'n colli momentwm. Felly, anogwn bawb sy'n ymwneud â cheffylau a marchogyddiaeth i ddarllen y Strategaeth hon a datgan eu cefnogaeth, fel y gallwn symud ymlaen fel un corff i gyflawni'r weledigaeth a nodir ganddi o ddyfodol cryf, bywiog a chynaliadwy.



Jim Knight AS

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig ac Ansawdd Amgylcheddol Lleol a'r
Gweinidog dros y Diwydiant Ceffylau**



Richard Caborn AS

Y Gweinidog dros Chwaraeon a Thwristiaeth



Carwyn Jones AC

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Rhagair y Diwydiant

O ystyried y nifer fawr o bobl sy'n marchogaeth neu'n gyrru cerbydau, y nifer fwy sy'n gweithio mewn busnesau sy'n gysylltiedig â cheffylau a'r nifer hyd yn oed yn fwy sydd â diddordeb mewn ceffylau ond nad ydynt yn ymwneud â cheffylau'n uniongyrchol, gallai rhai dybio bod y diwydiant ceffylau yn cynrychioli un o'r carfanau pwysu mwyaf dylanwadol yng Nghymru a Lloegr heddiw.

Gallent hefyd dybio bod y diwydiant hwn gwerth biliynau o bunnoedd mewn sefyllfa dda iawn i gydlynu ei ymdrechion, gwella ei effeithlonrwydd economaidd a darbwylo pobl newydd i ymddiddori yn hawdd.

Yn anffodus byddent yn anghywir yn hyn o beth. Fel cymuned rydym wedi bod yn tangyflawni ers gormod o amser ac nid ydym wedi meddu ar yr ewyllys na'r deall i fanteisio i'r eithaf ar y cryfder sy'n deillio o gydweithredu effeithiol difrifol.

Ond mae gan y Strategaeth hon y gallu i nodi trobwynt pwysig iawn yn hanes llewyrchus y diwydiant ceffylau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynrychioli ffrwyth dwy flynedd o gydweithredu brwdfrydig rhwng yr holl sefydliadau marchogol sydd wedi llofnodi'r Strategaeth, a rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth. Mae hefyd wedi cael mwy o awdurdod yn sgîl yr ymateb enfawr i'r ymarferion ymgynghorol â'i chreodd. Yn arbennig, mae'r Strategaeth yn adlewyrchu gwaith saith 'Hyrwyddwyr' – Annie Dodd (Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain), Claire Williams (Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain), Margaret Linington-Payne (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Cathy McGlynn (ymgynghorydd Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain), Pat Harris (ymgynghorydd Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain), Andrew Finding (Ffederasiwn Marchogol Prydain), Graham Suggett (Ffederasiwn Marchogol Prydain) a David Mountford (Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain) a hyderaf fod y Strategaeth hon yn adlewyrchiad teg o'r hyn y byddai mwyafrif y cyfranogwyr o fewn y diwydiant am ei weld yn digwydd dros y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.


Fodd bynnag, er y gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod y Strategaeth wedi'i chyhoeddi o'r diwedd, rydym bellach yn wynebu'r dasg fwy heriol o weithredu'r 50 o bwyntiau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r holl ymdrech hwn fod o werth. Bydd angen i berson neu bobl, fwy na thebyg, weithredu pob cam. Mae cyfrifoldeb ar bob marchogwr, gyrrwr neu weithiwr yn y diwydiant ceffylau. Os chwaraewch eich rhan bydd y Strategaeth yn llwyddiant. Os yw'n well gennych adael i rywun arall wneud popeth rydych yn colli'ch hawl i gwyno pan nad oes dim yn digwydd.



Graham Cory
Prif Weithredwr, Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cadeirydd, Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain



Gavin Pritchard-Gordon
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cymdeithas Bridwyr Ceffylau Pedigri
Is-gadeirydd, Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain



Andrew Finding
Prif Weithredwr, Ffederasiwn Marchogol Prydain



Julian Marczak
Cadeirydd, Cymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain



Claire Williams
Prif Weithredwr, Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain



Annie Dodd
Cyfarwyddwr Cyswllt Grŵp Cyswllt y Diwydiant, Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain



Lesley Barwise-Munro
Llywydd, Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain

Crynodeb Gweithredol

Diben y Strategaeth hon yw meithrin diwydiant ceffylau cryf a chynaliadwy, cynyddu ei werth economaidd, gwella lles ceffylau a datblygu cyfraniad y diwydiant at fywyd diwylliannol, cymdeithasol, addysgol, iechyd a chwaraeon y genedl. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth o ran lle y mae'r diwydiant am fod o fewn deng mlynedd, sut y mae gwahanol rannau'r diwydiant yn gweddu i'r darlun hwn, a sut y gall y Llywodraeth ei helpu i ddilyn y llwybr hwn. Ategir y Strategaeth gan Gynllun Gweithredu, y bwriedir ei gyhoeddi ddechrau 2006, a fydd yn nodi pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu pethau, y canlyniad terfynol a ddymunir, y sefyllfa bresennol a'r camau nesaf. Dyma fydd sylfaen y gwaith o fonitro cynnydd yn y dyfodol. Bwriedir llunio adroddiad ar gynnydd ar ôl blwyddyn ac ar adegau priodol yn dilyn hynny.

Gellir rhannu'r diwydiant ceffylau fel a ganlyn:

- pob gweithgaredd sy'n seiliedig ar ddefnyddio ceffylau a bod yn berchen arnynt, yn amrywio o weithgareddau proffesiynol i rai hamdden;
- cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn ymwneud â cheffylau ar gyfer y gweithgareddau craidd hynny.

Bwriedir i'r defnydd o'r term 'diwydiant' bwysleisio pwysigrwydd cenedlaethol y gweithgareddau amrywiol hyn, a'r llu o gysylltiadau rhyngddynt, yn ogystal â'r ymrwymiad a rennir gan gyfranogwyr. Mae'r term hefyd yn cynnwys pobl sy'n frwdfrydig dros geffylau nad ydynt yn cyflawni'r gweithgareddau hyn yn llawn amser, a bwriedir iddo gynnwys y llu o farchogion hamdden, perchenogion ceffylau ac eraill nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhan o ddiwydiant, yn yr ystyr draddodiadol.

Mae'r diwydiant ceffylau yn economi sylweddol. Awgryma amcangyfrifon y canlynol:

- £3.4 biliwn yw ei gynnyrch gros;
- Mae'n cyflogi hyd at 250,000 o bobl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol;
- mae 2.4 miliwn o bobl yn marchogaeth;
- mae gan 11 miliwn o bobl ryw ddiddordeb yn y diwydiant ceffylau, ac mae gan 5 miliwn ddiddordeb gweithredol;
- mae'r boblogaeth ceffylau yn 600,000 o leiaf a gallai fod bron yn filiwn.

Mae'r diwydiant yn gwneud cyfraniad pwysig dros ben at yr economi ac at wead cymdeithasol llawer o gymunedau. Mae'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ond nid yw'n gyfyngedig i'r ardaloedd hynny. Awgryma tueddiadau cyfredol, yn enwedig yn yr economi hamdden, botensial am dwf gwirioneddol yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae rhai busnesau bach ac ysgolion marchogaeth ar ei hôl hi o gymharu â sectorau hamdden eraill a gallent ddirywio hyd yn oed ymhellach os na ddônt yn fwy cystadleuol. Y prif ofyniad i sicrhau twf yn ystod y deng mlynedd nesaf yw datblygu'r seilwaith angenrheidiol i weithredu'r camau a nodir yn y Strategaeth hon. Er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd angen i'r diwydiant ceffylau cyfan dderbyn y Strategaeth yn llawn a'i hyrwyddo, a bydd angen ei chefnogi drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Llywodraeth.

Mae iechyd a lles ceffylau, merlod ac asynnod yn hanfodol i lwyddiant y diwydiant, ac mae'n ategu'r Strategaeth gyfan hon. Cyhoeddir Strategaeth Iechyd a Lles ar wahân ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod gan y Llywodraeth, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain (fel rhan o'r strategaeth genedlaethol ehangach ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid) ac mae'r ddwy ddogfen hyn yn gysylltiedig iawn â'i gilydd. Bydd sawl cam gweithredu yn y Strategaeth hon ar gyfer y diwydiant ceffylau o fudd i les ceffylau, er enghraifft, gwella'r broses o reoli tir pori a chreu tir pori mwy diogel, codi safonau perfformiad busnes, a hyrwyddo lefelau sgiliau uwch o fewn y diwydiant.

Nodwyd wyth nod cydgysylltiedig fel rhai allweddol i gyflawni diben cyffredinol y Strategaeth hon. Mae'r wyth nod hyn yn ffurfio sylfaen penawdau unigol y Strategaeth, sy'n cynnwys amcanion manylach a chamau gweithredu penodol y bwriedir iddynt symud y diwydiant ymlaen i wireddu'r weledigaeth gyffredinol.

Nod 1: Uno'r Diwydiant Ceffylau a datblygu ei effaith genedlaethol, rhanbarthol a lleol

Uno'r diwydiant yn genedlaethol - Ni fu'r dulliau cyfathrebu rhwng gwahanol rannau o'r diwydiant bob amser yn effeithiol. Mae'n hanfodol datrys unrhyw anghytundeb o fewn y diwydiant a bod pawb dan sylw yn dechrau cydweithio i hyrwyddo ei ddatblygiad pellach. Fel cam cyntaf tuag at hyn, dylai Cyfarwyddwyr Cyfathrebu'r prif gyrff marchogol ddod ynghyd i rannu gwybodaeth ac adeiladu cydberthnasau agosach. Dylai hyn alluogi'r diwydiant i ddatblygu swyddogaeth gyfathrebu gydlynol, ymhen amser, a gwell ymdeimlad o undod.

Datblygu dylanwad rhanbarthol a lleol y diwydiant – Yn yr un modd ag y bydd dod ynghyd yn fwy yn cynyddu perthnasedd cenedlaethol y diwydiant yn sylweddol, bydd mwy o gydweithredu ar lefel ranbarthol a lleol yn gwella ei effeithiolrwydd. Mae angen i'r diwydiant gynyddu ei adnoddau ar lefel ranbarthol ac ymgysylltu â'r amrywiaeth cynyddol o gyrff ranbarthol sy'n chwarae rhan fwyfwy sylweddol ym mywydau pobl. Yn yr un modd, ar lefel lleol, mae angen i'r diwydiant ddatblygu ei gysylltiadau ag awdurdodau lleol. Yn dilyn hyn, dylai'r diwydiant annog datblygiad rhwydweithiau ceffylau lleol i gynrychioli a hyrwyddo diddordebau sy'n gysylltiedig â cheffylau ar lawr gwlad ar draws yr amrywiaeth llawn o gyfrifoldebau awdurdod lleol, megis mynediad a chynllunio.

Nod 2: Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth a datblygu cyfraniad cymdeithasol y Diwydiant Ceffylau

Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth – Mae dyfodol y diwydiant yn dibynnu ar fabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysol a denu nifer gyson o farchogion newydd. I'r rhan fwyaf o bobl, yr ysgol farchogaeth yw eu cyflwyniad i'r diwydiant ceffylau, ond gall ansawdd y profiad hwn amrywio'n fawr. Mae angen i bob rhan o'r diwydiant gydnabod a chefnogi'r rhan hanfodol a chwaraeir gan ysgolion marchogaeth fel y sylfaen ar gyfer creu a chynnal cyfranogiad ar raddfa fawr. O ran ysgolion marchogaeth, mae angen iddynt hwy fod yn fusnesau a gaiff eu rhedeg yn broffesiynol, sy'n cynnig cyfleusterau deniadol, effeithlon a diogel, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, er mwyn cystadlu'n effeithiol â gweithgareddau hamdden eraill. I sicrhau mwy o gyfranogiad, ac i sicrhau profiad marchogaeth o ansawdd uchel i

bawb, mae angen i'r diwydiant lunio cynllun ar gyfer sut y gall ysgolion marchogaeth fanteisio i'r eithaf ar eu potensial. Hefyd, mae angen iddo gynnal ymchwil fanwl i nifer y marchogion a'u lleoliad, ac i ganfyddiadau'r cyhoedd o farchogyddiaeth er mwyn nodi rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig a mynd i'r afael â hwy.

Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu'r manteision cymdeithasol, addysgol ac iechydd sy'n gysylltiedig â cheffylau - Er ei bod yn hanfodol cynyddu cyfranogiad am resymau economaidd, ceir rhesymau da iawn eraill dros ddenu pobl newydd i farchogaeth, gan ehangu ei apêl, a chodi ymwybyddiaeth o'i gyfraniad posibl at faterion cymdeithasol ehangach. Ymhlith y rhain mae cyrhaeddiad addysgol; datblygiad personol a chymdeithasol; chwaraeon a hamdden; iechydd a ffitrwydd corfforol; iechydd meddwl; anabledd; allgáu cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol. Ceir enghreifftiau o waith da yn cael ei wneud gyda cheffylau ymhob un o'r meysydd hyn, ond ar hyn o bryd maent yn eithaf prin ac yn tueddu deillio o frwdfrydedd yr ychydig ymarferwyr hynny sy'n gweithio gyda chyllideb ceiniog a dimau. Mae angen i'r diwydiant cheffylau ddatblygu ei botensial yn y meysydd cymdeithasol, addysgol ac iechydd, er mwyn cyfrannu'n fwy at y meysydd hyn a manteisio ar y ffrydiau ariannu sylweddol sy'n gysylltiedig â hwy. Bydd angen i'r diwydiant ymgysylltu ag adrannau perthnasol y Llywodraeth i'w darbwyllio o'r manteision gwirioneddol y gall eu cynnig iddynt o ran cyflawni nodau ac amcanion ei Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus.

Nod 3: Gwella perfformiad economaidd busnesau marchogol

Codi safonau o ran perfformiad busnes – Ceir mwy na 18,000 o fusnesau marchogol gweithredol ym Mhrydain Fawr. Mae'r mwyafrif yn fusnesau bach neu ganolig eu maint. Mae busnesau marchogol yn tueddu gwneud llai o elw cyfartalog na busnesau tebyg mewn sectorau eraill, a phrin yw eu hymwybyddiaeth o sut y maent yn perfformio o gymharu ag eraill. Mae angen i'r diwydiant ddatblygu system feincnodi i alluogi busnesau i asesu eu perfformiad, ac i ganolbwyntio ar y rhannau hynny o'u gweithrediadau y gellid eu gwella.

Annog cydweithredu i wella cyfleoedd busnes – Yn aml, nid yw busnesau marchogol yn rhyngweithio â'i gilydd rhyw lawer, ac yn aml cânt eu rhedeg gan bobl sydd â diddordeb mewn cheffylau yn hytrach na diddordeb ym myd busnes. Mae angen i'r diwydiant sicrhau bod yr arbenigedd ymarferol hwn yn cael ei baru â chraffter busnes a sgiliau rheoli digonol er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y busnesau hyn. Mae datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i dargedu yn y gweithle yn angenrheidiol i reolwyr marchogol, fel y mae system rhwydwaith busnes effeithiol i rannu gwybodaeth, profiadau ac arfer gorau.

Sicrhau cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Datblygu – O ganlyniad i'w swyddogaethau amrywiol a'r adnoddau sylweddol sy'n berthnasol i wella perfformiad economaidd y diwydiant cheffylau, mae'n hanfodol bod y diwydiant yn cynnal trafodaethau rheolaidd ag Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, er mwyn amlygu pwysigrwydd y diwydiant a gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Sicrhau chwarae teg o ran materion ariannol a rheoliadol – Mae llawer o bobl yn y diwydiant o'r farn bod busnesau marchogol yn cael eu rhwystro'n annheg gan rwystrau rheoliadol anghyfiawn i dwf a diffyg chwarae teg ym myd busnes. Gall

anghysonderau o'r fath, e.e. mewn perthynas â TAW, ardrethi busnes a cheisiadau cynllunio mewn perthynas â'r defnydd o dir, gael effaith anghymesur lle y mae busnesau yn gwneud elw bach iawn. Er nad yw'r Llywodraeth na'r diwydiant bob amser yn cytuno ar natur, effaith na hyd yn oed bodolaeth anghysonderau o'r fath, maent yn cytuno ar yr angen i'r diwydiant gael cymaint o chwarae teg â phosibl o gymharu â sectorau tebyg eraill. Maent hefyd yn cytuno y gellid gwneud mwy i annog y broses o gymhwyso canllawiau cynllunio presennol yn gyson, a'r angen i gynnal trafodaethau agored ac adeiladol er mwyn ystyried ac, os yw'n bosibl, fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau ariannol a rheoliadol gwirioneddol a sylweddol o ran busnesau marchogol y gall y diwydiant eu nodi.

Dod i farn ar statws y ceffyl ar gyfer y diwydiant cyfan – O dan ddeddfwriaeth ddomestig, dim ond ceffylau a ddefnyddir i ffermio tir amaethyddol neu a gaiff eu ffermio ar gyfer cig neu groen a all gael eu galw'n anifeiliaid amaethyddol. I'r gwrthwyneb, mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn trin y ceffyl fel anifail sy'n cynhyrchu bwyd. Mae llawer o'r farn bod y sefyllfa hon yn rhoi'r diwydiant o dan anfantais, yn enwedig o'i gymharu â'r diwydiant ffermio. Fodd bynnag, ni rennir y farn hon gan bawb, ac mae angen i'r diwydiant bennu p'un a yw statws y ceffyl yn fater o bwys, ac, os ydyw, ddod i gytundeb ar draws y diwydiant a chyflwyno achos cryf dros newid.

Mynd i'r afael â phroblemau yn gysylltiedig ag yswiriant a rheoli risgiau ieuchyd a diogelwch – Mae marchogaeth yn weithgaredd peryglus. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar, mae cynnydd sylweddol mewn premiymau yswiriant wedi peri anawsterau ariannol sylweddol i berchenogion busnesau marchogaeth a stablau hurio. Mae'r problemau hyn yn rhannol adlewyrchu cymdeithas fwyfwy ymgyfreithgar, wedi'i hategu gan amllder achosion "dim ennill, dim ffi", ac efallai, yn rhannol o leiaf, gellir mynd i'r afael â hwy drwy ddealltwriaeth well o sut i reoli risgiau a thrwy gadw cofnodion yn fwy effeithiol. Yn ogystal, bu i ddyfarniad diweddar gan Dŷ'r Arglwyddi (Mirvahedy v Henley) arwain at oblygiadau pwysig o ran perchenogion ceffylau, a all yn awr fod yn gyfrifol am ddifrod a wneir gan eu ceffylau hyd yn oed os nad ydynt wedi bod yn esgeulus. Mae angen i'r diwydiant barhau i drafod ffyrdd o sicrhau y cydnabyddir ac y derbynnir y risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth, gyda'r Llywodraeth; helpu perchenogion busnesau marchogaeth i wella ansawdd eu cofnodion; ac archwilio ffyrdd o leddfu goblygiadau niweidiol dyfarniad Mirvahedy o ran perchenogion ceffylau, gyda'r Llywodraeth.

Cynyddu gwerth nwyddau a gwasanaethau marchogol – Mae data digonol ar werth a thwf y diwydiant ceffylau a'i wahanol rannau yn hanfodol i wneud penderfyniadau masnachol a pholisi priodol. Nid yw ystadegau cyfredol yn ddefnyddiol o safbwynt y diwydiant, a dylid gwneud gwaith i hwyluso'r broses o gasglu ystadegau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i asesu gwerth y diwydiant. Yn ogystal, mae angen gwneud mwy i hyrwyddo'r DU fel ffynhonnell o nwyddau a gwasanaethau o ansawdd, ac annog y defnydd o dechnolegau newydd a datblygol i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnesau.

Cynyddu twristiaeth farchogol – Tra bod consensws cyffredinol ynghylch yr angen i gynyddu cyfleoedd ym maes twristiaeth farchogol, ceir llai o gytundeb ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol. Mae angen i'r diwydiant wneud mwy; er enghraifft, annog ymagwedd gydlynol tuag at hyrwyddo twristiaeth farchogol drwy awdurdodau

lleol, cynghorau twristiaeth rhanbarthol a chyrff cenedlaethol; cyhoeddi cofrestr genedlaethol o wyliau marchogaeth a chyfleoedd ym maes twristiaeth farchogol ar y rhyngwrdd; a sefydlu system raddio ddisgrifiadol genedlaethol ar gyfer twristiaeth farchogol.

Nod 4: Gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau marchogol

Denu a chadw staff - Mae'r diwydiant ceffylau yn wynebu heriau mawr o ran denu a chadw niferoedd digonol o staff. Nid yw gwybodaeth am yrfaoedd bob amser ar gael yn hawdd i bobl ifanc, ac efallai na fydd natur y gwaith yn gweddu'n hawdd i ffyrdd o fyw confensiynol. Mae angen i'r diwydiant ddatblygu strwythurau clir ar gyfer gyrfaedd a chymwysterau, cynyddu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, gwella amodau gwaith, a chydweithio'n agosach â chynghorwyr gyrfaedd. Dylid defnyddio profiad gwaith yn fwy effeithiol fel modd i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant.

Darparu amgylchedd lle y mae pobl am ddatblygu gyrfa – Mae angen amrywiaeth ehangach o sgiliau busnes ar berchenogion busnesau marchogol na'r hyn y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu arno ar hyn o bryd. Mae angen i'r diwydiant eu hannog i ddatblygu eu sgiliau ym maes rheoli adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a rheoli adnoddau ffisegol. Heblaw am Gymdeithas y Gweision Stabl ym myd rasio, prin yw cynrychiolaeth cyflogaion yn y diwydiant. Mae angen i'r diwydiant ystyried ymhellach p'un a oes galw am fwy o gynrychiolaeth a ph'un a fyddai'n arwain at fanteision ychwanegol.

Nodi lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi – Ychydig iawn o ddata cywir sy'n bodoli ar hyn o bryd ar lefelau sgiliau pobl sy'n gweithio yn y diwydiant neu ofynion sgiliau tebygol yn y dyfodol. Mae angen i'r diwydiant gynnal ymchwil er mwyn gwella ei ddealltwriaeth a'i waith paratoi yn y meysydd hyn.

Gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y coleg ac yn y gweithle – Mynegir pryderon gan rai ynghylch rhywfaint o'r cynnwys mewn cysiau hyfforddi colegau a chysiau hyfforddi analwedigaethol. Mae angen i ddarparwyr hyfforddiant yn y diwydiant a cholegau gydweithio'n agosach, mae angen datblygu trefniadau ariannu mwy hyblyg, ac mae angen datblygu llwybrau hyfforddiant a gyrfaedd gwell.

Nod 5: Cynyddu mynediad i farchogaeth a gweithgarwch gyrru cerbydau oddi ar y ffordd

Sicrhau rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cydgysylltiedig wedi'i gynnal yn dda – Ceir pryderon mawr ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer nodi, sicrhau, cyflwyno a diogelu hawliau tramwy statudol. Gwneir cynnydd drwy fentrau megis Darganfod Ffyrdd Coll a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ond mae angen gwneud llawer mwy. Mae angen strwythur wedi'i gydlyn ar y diwydiant i arwain ei ddiddordebau o ran mynediad ar lefel genedlaethol; mae angen iddo sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r sefydliadau sydd wedi arwain y ffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr; ac mae angen iddo ddatblygu cynllun wedi'i gydlyn i wella mynediad ar gyfer pob marchogwr a gyrrwr. Ar lefel lleol, mae angen datblygu Fforymau Mynediad Lleol ymhellach fel y gallant weithio'n effeithiol gydag awdurdodau lleol i gyflwyno Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol sy'n ystyried anghenion marchogion yn llawn.

Cynyddu'r ddarpariaeth o ran llwybrau marchogaeth eraill oddi ar y ffordd ac ardaloedd â mynediad agored i farchogion – Gall ffermwyr a pherchenogion tir cyhoeddus a phreifat eraill roi mynediad gwirfoddol i'w tir ar gyfer marchogaeth a gyrru. Mae angen annog cyrff fel y Comisiwn Coedwigaeth i barhau i ganiatáu mynediad hawdd, ac mae angen datblygu canllaw arfer da i annog eraill i roi prosiectau mynediad tebyg ar waith. Mae angen archwilio a lledaenu potensial cynlluniau stiwardiaeth a chymhorthdal eraill i annog perchenogion tir i ganiatáu mynediad; ac mae angen derbyn toll-llwybrau fel rhan gyfreithlon o'r darlun mynediad cyffredinol.

Parhau ag addysg diogelwch i fodurwyr, marchogion a gyrwyr cerbydau – Ceir o leiaf 3,000 o ddamweiniau ar y ffyrdd bob blwyddyn sy'n cynnwys ceffylau. Yn ffodus, prin yw'r marchogion sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yn y damweiniau hyn, ond mae angen gwneud gwaith i greu darlun mwy cywir o'r sefyllfa gyffredinol o ran diogelwch ceffylau ar y ffordd. Gall hyn helpu i leihau damweiniau drwy nodi'r manau lleol lle y ceir llawer o ddamweiniau y gall yr awdurdodau priffyrdd ymdrin â hwy, a darparu tystiolaeth werthfawr i gefnogi ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi gwneud gwaith da i addysgu modurwyr ynghylch sut y dylent fynd heibio i geffylau'n ddiogel ar y ffyrdd, ac mae bellach angen i'r diwydiant barhau i weithio gyda'r Adran a'r Asiantaeth Briffyrdd i archwilio ffyrdd pellach o fynd i'r afael â materion diogelwch, megis arwynebau ffyrdd amhriodol, a hyrwyddo addysg diogelwch, er budd marchogion a gyrwyr ceir.

Sicrhau bod marchogaeth a gyrru cerbydau mewn trefi a maestrefi yn cael ei hyrwyddo a'i wella – Yn aml ystyrir marchogaeth yn weithgaredd 'gwledig' yn unig. Mewn gwirionedd, mae galw mawr am fynediad i leoedd diogel i farchogaeth ar gyrion trefi a dinasoedd, yn ogystal ag o fewn canolfannau trefol. Ceir enghreifftiau da o gyfleusterau marchogaeth mewn trefi a maestrefi eisoes, ond mae angen i'r diwydiant fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo marchogaeth a gyrru trefol, ac amlygu'r angen i ddarparu cyfleusterau marchogol i wasanaethu ardaloedd lle ceir datblygiadau tai mawr.

Nod 6: Ystyried effaith amgylcheddol y ceffyl

Gwella safonau rheoli tir – Yn ogystal â'r effaith gadarnhaol a gaiff ceffylau ar yr amgylchedd, mae hefyd angen rheoli effeithiau negyddol posibl. Mae angen i'r diwydiant weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i hyrwyddo safonau uchel o ran rheoli tir pori, sicrhau y parheir i reoli llysiau'r gingroen yn effeithiol, a sicrhau ymagwedd fwy cyson tuag at gynllunio. Mae angen i'r diwydiant a'r Llywodraeth wella eu gwybodaeth am y manau lle y cedwir ceffylau, ac am ansawdd y tir a ddefnyddir ar gyfer pori.

Annog storio a gwaredu gwrtaith yn gywir ac yn ddiogel – Mae storio a gwaredu gwrtaith ceffylau yn broblem barhaus i berchenogion ceffylau. Ar hyn o bryd, ystyrir y broses o waredu gwastraff ceffylau yn wastraff risg isel gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac ymdrinnir ag ef o dan ei Menter Risg Isel. Dylai dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop na ellir dosbarthu elifion da byw yn 'wastraff' pan y'i defnyddir fel gwrtaith pridd fod o fudd i'r diwydiant ceffylau hefyd. Fodd bynnag, mae

angen datblygu a lledaenu cyngor clir ac ymarferol ar ffyrdd diogel a chywir o storio, compostio, gwaredu a gwasgaru gwastraff.

Annog y defnydd o geffylau mewn prosiectau pori er lles cadwraeth sy'n cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth tir pori – Gall ceffylau a reolir yn dda fod o fudd i fywyd gwyllt ar ddolydd a thir pori. Mae 75 o gynlluniau cadwraeth ar waith yng Nghymru a Lloegr, sy'n defnyddio bridiau merlod brodorol i helpu i gadw llystyfiant ar fryniau'n agored drwy fwyta porfeydd garw. Mae'r cynlluniau hyn nid yn unig yn manteisio ar gryfderau bridiau brodorol ond maent hefyd yn diogelu eu dyfodol. Ceir amrywiaeth o ganllawiau sy'n ategu prosiectau cadwraeth, ond gallai fod lle i'w hadolygu er mwyn llunio canllaw arfer da cyfunol.

Nod 7: Annog rhagoriaeth mewn chwaraeon

Ymestyn y rhaglen datblygu hyfforddiant – Mae Prydain Fawr eisoes yn llwyddiannus mewn sawl maes o fabolgampau marchogol, ond mae angen i'r diwydiant weithio'n galed i gynnal y sefyllfa hon, yn rhyngwladol ac yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o chwaraeon. Rhydd Gemau Olympaidd 2012 gyfle mawr i ddatblygu mabolgampau marchogol ar bob lefel. Mae Ffederasiwn Marchogol Prydain (BEF) yn datblygu Rhaglen Datblygu Hyfforddiant unedig, a fydd yn helpu i godi safonau drwy'r diwydiant.

Gwella safon cyfleusterau – Mae cyfleusterau o ansawdd uchel yn hanfodol i berfformiad llwyddiannus, ac mae'r Ffederasiwn yn arwain y ffordd o ran datblygu strategaeth i annog y broses o wella cyfleusterau marchogol ymhlith ei aelodau. Mae angen rhannu manteision y gwaith hwn yn ehangach o fewn y diwydiant.

Ymestyn rhaglenni datblygu athletwyr a cheffylau hirdymor – Dilynnir rhaglenni datblygu athletwyr hirdymor gan chwaraeon amrywiol i helpu pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn. Mae gan y Ffederasiwn raglenni o'r fath ar gyfer marchogion ifanc a cheffylau, a dylai'r rhain gael eu hymestyn i ystod ehangach o sefydliadau ceffylau sydd â diddordeb mewn annog rhagoriaeth.

Annog cyrff nad yn ydynt yn aelodau cyswllt i ymaelodi – Mae llawer o gyrff chwaraeon lleol yn trefnu gweithgareddau marchogol heb fod yn gysylltiedig â chorff llywodraethu cenedlaethol eu camp. Weithiau ni chaiff rheolau a rheoliadau eu gweinyddu'n dda, ac nid yw yswiriant nac iechyd a diogelwch yn cyrraedd y safonau priodol. Dylid cynnwys grwpiau 'digysylltiad' o'r fath i godi safonau, rhoi profiad gwell i gystadleuwyr, ac annog rhagoriaeth.

Nod 8: Gwella ansawdd ein ceffylau a'n merlod a gweithgarwch bridio

Sefydlu cyrff arwain i gynorthwyo'r broses o wella ansawdd ceffylau a merlod – Mae bridio ceffylau a merlod o ansawdd uchel yn gofyn am ymdrech sylweddol. Fodd bynnag, heblaw am Gymdeithas Bridwyr Ceffylau Pedigri, sy'n gofalu am anghenion rasio, mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo'r gwaith o fridio ceffylau a merlod yn rhy gymhleth. Mae angen nodi a datblygu cyrff arwain ar gyfer bridio ceffylau, heblaw am geffylau rasio pedigri, a allai gynrychioli a chydlynw safbwyntiau cymdeithasau'r bridiau a sefydliadau eraill o fewn eu cwrmpas.

Manteisio ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol i wella bridio – Mae angen cronfa ddata genedlaethol a chynhwysfawr ar y diwydiant a all gasglu gwybodaeth am fridio a pherfformiad ynghyd er budd pawb. Mae'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol yn brosiect ar y cyd rhwng Defra a'r diwydiant ceffylau, a fydd yn darparu ffynhonnell ganolog o wybodaeth ddibynadwy am geffylau a gaiff eu bridio, ceffylau y mae rhywun/rhywrai yn berchen arnynt neu geffylau wedi'u cofrestru yn y DU. Mae angen i'r diwydiant gefnogi'r prosiect yn llawn, a manteisio i'r eithaf arno.

Codi safonau mewn greoedd – Ceir pryderon ynghylch safonau rhai greoedd a'u dulliau o gadw cofnodion. Rhydd Cynllun Nod Ansawdd Bridwyr gyfle i unioni'r sefyllfa, ac mae angen i'r diwydiant bridio gefnogi'r cynllun fel safon gyffredin i'r diwydiant. Mae angen gwneud gwaith i gynorthwyo bridwyr er mwyn cadw eu harbenigedd: dylid ystyried cynlluniau megis Dynodi Cesig Premiwm fel ffyrdd o gydnabod ansawdd y tu hwnt i geffylau pedigri.

Cydbwyso gwelliannau genetig ag amrywiaeth genetig – Mae angen cydbwyso'r ymgais i sicrhau gwelliannau genetig â chynnal amrywiaeth genetig, gan sicrhau 'ffitrwydd' genetig y re genedlaethol a chynnal y gronfa enetig.

Gwarchod ceffylau a merlod brodorol a chynhenid – Mae gan y DU amrywiaeth unigryw o ferlod brodorol. Yn ogystal â ffurfio rhan sylweddol o'r sector bridio ceffylau, maent yn cyfrannu at gadwraeth a thwristiaeth, ac maent yn anifeiliaid poblogaidd iawn ar gyfer marchogaeth a gyrru. Mae angen gwneud gwaith i gydnabod y rhan y mae ceffylau a merlod brodorol yn ei chwarae yn y meysydd hyn yn fwy.

Hyfforddi ceffylau ifanc – Nid oes diben bridio ceffylau a merlod o ansawdd os na chânt eu hyfforddi i berfformio ar eu gorau ym mha rôl bynnag y byddant yn ei chyflawni. Rhaid annog y rhai sy'n gyfrifol am hyfforddi ceffylau ifanc i'w galluogi i gynhyrchu ceffylau sy'n perfformio i'w gallu corfforol gorau posibl.

Cyflwyniad

Diben y Strategaeth hon

1. Diben y Strategaeth hon yw meithrin diwydiant ceffylau cryf a chynaliadwy, cynyddu ei werth economaidd, gwella lles ceffylau a datblygu cyfraniad y diwydiant at fywyd diwylliannol, cymdeithasol, addysgol, iechyd a chwaraeon y genedl. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth o ran lle y mae'r diwydiant am fod o fewn deng mlynedd, sut y mae gwahanol rannau'r diwydiant yn gweddu i'r darlun hwn, a sut y gall y Llywodraeth ei helpu i ddilyn y llwybr hwn.

Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau

2. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain (y Cydffederasiwn) a'r Llywodraeth yn rhannu gweledigaeth y bydd y diwydiant ceffylau, o fewn deng mlynedd, wedi datblygu'n sylweddol o'i sefyllfa bresennol, y bydd y darnio sydd wedi rhwystro ei gynnydd yn y gorffennol wedi'i ddatrys, ac y bydd marchogyddiaeth yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu fel gweithgaredd busnes, chwaraeon a hamdden llwyddiannus a sylweddol.

Y weledigaeth ar gyfer 2015 yw:


- bydd cyfleoedd i farchogaeth ar gael i bawb o bob oedran a gallu, bydd y cyfranogwyr yn niferus ac yn amrywiol, ac ni fydd y gweithgaredd yn cael ei ystyried yn un elitaidd, allgynhwysol neu ddrud sy'n atal pobl rhag cymryd rhan;
 - bydd y twf hwn yn cael ei ategu gan rwydwaith cenedlaethol o ganolfannau marchogaeth o ansawdd uchel, a reolir yn broffesiynol ac sy'n ariannol ddiogel;
 - bydd gan farchogion a gyrwyr fynediad i rwydwaith helaeth a diogel o ansawdd uchel o ffyrdd oddi ar y ffordd statudol ac anstatudol;
 - bydd y diwydiant ceffylau yn gorff unedig a dylanwadol mewn perthynas â chefnogi'r ystod eang o ddiddordebau mae'n ei gwmpasu;
 - bydd y diwydiant wedi sefydlu ei hun ymhellach fel sector busnes arwyddocaol a bydd yn cael ei gydnabod yn eang fel un sy'n cyfrannu'n sylweddol at economïau cenedlaethol a rhanbarthol, trefol a gwledig, at fywyd cymdeithasol a diwylliannol y genedl, ac at amgylchedd cynaliadwy a reolir yn dda;
 - bydd chwaraeon marchogol yn chwarae rhan ganolog yn ymwybyddiaeth y genedl o chwaraeon, yn seiliedig ar gyflawniadau cenedlaethol a rhyngwladol proffil uchel ym myd chwaraeon (gan gynnwys llwyddiant yng Ngemau Olympaidd 2012), a bydd yn cael sylw rheolaidd a chadarnhaol gan y cyfryngau arferol a phrif ffrwd;
 - bydd safle Prydain fel arweinydd byd-eang ym maes marchogyddiaeth a bridio yn cael ei gadarnhau; bydd ei dreftadaeth farchogol unigryw yn cael ei diogelu a'i dathlu; a bydd ei henw da fel cenedl o berchenogion a bridwyr ceffylau cyfrifol a chymwys yn cael ei ddatblygu drwy safonau hyd yn oed yn uwch o ran iechyd a lles ceffylau.
3. Gobeithir y bydd y Strategaeth hon, a'r Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod, sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig, yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol, ond cyflawnadwy hon,

yn ein barn ni. Fodd bynnag, bydd angen i bawb sydd â diddordeb mewn ceffylau neu sy'n gysylltiedig â busnes sy'n ymwneud â cheffylau ymdrechu'n barhaus ac mewn modd cadarnhaol i'w chyflawni. Roedd y Cydffederasiwn a'r Llywodraeth wrth eu bodd gyda'r ymagwedd adeiladol a ddangoswyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd wrth baratoi'r ddogfen hon ac maent yn edrych ymlaen at weld lefelau tebyg o gefnogaeth o bob rhan o'r byd ceffylau wrth weithredu'r pwyntiau a gynhwysir yn y Strategaeth hon, a gwireddu'r weledigaeth hon.

Natur y diwydiant ceffylau

4. Mae'r diwydiant ceffylau yn fwy amrywiol nag unrhyw sector arall bron. Yn y bôn, gellir ei rannu'n ddwy ran:
 - gweithgareddau yn seiliedig ar ddefnyddio ceffylau a bod yn berchen arnynt,
 - cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn ymwneud â cheffylau ar gyfer y gweithgareddau craidd hynny.
5. Mae gweithgareddau sy'n ffurfio craidd y diwydiant yn amrywio o rai proffesiynol i rai hamdden. Yn y canol ceir llawer o farchogion lled-broffesiynol, a chyfranogwyr y mae eu cysylltiad â'r diwydiant wedi'i rannu rhwng ennill bywoliaeth a chyflawni gweithgareddau hamdden yn unig.
6. Mae craidd y diwydiant yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer anghenion defnyddwyr. Mae'r gweithgareddau a anelir at farchogion proffesiynol yn cynnwys bridwyr masnachol, chwaraeon cysylltiedig, hyfforddwyr a rasio. Mae'r gweithgareddau hamdden yn cynnwys darparu gwersi marchogaeth a mynd ar gefn ceffyl (hacio), chwaraeon digysylltiad ac atyniadau ymwelwyr.
7. Mae'r rhan arall o'r diwydiant yn cynnwys darparwyr nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y craidd. Mae enghreifftiau yn cynnwys ffariaeth, cyflenwi porthiant, gwasanaethau milfeddygol, iardiau cadw a hurio ceffylau, lleoliadau, harneisiau, hyfforddi gweithluoedd, ac yswiriant.
8. Hefyd, ceir llawer o sefydliadau, cymdeithasau ac elusennau ceffylau sy'n darparu gwasanaethau a chanolbwynt ar gyfer eu haelodau ac sy'n cwmpasu amrywiaeth o ddiddordebau a phryderon gwahanol. Mae sefydliadau lles ac elusennau'n rhan hanfodol o'r diwydiant ac maent yn weithredol o ran rhoi gwybodaeth ac arweiniad, yn ogystal â darparu gwasanaethau a gofal adferol ar gyfer ceffylau, merlod ac asynnod.
9. Bwriedir i'r defnydd o'r term 'diwydiant' bwysleisio pwysigrwydd cenedlaethol y gweithgareddau hyn o'u hystyried gyda'i gilydd, a'r llu o gysylltiadau rhyngddynt, yn ogystal â'r ymrwymiad a rennir gan y rhai sy'n cymryd rhan ynddynt. Ni fwriedir iddo hepgor y llu o bobl sy'n frwdfrydig dros geffylau nad ydynt yn cyflawni'r gweithgareddau hyn yn llawn amser, efallai na fydd rhai ohonynt yn eu hystyried eu hunain yn rhan o ddiwydiant yn yr ystyr gonfensiynol ond yn hytrach eu bod yn perthyn i frawdoliaeth geffylau fwy llac neu yn bennaf i grŵp ceffylau arbenigol. Mae'r term 'ceffyl' yn cynnwys merlod ac asynnod, tra bod 'marchog' yn cynnwys gyrrwyr cerbydau a neidwyr.

10. Mae'r diagram canlynol yn dangos sut y mae gwahanol rannau'r diwydiant yn ymwneud â'i gilydd.



(Noder y bwriedir i'r sector a elwir uchod yn 'Cymdeithasau' gynnwys pob math a maint o sefydliad, elusen, cymdeithas neu grŵp â diddordeb mewn ceffylau.)

Maint y diwydiant

11. Ym mis Mawrth 2004 cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Chyd-ffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain (BHIC) ymchwil a wnaed i'r diwydiant ceffylau ym Mhrydain Fawr¹, gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth yr Alban. Amcangyfrifodd yr ymchwil hon bod cynnyrch crynswth² y diwydiant yn £3.4 biliwn. Er bod y ffigur hwn yn seiliedig ar y data cyfyngedig a oedd ar gael, ac er nad yw mor gadarn â data ar gyfer diwydiannau eraill, mae'n awgrymu bod y diwydiant ceffylau hyd yn oed yn fwy sylweddol nag y byddai llawer o bobl wedi meddwl.
12. Mae amcangyfrifon eraill yn deillio o ddata sy'n bodoli eisoes yn nodi:
- mae'r diwydiant ceffylau yn cyflogi 50,000 o bobl yn uniongyrchol a hyd at 200,000 o bobl yn anuniongyrchol;
 - mae 2.4 miliwn o bobl yn marchogaeth;
 - mae gan 5 miliwn o bobl ddiddordeb gweithredol yn y diwydiant ceffylau;
 - mae gan 11 miliwn o bobl ryw ddiddordeb, gan gynnwys gwyllo rasio ceffylau ar y teledu;
 - mae'r boblogaeth ceffylau bresennol rhwng 600,000 ac ychydig o dan filiwn.

¹ A Report of Research on the Horse Industry in Great Britain, a baratowyd gan The Henley Centre, Mawrth 2004. Gweler www.defra.gov.uk/rural/horses/topics/research.htm

² Yn syml, dyma werth marchnad yr holl nwyddau a gwasanaethau yn ymwneud â cheffylau a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr bob blwyddyn. I roi enghraifft, y cynnyrch crynswth yn y diwydiant gweithgynhyrchu ceir yw'r hyn y mae pobl yn ei wario ar brynu ceir a darnau sbâr; gwerth ychwanegol crynswth (GVA) yw'r cynnyrch crynswth llai'r hyn y mae'r diwydiant ceir yn ei brynu i mewn o ddiwydiannau eraill. Mae GVA yn ffigur mwy defnyddiol wrth nodi beth yw gwerth diwydiant, am ei fod yn cyfateb i'r incymau a enillir yn uniongyrchol oddi mewn iddo. Yn anffodus, nid oes gennym y wybodaeth sydd ei hangen i nodi GVA y diwydiant ceffylau.

Iechyd a Lles Ceffylau

13. Mae iechyd a lles ceffylau, merlod ac asynnod yn hanfodol i dwf y diwydiant yn y dyfodol ac mae'n hanfodol i'r wyth nod strategol. Rhaid i'r diwydiant ceffylau barhau i gydnabod bod iechyd a lles da yn angenrheidiol ymhob agwedd ar ei weithgareddau, a rhaid iddo sicrhau bod ystyriaethau iechyd a lles yn rhan graidd o unrhyw hyfforddiant neu addysg a gynhelir o fewn y diwydiant ceffylau.
14. Oherwydd ei safle arbennig, mae iechyd a lles ceffylau yn destun Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod ar wahân ond cysylltiedig. Caiff y strategaeth honno ei datblygu fel rhan o'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer Prydain Fawr a chaiff ei chyhoeddi, yn dilyn cyfnod ymgynghori, yn 2006.
15. Mae gweithgor diwydiant, a arweinir gan Gymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain, wedi datblygu strategaeth ddrafft³, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 24 Awst 2005. Amcan y ddogfen honno, sy'n ategu'r Strategaeth hon ar gyfer y diwydiant ceffylau, yw sicrhau gwelliannau y gellir eu dangos a'u cynnal o ran iechyd a lles ceffylau, merlod ac asynnod, yn enwedig mewn meysydd lle ceir dioddefaint ar hyn o bryd.

Y weledigaeth ar gyfer y Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod erbyn 2015 yw:

- y dylai pob ceffyl fwynhau safonau da o iechyd a lles.
 - y dylai pob unigolyn sy'n gyfrifol am iechyd a lles ceffylau feddu ar wybodaeth ddigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol a chyflawni'r ddyletswydd gofal.
16. Mae'r defnydd o geffylau, merlod ac asynnod yn diffinio sawl agwedd ar y broses o'u rheoli a llawer o'r risgiau cyffredinol y maent yn eu hwynebu, ac felly'n dylanwadu ar eu statws iechyd a lles. Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod y penderfyniadau sylfaenol hwn a'i bwysigrwydd o ran nodi sut y dylid mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd a lles.
Nodir nifer o nodau yn y strategaeth ddrafft, gan gynnwys:
 - sefydlu neu gadarnhau statws iechyd a lles presennol y poblogaethau gwahanol, yn enwedig y sector hamdden;
 - nodi blaenoriaethau ymchwil a ffynonellau ariannu ar eu cyfer;
 - adolygu'r achos dros lunio rhagor o reoliadau neu eu diwygio, yn wirfoddol neu'n statudol, yn enwedig mewn perthynas â chludo ceffylau, clymu ceffylau, gweithredoedd iardiau cadw a hurio ceffylau, gwarchodfeydd a gwaredu carcassau;
 - sicrhau bod clefydau yn cael eu monitro a'u rheoli yn effeithiol ac yn ddigonol;
 - cefnogi a hyrwyddo bridio cyfrifol;
 - cynnal argaeledd parhaus meddyginiaethau ar gyfer ceffylau;

³ Gweler www.defra.gov.uk/animalh/ahws/ehws/index.htm

- nodi problemau sy'n ymwneud â ffordd barhaol a chorfforol o adnabod ceffylau drwy ddefnyddio microsglodynion;
- gweithredu'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol yn llwyddiannus;
- ailedrych ar gyngor presennol ar safonau iechyd a lles;
- sefydlu pa addysg a hyfforddiant sy'n bodoli ar hyn o bryd a sicrhau bod rhaglenni'n cefnogi'r amcanion allweddol;
- gorfodi safonau iechyd a lles lle bo perchenogion anghyfrifol yn amharod i ddilyn cyngor gwirfoddol.

17. Mae'r strategaeth ddrafft yn tybio bod iechyd a lles ceffylau, merlod ac asynnod yn adlewyrchu pum rhyddid⁴ y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm. Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod bod lefelau iechyd a lles ceffylau yng Nghymru a Lloegr yn uchel ar y cyfan ac mae'n nodi y disgrifir safonau presennol ar gyfer lles yn y Crynodeb o Ganllawiau Lles y Diwydiant Ceffylau ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod (2002)⁵.

CAM GWEITHREDU 1: Cyrraedd a chynnal safon uchel o ran iechyd a lles ceffylau

Cam Gweithredu: Cyrraedd a chynnal safon uchel foddhaol o ran lles anifeiliaid ar draws y diwydiant ceffylau, drwy weithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod yn llwyddiannus, a thrwy gefnogaeth y diwydiant i sefydliadau lles anifeiliaid penodol.

Cyfrifoldeb: Y diwydiant ceffylau cyfan.

Blaenoriaeth: Parhaus.

18. Nodir bod sefydliadau lles eu hunain yn rhan hanfodol o'r diwydiant ceffylau, ac amcangyfrifir mai £61 miliwn yw cyfanswm trosiant blyneddol elusennau ceffylau. Maent yn defnyddio ac yn darparu nifer sylweddol o wasanaethau ceffylau ac mae llawer ohonynt yn atyniadau twristiaeth mawr.

Pwysigrwydd y diwydiant

19. Dim ond yn awr y mae pwysigrwydd a photensial y diwydiant ceffylau ei hun, a'r manteision y mae'n eu rhoi i fywyd y genedl yn cael eu cydnabod yn llawn. Fel y mae'r ffigurau yn eu dangos, mae'r diwydiant yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i'r economi, yn ogystal â gwneud cymdeithasol llawer o gymunedau. O gofio dosbarthiad daearyddol y diwydiant, mae'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig (ond nid mewn ardaloedd gwledig yn unig). Mae cymryd rhan mewn chwaraeon marchogol a gweithgareddau marchogaeth eraill yn hybu iechyd a lles, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â phroblem gynyddol gordewdra; mae'n cyfrannu at addysg llawer o bobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu annibyniaeth ac ymdeimlad o gyfrifoldeb; mae'n meithrin gwirfoddoli, datblygiad cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol; ac mae'n helpu i ofalu am y tir a'r amgylchedd.

⁴ www.fawc.org.uk/freedoms.htm

⁵ The Equine Industry Welfare Guidelines Compendium for Horses, Ponies and Donkeys
www.adas.co.uk/equinewelfare/compendium.pdf

Bydd y Llywodraeth a'r diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu'r manteision hyn i'r eithaf.

Dyfodol y diwydiant

20. Bu i'r ymchwil a gynhaliwyd gan Ganolfan Henley hefyd ymchwilio i ragolygon y diwydiant. Daeth i'r casgliad bod tueddiadau cyfredol, yn arbennig y twf yn yr economi hamdden, yn awgrymu bod potensial ar gyfer twf go iawn. Fodd bynnag, mae rhai busnesau ac ysgolion marchogaeth bach ar ôl sectorau hamdden eraill ac efallai y byddant yn dirywio ymhellach fyth os na fyddant yn dod yn fwy cystadleuol.
21. Ar 18 Chwefror 2005, gwaharddwyd hela mamaliaid gwyllt gyda chŵn yng Nghymru a Lloegr. Wrth ddrafftio'r Strategaeth hon, gwnaed ymdrech fwriadol i osgoi ystyried rhinweddau neu ddiffygion moeseg gwaharddiad a chydag amser caiff effeithiau gwaharddiad, ar y Strategaeth hon, eu monitro a chaiff unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r camau gweithredu eu hystyried.
22. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diddymu'r Ardoll Betio Rasio Ceffylau yn 2009 ac yn bwriadu cyflwyno trefniadau masnachol rhwng y Diwydiannau Rasio a Betio yn ei lle. Yr Ardoll yw'r dull statudol o gasglu canran gytûn o elw gros y bwci a gaiff ei ddyrannu o fewn y diwydiant rasio a'r diwydiant ceffylau ehangach. Mae grŵp adolygu annibynnol wrthi ar hyn o bryd yn ceisio nodi dull amgen cynaliadwy y gellir ei orfodi, gan ystyried dyfarniadau llys diweddar o ran hawliau cronfa ddata. Byddai hyn yn anelu at ddarparu arian parhaus at ddibenion megis gwella'r diwydiant rasio ceffylau (e.e. integredd, gwelliannau i gaeau rasio, gwobrau ariannol a hyfforddiant staff), datblygu gwyddoniaeth ac addysg filfeddygol, a gwella bridiau ceffylau (ceffylau pedigri a bridiau brodorol prin).
23. Bu i ymchwil Canolfan Henley hefyd nodi bod y diwydiant ceffylau yn amrywiol ac nad yw dulliau cyfathrebu rhwng y gwahanol rannau bob amser yn effeithiol. Mae'n hanfodol datrys unrhyw anghytundebau o fewn y diwydiant a bod y rhai hynny â diddordeb yn y diwydiant yn dechrau ei ystyried yn bartneriaeth. Y prif ofyniad ar gyfer twf dros y deng mlynedd nesaf yw datblygu'r seilwaith angenrheidiol i lunio a gweithredu Strategaeth lwyddiannus a gaiff ei hyrwyddo gan y diwydiant ceffylau cyfan.
24. Bydd hefyd angen i'r diwydiant ceffylau fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn bennaf creu Natural England a fydd yn uno ac yn gwella gwaith cadwraeth a diogelu'r amgylchedd English Nature, cyfrifodebau'r Asiantaeth Cefn Gwlad dros hamdden a mynediad, a swyddogaethau rheoli tir amgylcheddol y Gwasanaeth Datblygu Gwledig⁶. Disgwylir i'r corff newydd pwysig hwn ddod i rym yn 2007, er bod ei wahanol elfennau eisoes yn cydweithio'n fwyfwy agos, a bydd yn brif bartner posibl o fewn y diwydiant wrth iddo geisio gwireddu ei weledigaeth.

⁶ Gweler – www.defra.gov.uk/ruraldelivery/natural-england.htm - noder y dylid ystyried pob cyfeiriad at English Nature neu'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn y ddogfen hon fel cyfeiriad at Natural England o 2007 ymlaen.

Paratoi'r Strategaeth hon

25. Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain (y Cydffederasiwn) yw'r corff ymbarél a ffurfiwyd i fynegi barn y diwydiant i'r Llywodraeth. Mae wedi arwain y broses o ddatblygu'r Strategaeth hon, mewn cydweithrediad â Tîm y Diwydiant Ceffylau yn Defra. Heb ymroddiad ac ymrwymiad gwirfoddol aelodau'r Cydffederasiwn ni fyddai'r Strategaeth hon yn bodoli.

Mae'r grŵp llywio sydd wedi goruchwyllo'r broses o baratoi'r Strategaeth ac sydd wedi neilltuo cryn dipyn o amser ac wedi dyrannu adnoddau sylweddol i'w chwblhau yn cynnwys:

Cyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain: Fiona Birt-Llewellyn, Duncan Brown, Graham Cory, Annie Dodd, Andrew Finding, Pat Harris, Margaret Linington-Payne, Cathy McGlynn, David Mountford, Lesley Barwise-Munro, Tristram Ricketts, Graham Suggett a Claire Williams.

Defra: James Bradley, Tony Williamson, Des Coles, Amy Westaway ac Alice Elliott.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Fiona Leadbitter.

26. Mae Tîm y Diwydiant Ceffylau yn Defra yn cynorthwyo'r Gweinidog dros y Diwydiant Ceffylau drwy ddod â gwahanol feysydd cyfrifoldebau'r Llywodraeth sy'n effeithio ar y diwydiant at ei gilydd. Mae Defra yn gyfrifol am faterion marchogol yn Lloegr. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gyfrifol am bolisiau ar chwaraeon, rasio a thwristiaeth ceffylau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am faterion ceffylau yng Nghymru.
27. Ceisiwyd sicrhau bod y broses o baratoi'r Strategaeth mor gynhwysol â phosibl. Ar ôl cyhoeddi'r ymchwil, a edrychodd ei hun ar faterion strategol, ceisiwyd barn am y ffordd ymlaen i'r diwydiant gan tua 300 o sefydliadau ac unigolion. Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol hefyd, gyda mwy na 150 o gyfranogwyr o bob rhan o'r diwydiant yn ei mynychu. Yna, cyfarwyddwyd gwahanol gynrychiolwyr o'r diwydiant i grynhoi'r casgliadau, gan ymgynghori ymhellach a datblygu'r Strategaeth ddrafft. Cyhoeddwyd y Strategaeth ddrafft ym mis Chwefror 2005 ar gyfer ymgynghoriad. Arweiniodd hyn at lawer o ymatebion gan unigolion a sefydliadau o bob math. Ailddrafftwyd y Strategaeth derfynol hon yn sgîl yr ymatebion hyn.

Nodau strategol

28. Nodwyd wyth nod cysylltiedig fel allwedd i gyflawni'r diben a nodwyd ym mharagraff 1 uchod:
- uno'r diwydiant ceffylau a datblygu ei effaith genedlaethol, rhanbarthol a lleol;
 - cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth a chyfraniad cymdeithasol y diwydiant ceffylau;
 - hybu perfformiad economaidd busnesau marchogol;
 - gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau marchogol;
 - cynyddu mynediad i farchogaeth a gweithgarwch gyrru cerbydau oddi ar y ffordd;
 - ystyried effaith amgylcheddol y ceffyl;
 - annog rhagoriaeth mewn chwaraeon;
 - gwella ansawdd ein ceffylau a'n merlod a gweithgarwch bridio.
29. Mae'r penodau canlynol yn cyflwyno dadansoddiad ategol, set o amcanion i gyfrannu at gyrraedd pob nod, a chamau gweithredu penodol a gynigir i gyflawni'r amcanion hyn. Maent yn nodi pwy fydd yn gyfrifol am gymryd pob cam a lefel y flaenoriaeth⁷, lle y bo'n bosibl. Caiff cynllun gweithredu ei gyhoeddi ar ddechrau 2006 i ategu'r Strategaeth hon ac i ddarparu dull o fonitro ei lwyddiant dros y blynyddoedd i ddod.

⁷ 'Byrdymor' = o fewn blwyddyn, 'tymor canolig' = rhwng blwyddyn a phum mlynedd, 'hirdymor' = rhwng pump a deng mlynedd. Defnyddir 'parhaus' weithiau i ddangos bod y camau gweithredu hyn yn mynd rhagddynt eisoes ac yn ôl eu natur, nad oes ganddynt data terfynol penodol.

Nod 1: Uno'r Diwydiant Ceffylau a datblygu ei effaith genedlaethol, rhanbarthol a lleol

- 1.1 O ystyried ei fod yn ddiwydiant mor bwysig, nid yw'r diwydiant ceffylau wedi llwyddo i gael y gydnabyddiaeth gyffredinol a'r dylanwad sylweddol y mae'n ei haeddu, er gwaethaf rhai datblygiadau diweddar. O ganlyniad, nid yw yn y sefyllfa orau eto i gyflawni llawer o nodau'r Strategaeth hon, megis cynyddu cyfranogiad, gwella perfformiad economaidd, dylanwadu ar bolisiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sicrhau ei gyfran lawn o ymwybyddiaeth y genedl o chwaraeon a sicrhau dyfodol hirdymor ei fridiau brodorol. Un o'r negeseuon a atgyfnerthwyd yn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft oedd bod angen i'r diwydiant ceffylau roi trefn ar ei bethau ei hun cyn gallu cyflawni'r nodau hyn. Bydd angen i elfennau amrywiol y diwydiant gydweithio'n agosach o lawer ynghyd â sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r cyd-destun y mae'r diwydiant yn gweithredu ynddo ac ymdrech benderfynol i wella ei effaith leol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 1.2 Credir yn gryf o fewn y diwydiant ei fod wedi'i rannu'n fewnol, a hynny'n ddifrifol, a adlewyrchir yn benodol gan y ffaith bod cyfathrebu rhwng ei wahanol rannau wedi amrywio o fod yn anghyson ar y gorau i sefyllfa lle nad yw prin yn bodoli. Amlygodd adroddiad Canolfan Henley yn 2004 hyn fel un o'r prif resymau pam nad yw'r diwydiant yn gwreiddu ei botensial. Awgrymodd yr adroddiad, heb strwythur ymgynghorol mewnol da, nad oedd fawr ddim gobaith o lwyddo i ail-leoli'r diwydiant fel y dymunir.
- 1.3 Er y cydnabyddir bod gan bob grŵp â diddordeb penodol o fewn y diwydiant yr hawl i drefnu a chynrychioli ei hun, mae hefyd yn gyfrifol am gydweithredu â grwpiau eraill â diddordebau tebyg. Mae angen i'r diwydiant gydweithio gyda'i gilydd er mwyn cael dylanwad. Ym marn cynrychiolwyr y diwydiant nid oes angen sefydlu corff ymbarél newydd, ac ni fwriedir gwneud hynny. Fodd bynnag, mae angen adeiladu ymhellach ar y cynnydd a wnaed yn sgîl sefydlu Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain (y Cydffederasiwn) fel fforwm i ddod â ffigyrau blaenllaw'r sefydliadau allweddol o fewn y diwydiant ynghyd, fel y gall y diwydiant ddileu rhwystrau'r gorffennol a manteisio ar y cyfleoedd fydd ar gael iddo yn y dyfodol.

(a) Uno'r diwydiant yn genedlaethol

- 1.4 Byddai'r diwydiant yn elwa'n fawr iawn ar gydweithio'n agosach ar lefel genedlaethol. Mae'r Cydffederasiwn wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth, ond mae angen gwneud llawer mwy. Dylid anelu at sicrhau bod pob corff sefydledig o fewn y diwydiant yn cydweithio'n agosach er mwyn cydlynu gweithgareddau sy'n sicrhau gwelliannau mesuradwy o fewn y deng mlynedd nesaf mewn meysydd megis:
- hybu cyfleoedd i farchogaeth a chwaraeon marchogol yn fwy effeithiol, a chynyddu cyfranogiad;
 - codi proffil y diwydiant a'i sefydliadau;

- cynyddu'r sylw a gaiff y diwydiant yn y cyfryngau a'i ddylanwad arnynt, gan gynnwys y sylw a roddir i lwyddiannau cenedlaethol a rhyngwladol ym maes chwaraeon;
- gwella cyfraniad y diwydiant at yr economi genedlaethol a gwledig ac at y gymdeithas ehangach,
- ehangu cydnabyddiaeth o safle Prydain fel arweinydd byd-eang ym maes marchogyddiaeth a bridio,
- codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o bryderon y diwydiant.

1.5 Er mwyn gwneud hyn mae angen i sefydliadau o fewn y diwydiant ymrwymo i:

- wella dulliau cyfathrebu o fewn y diwydiant;
- cydlynu'r gwaith o farchnata'r diwydiant a'i ddelwedd yn gyffredinol;
- cydlynu polisïau;
- trefnu'r gwaith o rannu gwybodaeth ac adnoddau;
- casglu gwybodaeth gan bob sefydliad yn un adnodd;
- penodi sefydliad arwain, lle y bo'n bosibl, ar gyfer pob un o'r camau gweithredu unigol yn y Strategaeth hon, a'i gynorthwyo i gyflawni'r dasg honno.

Mae'n amlwg bod rhai o'r amcanion hyn yn fwy cyflawnadwy yn y byrdymor nag eraill ac, er mwyn meithrin cydberthnasau a goresgyn unrhyw wrthdaro a welwyd yn y gorffennol, bydd yn angenrheidiol mynd ati'n raddol, gan ddechrau gydag ymagwedd wedi'i chydlynu tuag at rannu a lledaenu gwybodaeth. Yn ddiweddarach efallai, unwaith yr asesir cynnydd, gellir datblygu mentrau marchnata ar y cyd mwy soffistigedig.

1.6 Y cam cyntaf fydd dod â chyfarwyddwyr cyfathrebu pob un o'r cyrff allweddol o fewn y diwydiant ynghyd ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion cyfredol, cytuno ar ymagweddau wedi'u cydlynu tuag at broblemau cyffredin ac ystyried ffyrdd pellach o symleiddio, gwella a hyrwyddo wyneb cyhoeddus y diwydiant ceffylau.

CAM GWEITHREDU 2: Datblygu Rhwydwaith Cyfathrebu ar gyfer y Diwydiant Ceffylau

Cam Gweithredu: Llunio rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyfarwyddwyr Cyfathrebu cyrff allweddol o fewn y diwydiant.

Cyfrifoldeb: Y Cydffederasiwn, mewn partneriaeth â'r sefydliadau eraill o fewn y diwydiant sydd wedi llofnodi'r strategaeth hon.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

1.7 Yn amodol ar gytundeb pellach ac argaeledd adnoddau, byddai'r rhwydwaith hwn yn ffurfio sylfaen y swyddogaeth gyfathrebu ganolog ar gyfer y diwydiant a gynigiwyd yn y Strategaeth ddrafft yr ymgynghorwyd arni ac a groesawyd gan ymatebwyr ar y cyfan. Nod y swyddogaeth hon fyddai:

- darparu pwynt mynediad cyffredin i'r cyfryngau;
- ei gwneud yn bosibl i gael gafael ar wybodaeth am gymdeithasau, ysgolion marchogaeth cymeradwy, iardiau cadw a hurio ceffylau trwyddedig, digwyddiadau, elusennau ceffylau, addysg a hyfforddiant, cyflenwyr ac ati;
- tynnu sylw at lwyddiant ym maes chwaraeon a materion eraill yn ymwneud â cheffylau;
- cydlynu ffynonellau o gymorth, cyngor a gwybodaeth am arfer gorau ar gyfer busnesau marchogol a marchogwyr ar faterion megis iechyd a diogelwch pobl a cheffylau, systemau rheoli busnes, manteisio ar gynlluniau ariannu, ardrethi a chynllunio defnydd tir, ystadegau ac ati;
- codi ymwybyddiaeth busnesau marchogol o'r cyfleoedd a ddarperir gan sioeau cenedlaethol, sirol a lleol, Ffair Fasnach Ryngwladol Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain a ffeiriau masnach tramor;
- cefnogi datblygiad strwythur rhanbarthol a rhwydweithiau ceffylau lleol (gweler Camau Gweithredu 4 a 5);
- derbyn ymholiadau o fewn y diwydiant a chan y cyhoedd;
- helpu i hyrwyddo safonau uchel o ran lles ceffylau drwy'r diwydiant;
- helpu i ledaenu gwybodaeth am faterion ehangach sy'n effeithio ar y diwydiant a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o fanteision posibl mwy o ymgysylltiad;
- (o bosibl) darparu dull o ymgynghori â'r diwydiant ar fyrder rhag ofn y bydd digwyddiadau megis achosion o glefydau heintus.

Byddai angen ystyried yr union dull ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth hon ymhellach. Gallai, er enghraifft, olygu creu gwefan a berchenogir ac a reolir ar y cyd ar gyfer y diwydiant neu ryw fath o weithgaredd integredig arall, yn cynnwys adnoddau a rennir ac adnoddau a gyfunir.

CAM GWEITHREDU 3: Cyfathrebu'n effeithiol ddwyffordd

Cam Gweithredu: Ymchwilio i ddatblygu swyddogaeth gyfathrebu ganolog effeithiol ar gyfer y diwydiant er mwyn gwella'r strwythur cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a gwybodaeth ar gyfer y diwydiant a hyrwyddo materion marchogol a chyfranogiad.

Cyfrifoldeb: Y rhwydwaith o gyfarwyddwyr cyfathrebu o fewn y diwydiant ceffylau, o dan nawdd y Cydffederasiwn, mewn partneriaeth â'r sefydliadau eraill sydd wedi llofnodi'r strategaeth hon.

Blaenoriaeth: Byrdymor i'r tymor canolig.

1.8 Yn ogystal â gwella wyneb cyhoeddus y diwydiant ceffylau drwy drefniadau cyfathrebu wedi'u cydlynu'n well, mae angen i'r diwydiant ceffylau ystyried ffyrdd o ddwyn agweddau eraill ar ei waith ynghyd er mwyn gwella effeithlonrwydd, lleihau achosion o ddyblygu gwaith a dileu cystadleuaeth ddiangen a gwrthdaro posibl. Un ffordd bosibl o gyflawni hyn fyddai datblygu Canolfan Ceffylau Genedlaethol a allai ddarparu canolbwynt ar gyfer y diwydiant ceffylau yng Nghymru a Lloegr. Ystyrir Newmarket fel canolfan y diwydiant rasio, ac mae nifer y busnesau, gwasanaethau a sefydliadau rasio yn yr ardal hon wedi bod o fudd mawr iddo. Byddai Canolfan Ceffylau Genedlaethol nid yn unig yn gallu uno diddordebau rasio a diddordebau nad ydynt yn ymwneud â rasio ond byddai hefyd yn darparu canolbwynt ar gyfer gwaith hyrwyddo, cystadlaethau, cyngor busnes a thwristiaeth ym maes marchogyddiaeth. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr wrthi'n datblygu cynnig ar gyfer canolfan o'r fath yn Stoneleigh, Swydd Warwick, mewn partneriaeth â sefydliadau ceffylau a chyda diddordeb gweithredol cyrff cyhoeddus. Bydd angen i'r diwydiant ceffylau ystyried sut i ymateb yn adeiladol i'r cynnig hwn pan gaiff ei gyflwyno.

(b) Datblygu dylanwad rhanbarthol a lleol y diwydiant

1.9 Fel y bydd cydweithio'n agosach yn cynyddu perthnasedd cenedlaethol y diwydiant gryn dipyn, felly y bydd mwy o gydweithredu yn rhanbarthol ac yn lleol yn cynyddu ei effeithiolrwydd. Bydd yn helpu i gynyddu cyfranogiad, ehangu ymgysylltiad, annog y broses o ddatblygu adnoddau, a sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer marchogion sy'n bodoli eisoes a darpar farchogion yn ogystal â busnesau marchogol. Bydd yn galluogi'r diwydiant i godi ymwybyddiaeth o'i gynhyrchion, i gael mwy o ddylanwad ar ddarpar bartneriaid, ac yn caniatáu i farchogion cyffredin gymryd mwy o ran mewn materion sy'n effeithio arnynt.

1.10 Mae'r diwydiant ceffylau yn chwarae rhan sylweddol yng Nghymru ac ymhob un o ranbarthau Lloegr, ac mae i rai elfennau o'r diwydiant gysylltiad rhanbarthol penodol, megis rasio yn East Anglia. Mae polisïau Cenedlaethol ac Ewropeaidd yn datganoli pwerau a chyllid i'r lefel ranbarthol fwyfwy, ac mae angen i'r diwydiant ceffylau sicrhau ei fod yn cael ei gydnabod fel grym rhanbarthol difrifol er mwyn manteisio ar y broses hon.

1.11 Mae gan lawer o gyrff marchogol cenedlaethol strwythur rhanbarthol, sy'n defnyddio ffiniau a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain. Er mwyn sicrhau bod y diwydiant mor effeithiol â phosibl, dylid ailosod y ffiniau hyn i gyfateb i ffiniau Swyddfeydd y Llywodraeth dros y Rhanbarthau ac Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol. Mae angen i sefydliadau o fewn y diwydiant, lle y bo hynny'n briodol, benodi swyddogion datblygu rhanbarthol o blith eu staff presennol i gydlynu'r gweithgareddau amrywiol a chreu cysylltiadau effeithiol ag Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol, Cynulliadau Rhanbarthol, rhanbarthau Sport England a chyrrff a gweithrediadau rhanbarthol eraill.

1.12 Ni fydd newid strwythurau rhanbarthol y diwydiant, ynddo'i hun, wrth gwrs, yn sicrhau effaith ranbarthol fwy, ond bydd yn galluogi'r diwydiant i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r amrywiaeth cynyddol a mwyfwy pwysig o sefydliadau polisi a gweithredu rhanbarthol, megis yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol a Chynulliadau Rhanbarthol. Bydd hefyd yn galluogi'r diwydiant i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu a gweithredu'r fframweithiau rhanbarthol ar gyfer datblygu

gwledig sy'n dwyn sefydliadau allweddol ynghyd gyda'r bwriad o nodi blaenoriaethau clir ar gyfer darparu gwledig gan adlewyrchu anghenion rhanbarthol. Un o'r grwpiau eraill o gyrff rhanbarthol pwysig y mae angen i'r diwydiant ymgysylltu â hwy yw'r Fforymau Materion Gwledig Rhanbarthol, sy'n rhoi cyfle i randdeiliaid llawr gwlad ddylanwadu ar y broses o lunio polisiau rhanbarthol a darparu gwasanaethau, ac sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r broses o lunio polisiau cenedlaethol drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng eu cadeiryddion a Gweinidogion y Llywodraeth. Cynrychiolir pobl â diddordeb marchogol eisoes ar y Fforymau, gan gynnwys ar lefel cadeirydd, ond nid yw'r cysylltiadau hyn wedi'u datblygu eto ac ni fanteisiwyd i'r eithaf arnynt er budd y diwydiant.

CAM GWEITHREDU 4: Datblygu dylanwad rhanbarthol y Diwydiant Ceffylau

Cam Gweithredu: Sefydlu strwythur rhanbarthol effeithiol ar gyfer y diwydiant a datblygu trafodaethau cynhyrchiol gyda chyrff rhanbarthol allweddol, gan gynnwys yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, i hyrwyddo diddordebau'r diwydiant a chynyddu ei gyfraniad at flaenoriaethau rhanbarthol.

Cyfrifoldeb: Y Cydffederasiwn i arwain gyda chymorth y sefydliadau eraill o fewn y diwydiant sydd wedi llofnodi'r strategaeth hon.

Blaenoriaeth: Byrdymor i'r tymor canolig.

- 1.13 Ar y cyd â datblygu effaith ranbarthol y diwydiant, mae angen gwneud gwaith i gynyddu ei ddylanwad lleol. Yn benodol, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cael eu hannog i gymryd mwy o sylw o berchenogion ceffylau, marchogion a busnesau marchogol yn eu hardaloedd. Yn benodol, mae angen annog yr awdurdodau lleol hynny, mewn ardaloedd gwledig, trefol a maestrefol, nad ydynt wedi cydnabod gwerth ymgysylltu â'r diwydiant ceffylau eto i wneud hynny ar draws yr amrywiaeth llawn o gyd-ddiddordebau. Cynhaliwyd sawl menter rwydweithio lwyddiannus iawn yn lleol, er enghraifft yn Swydd Gaerlŷr lle gwnaed rhywfaint o gynnydd ardderchog, ac mewn rhannau eraill o'r wlad, lle y mae grwpiau marchogol wedi dod ynghyd at ddibenion penodol, megis sioeau ceffylau, neu at ddibenion mwy cyffredinol yn seiliedig ar eu diddordeb a rennir mewn ceffylau a marchogaeth.

ASTUDIAETH ACHOS – Cymdeithas Marchogaeth Hamdden Woodhouse Eaves a Swithland

Mae'r gymdeithas hon yn cynnwys grŵp o farchogion, stablau cadw a hurio ceffylau, ac ysgol farchogaeth o fewn dau blwyf cyfagos yn Swydd Gaerlŷr. Fe'i ffurfiwyd o ganlyniad i farchogion lleol yn cydnabod yr angen am gyfrifoldeb lleol. Mewn llai na blwyddyn mae 100 o bobl wedi ymaelodi â'r gymdeithas, mae wedi negodi mwy o fynediad oddi ar y ffordd ac arwyddion rhybuddio ceffylau, mae wedi helpu i ddatblygu Cynllun y Plwyf ar gyfer yr ardal leol, ac mae wedi dechrau edrych ar gymryd camau gweithredu gyda'r gangen leol o'r Gymdeithas Marchogaeth i'r Anabl.

ASTUDIAETH ACHOS – Sioe Geffylau Flynyddol Broadstairs a St. Peters

Mae'r sioe yn gwneud defnydd llawn o'r wasg ranbarthol, gan sicrhau ei bod yn

cael sylw ar y dudalen flaen fel arfer. Yn 2002 darlledodd yr orsaf BBC leol y sioe yn fyw. Mae'r trefnwyr o'r farn bod y lefel hon o gyhoeddusrwydd yn hanfodol, nid yn unig i ddarparu sioe geffylau lwyddiannus ar gyfer marchogion lleol ond hefyd i ddatblygu ymwybyddiaeth o fyd ceffylau ymhlith y cyhoedd yn lleol.

1.14 Rhydd rhwydweithiau lleol gyfle i'r diwydiant weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a chyrff lleol, megis siambrau masnach, er mwyn:

- datblygu diddordebau mewn ceffylau;
- trafod materion marchogol lleol (er enghraifft cynllunio, twristiaeth neu fewnbwn mewn Fforymau Mynediad Lleol);
- llunio cynlluniau lleol ar gyfer ceffylau er mwyn hyrwyddo twf cynaliadwy;
- annog mwy o gyfranogiad drwy, er enghraifft, greu cysylltiadau ag ysgolion a cholegau;
- ymwneud â datblygiadau lleol ehangach, megis rhwydweithiau chwaraeon cymunedol lleol Sport England;
- darparu'r cyfrwng i helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei hagendâu cymdeithasol a gwasanaeth cyhoeddus drwy gryfderau'r diwydiant.

Mae ganddynt y potensial i fynegi barn marchogion a busnesau marchogol lleol, cynnal ymgynghoriadau, rhoi gwybodaeth i'r cyrff canolog o fewn y diwydiant a gweithio gydag ysgolion marchogaeth a chanolfannau i wella cyfraniad ceffylau fel ased i'r gymuned leol.

ASTUDIAETH ACHOS - Partneriaeth Menter Farchogol Swydd Gaerlŷr

Mae'r Bartneriaeth yn gweithio gyda Chyngor Sir Swydd Gaerlŷr, gan gyfarfod bob mis i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Gyda'i gilydd lluniwyd Strategaeth Farchogol Swydd Gaerlŷr, i ddatblygu gweithgarwch rhwydweithio lleol a roddwyd ar waith gan swyddog a benodwyd yn arbennig. Mae hyn wedi arwain at fwy fyth o grwpiau lleol, sy'n elwa ar y wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu a'i lledaenu ac annog arfer gorau ymhlith awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

1.15 Dylai'r wybodaeth a'r arfer gorau a gasglwyd yn sgîl y mentrau hyn gael eu crynhoi a'u rhoi i rannau eraill o Gymru a Lloegr, a dylid annog cynlluniau tebyg mewn mannau eraill. Bu i'r trafodaethau cychwynnol gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a fynegodd ddiddordeb mewn gweithio gyda'r diwydiant ar y mater hwn awgrymu eu bod yn awyddus i adeiladu cydberthynas hirdymor, ac y gallai cynnal digwyddiad cenedlaethol a fyddai'n dod ag awdurdodau lleol gwledig a threfol ynghyd, er mwyn sefydlu marchogyddiaeth ar lefel leol ac annog a chefnogi datblygiad rhwydweithiau ceffylau lleol effeithiol lle bynnag y bo digon o alw, yn ddatblygiad cychwynnol defnyddiol.

CAM GWEITHREDU 5: Hyrwyddo Rhwydweithiau Ceffylau Lleol

Cam Gweithredu: Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i ddatblygu fframwaith ar gyfer creu rhwydweithiau ceffylau lleol lle y bo digon o alw.

Cyfrifoldeb: Y Cydffederasiwn i arwain gyda chymorth sefydliadau eraill y diwydiant sydd wedi llofnodi'r strategaeth hon.

Blaenoriaeth: Byrdymor i'r tymor canolig.

Nod 2: Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth a datblygu cyfraniad cymdeithasol y Diwydiant Ceffylau

(a) Cynyddu cyfranogiad ym maes marchogyddiaeth

- 2.1 Nododd yr ymgynghoriad cychwynnol yn glir er bod y diwydiant ceffylau o'r farn y gall gyflawni twf sylweddol yn yr economi hamdden gynyddol, caiff cynnydd ei rwystro gan y canfyddiad bod marchogaeth a/neu fod yn berchen ar geffyl yn ddud, yn elitaidd ac weithiau yn ddigroeso i newydd-ddyfodiaid. Mae'r bobl hynny nad oes ganddynt unrhyw brofiad o geffylau, ac yn arbennig y rhai o gefndir trefol, yn dweud eu bod yn anodd cymryd rhan a chael eu derbyn. Byddai'n anodd sicrhau bod profiad pawb o ysgolion marchogaeth a sefydliadau marchogol eraill yn groesawgar, er mai dyna y dylid anelu ato yn sicr. O ran y gost o ddysgu marchogaeth, y gwirionedd yw bod yr hyn a gaiff ei wario ar wersi marchogaeth ar y cyfan yr un faint â'r hyn a gaiff ei wario ar weithgareddau hamdden eraill megis gwersi golff neu wersi tenis, ac nid yw marchogaeth yn gyffredinol yn ddutach na llawer o weithgareddau hamdden.
- 2.2 Rhaid i'r diwydiant achub ar bob cyfle i greu diddordeb, a throï diddordeb yn frwdfrydedd, a brwdfrydedd yn gyfranogiad. Mae dyfodol y diwydiant yn dibynnu ar fabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysol a denu llif cyson o farchogion newydd. Bydd datblygu trefniadau cyfathrebu'r diwydiant yn helpu, ond megis dechrau yw hyn. Mae'n hanfodol bod profiadau uniongyrchol pobl o farchogion a mentrau marchogol, yn arbennig ysgolion marchogaeth, yn gadarnhaol.
- 2.3 Cyflwynir y mwyafrif o bobl i'r diwydiant ceffylau drwy'r ysgol farchogaeth. Os bydd y profiad hwn yn un da, bydd yn arwain at gysylltiad gydol oes â'r maes. Os na fydd, efallai y collir darpar gyfranogwr (ac eiriolwr) am byth. Ar ben hynny, nid yw cyfran sylweddol o farchogion yn meddu ar geffylau, ac maent yn dibynnu ar ysgolion marchogaeth i barhau ym maes marchogyddiaeth. Gall ysgolion marchogaeth gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau, nid dim ond addysgu. Yn aml cynigir hacio a/neu gadw a hurio ceffylau ar yr un safle: efallai y byddai 'canolfannau marchogaeth' yn ddisgrifiad mwy manwl gywir, ac yn un sy'n fwy deniadol i oedolion.
- 2.4 Mae angen i bob marchog a phob rhan o'r diwydiant ceffylau gydnabod a chefnogi rôl hanfodol ysgolion marchogaeth, fel sylfaen y diwydiant, wrth greu a chynnal cyfranogiad torfol. Ynghyd â'r mesurau eraill a gynigir yn y bennod hon mae'n hollbwysig atgyfnerthu rôl yr ysgolion marchogaeth hyn er mwyn cynyddu cyfranogiad. Canfu adroddiad Canolfan Henley fod ysgolion marchogaeth wedi'u gosod ar yr ymylon o fewn y diwydiant, ar draul cynhwysiant cymdeithasol a rhagoriaeth bosibl mewn chwaraeon. Rhydd ysgolion marchogaeth y cyfle i bawb farchogaeth. Dylid eu hyrwyddo fel ased i'r gymuned leol, yn debyg i glybiau chwaraeon neu ganolfannau hamdden er enghraifft. Dylent weithredu fel cyflenwyr ar gyfer chwaraeon ar y lefel uchaf, yn yr un ffordd â chlybiau gymnasteg neu athletau dyweder. Gallant hefyd fod yn ganolbwynt i'r gymuned farchogol leol gyfan a'i gweithgareddau, gan gynnwys addysgu ceffylau, hyrwyddo lles a recriwtio gyrfaoedd. Gallent gysylltu'n

gadarnhaol â'r clybiau marchogaeth ffyniannus sy'n bodoli mewn llawer o ardaloedd⁸.

ASTUDIAETH ACHOS – Yr Ŵyl Farchogaeth Genedlaethol

Dechreuwyd yr Ŵyl Farchogaeth Genedlaethol yn y 1990au, ar ôl i arolwg marchogol cenedlaethol cyntaf Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain awgrymu bod nifer y marchogion wedi gostwng. Sefydlwyd yr Ŵyl i ysgogi diddordeb newydd ym maes marchogaeth a diddordeb a oedd wedi pallu. Rhydd y cyfle i'r llu o wahanol elfennau sy'n ffurfio'r diwydiant – gan gynnwys y fasnach, ysgolion marchogaeth, cyrff cynrychioliadol, disgyblaethau marchogaeth, cyrff lles ceffylau a bridwyr – weithio gyda'i gilydd i gynyddu cyfranogiad gan sicrhau dyfodol i'r diwydiant. Un agwedd bwysig yw rhoi cyfle i blant ysgol gael profiad o farchogaeth gan ddefnyddio "Trigger" y ceffyl mecanyddol. Ategir y gweithgaredd hwn gan becyn i athrawon sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol, ac mae'n cynnig cyfle i sefydlu cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd, ysgolion marchogaeth a manwerthwyr marchogol lleol.

- 2.5 O'u rhan hwy, mae angen i ysgolion marchogaeth fod yn fusnesau a redir yn broffesiynol. Mae angen iddynt gynnig cyfleusterau deniadol, effeithlon a diogel, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, er mwyn cystadlu'n effeithiol â'r amrywiaeth o weithgareddau hamdden modern eraill. Mae rhai ysgolion marchogaeth wedi datblygu i gynnig gwasanaethau ychwanegol sydd hefyd yn darparu ffynhonnell arall o incwm, ac mae rhai hefyd wedi manteisio ar dechnoleg fodern drwy ddatblygu gwefannau, a all fod yn ddull pwysig o gyfathrebu mewn cymdeithas sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mwyfwy (gweler astudiaeth achos Fferm Blackdyke). Mae'r pwysau ariannol ar ysgolion marchogaeth, a'r achosion lle maent wedi gorfod cau o ganlyniad i hynny, yn hysbys. Mae Nod 3 yn trafod sgiliau busnes a rheoli a materion yn ymwneud ag ardrethi ac yswiriant ac mae Nod 4 yn edrych ar sgiliau, hyfforddiant a safonau o fewn y diwydiant ynghyd â sut i ddenu a chadw staff. Dylai'r camau gweithredu a gynigir yn yr adrannau hynny helpu ysgolion marchogaeth i ddatblygu yn ganolfannau marchogaeth rhagweithiol, agored a chynhwysol y mae eu hangen wrth wraidd diwydiant ceffylau yn yr 21^{ain} ganrif.

ASTUDIAETH ACHOS – Canolfan Farchogaeth Fferm Blackdyke yng Nghaerliwellydd, Cumbria.

Mae fferm Blackdyke yn ganolfan farchogaeth a redir gan deulu ac a ddechreuwyd yn 1980, ac erbyn hyn mae ganddi fwy na 40 o geffylau ac ychydig o dan 400 o gleientiaid rheolaidd bob wythnos, Clwb Merlod ffyniannus, cyfleusterau Marchogaeth ar gyfer yr Anabl a chystadlaethau wythnosol cysylltiedig a digyswllt. Mae'r ganolfan farchogaeth yn cynnig llawer o gyfleusterau, gan gynnwys dwy arena dan do, oriel wyllo a wresogir, cwrs trawsgwlad, hyfforddiant ar gyfer Cymdeithas Ceffylau Prydain a chymwysterau eraill a phwll nofio dan do a wresogir. Enillir incwm ychwanegol drwy hurio'r ddwy arena a'r pwll nofio (a ddefnyddir yn rheolaidd gan ysgol anghenion

⁸ Ar hyn o bryd mae 440 o glybiau marchogaeth yn gysylltiedig â Chymdeithas Ceffylau Prydain, sy'n cynnwys 38,000 o aelodau. Mae llawer mwy o glybiau nad ydynt yn gysylltiedig. Mae clybiau cysylltiedig yn annog aelodau i roi o'u hamser i helpu eraill, yn ogystal â mwynhau'r rhwydwaith o gymorth a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o glwb. Mae ceffylau a gedwir mewn clybiau marchogaeth yn elwa ar yr addysg am les ceffylau a ddarperir gan y system cysylltu clybiau. Mae gan y system ddilyniant clir o'r ceffyl a'r marchog newydd sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan glybiau lleol, drwy'r cystadlaethau cymhwysol dosbarth i bencampwriaethau cenedlaethol ar wahanol lefelau.

arbennig leol) yn ogystal â chyfleusterau cadw a hurio ceffylau a chystadleuthau a chlinigau rheolaidd. Mae'r ganolfan wedi datblygu gwefan a gynlluniwyd yn dda ac sy'n hawdd ei defnyddio sy'n rhoi gwybodaeth am brisiau, cyfleusterau, staff a digwyddiadau sydd ar y gweill. Mae hyn nid yn unig yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleusterau'r ganolfan, ond mae'n ei gwneud yn fwy hygyrch ac yn galluogi darpar gleientiaid i ymchwilio i'r ganolfan yn gyntaf, ac i gleientiaid presennol roi hysbysiadau amdani a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau presennol a newyddion - gweler www.blackdykefarm.com

CAM GWEITHREDU 6: Rôl ysgolion marchogaeth

Cam Gweithredu: Llundio cynllun wedi'i gostio ag iddo amserlen ar gyfer sut y gall ysgolion marchogaeth wireddu eu potensial yn fwy effeithiol (efallai drwy archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu ysgolion marchogaeth yn ganolfannau marchogaeth cymunedol a fyddai'n gweithredu fel 'canolfannau ceffylau' lleol) mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain, mewn partneriaeth â'r sefydliadau eraill o fewn y diwydiant sydd wedi llofnodi'r strategaeth hon, gyda chynghor gan Defra os oes angen.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

- 2.6 Mae angen data mwy dibynadwy ar nifer y marchogion sy'n bodoli eisoes a'u lleoliad. Mae hyn yn allweddol er mwyn diffinio'r farchnad a throsiant y diwydiant. Mae hefyd yn bwysig casglu gwybodaeth am ganfyddiadau pobl o faes marchogyddiaeth, a'u rhesymau dros gymryd rhan neu beidio â chymryd rhan (gan gynnwys rhoi'r gorau iddi). Mae'r rhain yn dylanwadu ar y lefel o gyfranogiad a'r potensial ar gyfer ei gynyddu, yn ogystal â'r rhagolygon ar gyfer mentrau marchogol. Felly, mae angen i'r diwydiant gynnal mwy o ymchwiliad i bwy sy'n cyfranogi, ymhle a pham.

CAM GWEITHREDU 7: Ymchwilio i gyfranogiad ym maes marchogaeth

Cam Gweithredu: Ymchwilio i nifer y marchogion a'u lleoliad, a chanfyddiadau'r cyhoedd o farchogyddiaeth.

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain (BETA), gyda Defra.

Blaenoriaeth: Byrdymor/tymor canolig.

(b) Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu'r manteision cymdeithasol, addysgol ac iechyd sy'n gysylltiedig â cheffylau

2.7 Er ei bod yn hanfodol cynyddu cyfranogiad er mwyn manteisio i'r eithaf ar berfformiad economaidd y diwydiant, ceir rhesymau da iawn eraill pam y dylai'r diwydiant cheffylau ystyried denu pobl newydd i farchogaeth, ehangu ei hapêl i bobl na fyddent fel arall efallai'n dod i gysylltiad â cheffylau, a chodi ymwybyddiaeth o berthnasedd y diwydiant i'r boblogaeth ehangach. Ymhlith y rhesymau hyn mae:

- **Cyrhaeddiad Addysgol:** Mae ymdrin â cheffylau yn cynnwys ystod eang o sgiliau corfforol a deallusol bob dydd, ynghyd â chynnig cyd-destun diddorol ar gyfer addysgu gwersi, ac mae'n gallu bod yn ddull effeithiol o ennyn diddordeb a gwella cyrhaeddiad llawer o bobl nad ydynt yn gyffredinol wedi'u cymell i ddysgu;
- **Datblygiad Personol a Chymdeithasol:** Mae ymwneud â cheffylau yn meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a hyder ac, felly, mae'n dda o ran datblygu sgiliau personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc;
- **Chwaraeon a Hamdden:** Mae marchogaeth yn cynnig cymaint o gyfle (os nad mwy) i fwynhau a datblygu'n gorfforol ag unrhyw fath arall o chwaraeon, a gall fod yn ddull o ennyn diddordeb pobl ifanc na fyddent fel arall efallai'n ymddiddori mewn chwaraeon;
- **Iechyd a Ffitrwydd Corfforol:** Mae marchogaeth yn ymarfer corff da, a all gynyddu lefelau iechyd a ffitrwydd cyffredinol cyfranogwyr ac, yn arbennig, mae ganddo botensial gwirioneddol i helpu i drechu'r duedd bryderus o ordewdra ymhlith plant a phobl ifanc;
- **Iechyd Meddwl:** Mae gan weithgareddau sy'n ymwneud â cheffylau hanes sefydledig a sicr o gyfrannu at driniaeth therapiwtig pobl â phroblemau iechyd meddwl byrdymor a hirdymor;
- **Anabledau:** Mae marchogaeth a gyrru eisoes yn weithgareddau poblogaidd ymhlith pobl anabl, a all fod yn gyfrwng i wneud ymarfer corff a chael mwynhad yn ogystal â gwrthsefyll y risg o gael eich allgáu;
- **Allgáu Cymdeithasol:** Nid oes angen i weithgareddau yn ymwneud â cheffylau fod yn gyfyngedig i bobl o oedran, hil, grŵp cymdeithasol neu grŵp economaidd penodol. Yn wahanol i lawer o bobl, nid yw cheffylau yn camwahaniaethu, ac mae cryn le i ddefnyddio cheffylau, merlod ac asynnod ymhellach i hyrwyddo mwy o gynhwysiant ymhlith grwpiau sy'n wynebu risg o gael eu hallgáu'n gymdeithasol megis y di-waith hirdymor, teuluoedd un rhiant a phobl hŷn;
- **Cyfiawnder Troseddol:** Defnyddiwyd gweithgareddau yn ymwneud â cheffylau yn llwyddiannus yn y DU a thramor i ymgysylltu â throseddwyr ifanc, pobl sy'n gaeth i gyffuriau a charcharorion hirdymor ac i gynorthwyo'r broses o'u hailsefydlu.

2.8 Ceir enghreifftiau o waith da yn cael ei wneud gyda cheffylau, merlod ac asynnod ymhob un o'r meysydd hyn, ond ar hyn o bryd mae'n weithgaredd sydd ar y cyrion braidd, sy'n seiliedig yn aml ar frwdfrydedd ychydig o ymarferwyr ymroddedig yn gweithio gyda chyllideb ceiniog a dimau. Mae angen i'r diwydiant cheffylau ddatblygu ei botensial yn y meysydd cymdeithasol, addysgol ac iechyd,

nid yn unig am fod ganddo gymaint i'w gynnig, ond hefyd am fod yr holl feysydd uchod yn adlewyrchu, i ryw raddau, flaenoriaethau'r Llywodraeth ac, o ganlyniad, yn denu arian a all fod o fudd uniongyrchol i'r diwydiant. Er enghraifft, os oedd gan ysgol farchogaeth a oedd mewn trafferth adnoddau dros ben ganol wythnos, yna gallai elwa'n ariannol ar gymryd rhan mewn prosiect cymdeithasol, addysgol neu iechyd yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at les ei chymuned leol. Mae gan adrannau'r Llywodraeth amcanion a thargedau perfformiad clir a ddisgrifir yn eu Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (ceir crynodebau yn Atodiad A). Mae angen i'r diwydiant ceffylau ddysgu am y rhain ac ymgysylltu â'r adrannau hyn er mwyn eu darbwyllo ynghylch y manteision gwirioneddol y gall eu cynnig iddynt wrth geisio cyflawni'r targedau hyn.

- 2.9 Er mwyn hyrwyddo hyn, a darparu rhyw fath o sail gychwynnol ar gyfer trafodaeth, amlyga'r paragraffau canlynol ychydig o'r enghreifftiau niferus o'r manteision y gall gweithgareddau yn ymwneud â cheffylau eu cyflwyno ar draws amrywiaeth o feysydd addysgol, cymdeithasol ac iechyd. Mae hyn yn cydnabod bod y meysydd polisi ar wahân a nodwyd yn aml wedi'u cysylltu'n agos â'i gilydd ac mai'n anaml y mae ymagweddau sy'n seiliedig ar geffylau yn canolbwyntio ar un maes yn unig gan eithrio eraill.

Hyrwyddo Datblygiad Addysgol, Chwaraeon a Phersonol

- 2.10 Addysg yw un o'r meysydd amlycaf lle y gellir datblygu cydberthynas â'r diwydiant ceffylau sydd o fudd i bawb. Mae marchogaeth yn weithgaredd chwaraeon y gellir ei ddilyn o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol, ac a gynigir eisoes gan nifer o ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Mae'r mentrau hyn, fodd bynnag, wedi'u cyflwyno'n dameidiog, gan fanteisio i'r eithaf ar alw a chyfleoedd lleol, a phrin yw'r gwaith a wnaed hyd yma i ymgysylltu â mentrau ehangach megis y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol, Chwaraeon mewn Ysgolion a Chysylltiadau â Chlybiau⁹, a redir ar y cyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau a'r gwaith a wneir fel rhan o brosiect yr Adran Addysg a Sgiliau o'r enw 'Youth Matters'¹⁰, sy'n ceisio diwygio gwasanaethau a gweithgareddau chwaraeon ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu dwy awr o chwaraeon (yr wythnos) y tu allan i'r cwricwlwm a dwy awr arall (yr wythnos) o weithgareddau ymgysylltu. Mae Sport England hefyd wedi sefydlu grŵp o'r enw y Gymdeithas Genedlaethol dros Ddatblygu Chwaraeon Ieuenctid sy'n cynnwys amrywiaeth o grwpiau ieuenctid ac sy'n darparu pwynt cyswllt ar gyfer chwaraeon i ymgysylltu â'r sector ieuenctid.
- 2.11 Yn ogystal â brwydro am ei lle o fewn yr amser a'r adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer chwaraeon mewn ysgolion, mae gan farchogyddiaeth lawer i'w gynnig i ategu agweddau eraill ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae Ymddiriedolaeth Addysg a Safonau Rasio Ceffylau Prydain wedi bod yn rhedeg rhaglen addysg lwyddiannus ers sawl blwyddyn. Mae'r rhaglen yn denu nifer gynyddol o athrawon sy'n fodlon ychwanegu dimensiwn ychwanegol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a bu brwdfrydedd y disgyblion yn anhygoel. O safbwynt y byd

⁹ http://www.culture.gov.uk/sport/school_sport

¹⁰ <http://www.dfes.gov.uk/publications/youth/>

rasio, y manteision posibl yw ysgogi diddordeb mewn marchogyddiaeth fel gweithgaredd hamdden ac fel gyrfa.

ASTUDIAETH ACHOS – Rhaglen Addysg Rasio

Ers ei sefydlu yn 2000, mae'r Rhaglen Addysg Rasio wedi mynd o nerth i nerth, gan ehangu'n gyflym iawn, sicrhau cyfranogiad brwdfrydig ysgolion a'r byd rasio, a chael adborth ardderchog oddi wrth athrawon, disgyblion ac eraill yn y sector addysg. Ymhlith y pynciau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol a gwmpesir gan weithgareddau sy'n seiliedig ar y diwydiant rasio mae mathemateg, gwyddoniaeth, llythrennedd, hanes, celf, daearyddiaeth, Ffrangeg, astudiaethau busnes, dylunio a thechnoleg, lletygarwch ac arlwy a thwristiaeth chwaraeon. Mae'r rhaglen wedi sefydlu seilwaith gan ei galluogi i gyrraedd mwy nag 8,000 o blant ysgol bob blwyddyn yn amrywio o bedair blwydd oed i 18 mlwydd oed. Mae'n galluogi pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'r diwydiant fel chwaraeon i'w wylwio a gyrfa bosibl, yn ogystal â chreu ffyrdd ystyrlon, ysgogol ac arloesol o ddarparu cyfleoedd dysgu.

- 2.12 Yn ogystal â'r cyfleoedd y gallai'r diwydiant ceffylau eu cynnig i'r rhai mewn addysg brif ffrwd, gall ceffylau chwarae rhan a gydnabyddir yn eang yn y gwaith o ddarparu therapi ac ymarfer corff ym maes anghenion arbennig. Cyflwynwyd rhai cynlluniau cyffrous ac arloesol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, megis Canolfan Fortune Therapi Marchogaeth yn Dorset a Phrosiect Marchogaeth Plant Cymdeithas Ceffylau Prydain yng Nghymru, ond yn amlwg mae lle i wneud llawer mwy.

ASTUDIAETH ACHOS – Canolfan Fortune Therapi Marchogaeth

Mae Canolfan Fortune Therapi Marchogaeth yn goleg ar gyfer tua 45 o bobl ifanc, rhwng 16 ac 21 oed, ag anableddau dysgu ac anawsterau ymddygiad. Maent ar y cwrs Addysg Bellach Trwy Farchogwriaeth ac maent yn gweithio tuag at Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol ac arholiad cam un Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS). Ariennir y cwrs ar farchogwriaeth gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau. Mae'n defnyddio gweithio gyda cheffylau i ddysgu sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol, megis rhifedd, llythrennedd, rheoli arian, teithio annibynnol, hylendid a sgiliau cartref. Canfuwyd bod ceffylau yn helpu i ysgogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau yr ymddengys ar yr wyneb nad oes a wnelont fawr ddim â cheffylau a marchogaeth. Er enghraifft daw sgiliau cymdeithasol megis hunanymwybyddiaeth yn bwysig pan fydd marchogion a cheffylau i gyd yn rhannu ysgol dywod gyda'i gilydd, ac mae mathemateg yn dod yn fwy ystyrlon wrth gyfrifo cymarebau dognau porthiant gwahanol geffylau. Mae rhai o'r bobl ifanc yn byw mewn llety myfyrwyr a rhai mewn sefyllfa fwy domestig, lle y maent yn aml yn byw yn agos at yr iard ac yn rhannu'r cyfrifoldeb dros redeg eu bywydau eu hunain. Gweler <http://www.fortunecentre.org>

ASTUDIAETH ACHOS – Cymdeithas Ceffylau Prydain Cymru – Prosiect Marchogaeth Plant

Yn 2004/5, trefnwyd dau brosiect 10 wythnos ar gyfer marchogaeth ceffylau a gofalu am ferlod am y tro cyntaf gan y Gymdeithas a Heddlu De Cymru. Aethpwyd â 24 o blant – a'r mwyafrif ag anghenion arbennig – naill ai i Ysgol Farchogaeth Dinas Caerdydd neu i Ganolfan Farchogaeth Liege Manor Farm ym Mro Morgannwg. Roedd y cyrsiau, a ariannwyd gan gymynrodd y

Gymdeithas, yn llwyddiannus iawn o ran magu hunanhyder ac ysgogiad ymhlith y disgyblion. Nid oedd gan y bobl ifanc a gymerodd ran unrhyw brofiad blaenorol o geffylau ond drwy eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd bu iddynt feistrolï elfennau sylfaenol marchogaeth. Dywedodd yr athro a fu'n goruchwyllo'r cyrsiau fod y newid o ran hyder, agwedd ac ymddygiad y plant yn anhygoel.

Mynd i'r Afael â Materion yn ymwneud ag Iechyd Corfforol ac Iechyd Meddwl

- 2.13 Prin yw'r rhai fyddai'n anghytuno â'r angen i annog pobl o bob oedran i ymarfer corff yn fwy er budd hirdymor eu hiechyd a'u ffitrwydd. Mae manteision corfforol marchogaeth yn amlwg i unrhyw un sydd erioed wedi marchogaeth. Ar adeg pan fo'r gymdeithas yn pryderu mwyfwy ac yn haeddiannol am effeithiau ffordd o fyw eisteddog dan do ar iechyd, pwysau a ffitrwydd pobl ifanc, dylai cyfraniad posibl marchogaeth fod yn hunanamlwg. Fodd bynnag, prin y cynhwysir marchogaeth mewn unrhyw drafodaeth ar y ffyrdd y gall pobl ifanc, neu yn wir, unrhyw un, wella eu hiechyd a'u ffitrwydd, er gwaethaf rhai enghreifftiau ardderchog o'i defnydd yn y gwaith o hyrwyddo iechyd a lles corfforol megis Rhaglen "Up for Owt" Blackburn a Darwen. Rhydd y cynllun hwn weithgareddau corfforol heriol a phleserus i wella iechyd a ffitrwydd pobl hŷn, y mae llawer ohonynt newydd eu rhyddhau o'r ysbyty ar ôl cael strôc neu drawiad ar y galon¹¹. Ychwanegwyd marchogaeth at y rhaglen hon yn benodol ar gais y rhai oedd yn cymryd rhan ynddi. Rhydd gyrru cerbydau a gofal ceffylau cysylltiedig hefyd gyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gwerthfawr ond llai egniol. Mae angen i'r diwydiant ceffylau ddadlau o blaid marchogyddiaeth fel dull o fynd i'r afael â gordewdra, clefyd coronaidd y galon, straen a phroblemau iechyd eraill. Hefyd, mae angen iddo sicrhau bod geiriau yn cael eu hategu gan fynediad hawdd i gyfleoedd marchogaeth a gyrru er mwyn gweithredu'r honiadau hynny.
- 2.14 Cydnabyddir Therapi a Gynorthwyr gan Geffylau (neu Seicotherapi) mwyfwy fel ymagwedd werthfawr tuag at drin pobl ag ystod eang o broblemau iechyd meddwl. Nid yw ymagweddau o'r fath yn cynnwys marchogaeth o reidrwydd ond yn hytrach maent yn adeiladu ar rinweddau cynhenid ceffylau, megis eu maint a'u pŵer (sy'n ddefnyddiol ar gyfer goresgyn ofnau a magu hyder), eu gallu naturiol i gymdeithasu a'u personoliaethau, ymagweddau a hwyliau penodol i gynorthwyo pobl i oresgyn eu problemau, ac maent wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad, anhwylder diffyg canolbwytio, anhwylderau bwyta, problemau cam-drin, iselder, pryder, problemau gyda chydberthnasau ac anghenion cyfathrebu. Hyrwyddir y gwaith hwn, sydd ag enw da cynyddol am lwyddo yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn y DU gan y Gymdeithas Datblygu a Dysgu a Gynorthwyr gan Geffylau (EAGALA)¹², a sefydlwyd yn 1999 i fynd i'r afael â'r angen am adnoddau, addysg a phroffesiynoldeb yn y maes hwn.

ASTUDIAETH ACHOS – Fferm Lords House

Mae Fferm Lords House, ger Great Harwood yn Swydd Gaerhirfryn, yn ganolfan arbenigol unigryw sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned. Er ei bod yn cynnig nifer gyfyngedig o weithgareddau prif ffrwd, mae'r rhain yn

¹¹ Yr Adran Iechyd, Adroddiad ar Iechyd Gwell mewn Henaint
<http://www.renewal.net/Documents/RNET/Policy%20Guidance/Betterhealthholdreport.pdf>

¹² www.eagala.org

gwella ac yn ategu ei darpariaeth ar gyfer oedolion a phlant anabl a difreintiedig. Prif ddiben yr elusen, a sefydlwyd yn 1993, yw darparu therapi sy'n gysylltiedig â marchogaeth ac a gynorthwyir gan geffylau, ond mae hefyd yn darparu amrywiaeth cynhwysfawr ychwanegol o gyfleoedd addysgol a hamdden yn seiliedig ar ryngweithio â'r amgylchedd naturiol a chreu a rheoli cynefinoedd cadwraeth ar gyfer bywyd gwyllt. Mae pawb sy'n mynychu Fferm Lords House i gynorthwyo ei gwaith, naill ai fel cyflogai neu wirfoddolwr, yn elwa ar gryn dipyn o foddhad personol o wyllo buddiolwyr yn aeddfedu, yn magu hunanbarch, hyder ac yn datblygu amrywiaeth o alluoedd a sgiliau corfforol sy'n newid eu bywydau. Bob blwyddyn, mae mwy nag 800 o blant anabl neu ddifreintiedig yn ymweld â'r Fferm sydd â mwy na 60 o fyfyrwyr llawn amser rhwng 16 ac 80 mlwydd oed. www.lordshousefarm.co.uk

- 2.15 Yn ogystal â chynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys drwy ddatblygu sgiliau crefft megis gweithgynhyrchu ac atgyweirio cyfrwyau, ffrwynau ac offer arall, yn ogystal â sesiynau therapi¹³, ceir hanes hir o ddefnyddio ceffylau yn effeithiol i gynorthwyo pobl ag anableddau. Mae'r Gymdeithas Marchogaeth i'r Anabl, er enghraifft, yn gwneud llawer iawn o waith yn y maes hwn, ac mae'r Gymdeithas Ceidwaid Ceffylau ac Asiantaeth y Parciau Brenhinol yn cydweithio i roi cyfleoedd marchogaeth i bobl anabl ym Mharc Bushy yn Ne Orllewin Lloegr.

ASTUDIAETH ACHOS – Cymdeithas Marchogaeth i'r Anabl

Dengys gweithgareddau'r Gymdeithas y manteision ehangach y gall marchogyddiaeth eu rhoi i gymdeithas. Ei hamcan yw rhoi cyfle i bobl anabl farchogaeth neu yrru cerbydau er budd eu hiechyd a'u lles. Mae'r 16,000 o wirfoddolwyr sydd ganddi yn darparu dros 600,000 o gyfleoedd i farchogaeth a gyrru cerbydau mewn blwyddyn, i fwy na 25,000 o blant ac oedolion â nam meddyliol a chorfforol. Mae marchogaeth a gyrru cerbydau yn cynnig therapy gwerthfawr, mwynhad ac ymarfer corff, a'r cyfle i gyfathrebu â cheffylau a merlod a gofalu amdanynt. Gall marchogaeth fod o gryn gymorth i unigolyn wella ar ôl damwain wanychol er enghraifft, a gall helpu i ddatblygu a chryfhau'r defnydd a wneir o gyhyrau a breichiau a choesau. Mae'r hyfforddwyr gwirfoddol yn gweithio'n agos gyda ffisiotherapyddion a gweithwyr iechyd eraill i annog pob unigolyn i anelu at nodau cyraeddadwy, rhai cymedrol (megis cydio yn yr awenau) a rhai llawer mwy uchelgeisiol (megis cystadlu ar lefel genedlaethol neu lefel ryngwladol). Dechreuodd y mwyafrif o'n medalyddion yng Ngemau Paralympaidd Athen 2004 gyda Marchogaeth i'r Anabl. www.riding-for-disabled.org.uk

Cefnogi Cynhwysiant Cymdeithasol a Chyfiawnder Troseddol

- 2.16 Er y cydnabyddir gwerth ceffylau fel therapi ar gyfer pobl ag anabledd meddwl neu anabledd corfforol yn eang, mae eu gwerth o ran mynd i'r afael ag achosion troseddau cyn i bobl ifanc ddechrau cael eu hallgáu'n gymdeithasol a dechrau troseddu yn llai hysbys. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymdrech sylweddol ac wedi neilltuo cryn dipyn o arian, er enghraifft drwy Gronfa Pobl Ifanc y Gronfa

¹³ Tackling Mental Health Issues Through Enterprise. Papur Ymchwil y Gwasanaeth Busnesau Bach, Mehefin 2004 (<http://www.renewal.net/Documents/RNET/Research/Tacklingmentalhealth.pdf>)

Loteri Fawr¹⁴, i fynd i'r afael ag achosion troseddau ymhlith pobl ifanc a chynnig gweithgareddau i bobl ifanc a anelir at ddargyfeirio eu hegri ac annog mwy o ymgysylltiad cadarnhaol â'u hamgylchedd. Ceir hefyd rai enghreifftiau da sy'n dod i'r amlwg ar lefel leol lle y mae Cynghorau, megis Newham¹⁵, Portsmouth¹⁶ a Bradford¹⁷ wedi defnyddio ceffylau yn effeithiol fel rhan o'u rhaglenni eu hunain i fynd i'r afael â throseddau ymhlith pobl ifanc a phroblemau cymdeithasol eraill.

- 2.17 Yn ogystal â chynnig dull cyffrous ac effeithiol o ymgysylltu â'r rhai sy'n wynebu risg o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a throseddu, mae gan y diwydiant ceffylau lawer i'w gynnig o ran ailsefydlu troseddwr. Dim ond ychydig o brosiectau o'r fath a geir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd, er enghraifft Gre Suffolk Punch (gweler isod) neu waith Carchar Guys Marsh¹⁸, er bod llawer mwy o enghreifftiau o'r UD a mannau eraill.

ASTUDIAETH ACHOS – Gre Suffolk Punch

Ers 1983, mae Carchar Hollesley Bay, Suffolk, wedi gweithredu'r re fwyaf a hynaf ar gyfer Ceffylau Suffolk Punch, sef brîd arbennig iawn a phrin o geffylau gweithio trwm. Mae gweithio ar y Re yn rhoi cyfle i garcharorion gael addysg a hyfforddiant a meithrin sgiliau gwaith sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y math hwn o waith, yn arbennig ar gyfer y rhai a ddaw o grwpiau difreintiedig neu o gefndiroedd trefol, eu cyflwyno i opsiynau ar gyfer y dyfodol na fyddent byth wedi'u hystyried cyn hyn efallai. Disgwylir i'r safle hon gael ei throsglwyddo i Ymddiriedolaeth Suffolk Punch yn fuan, ond bydd y gweithlu yn parhau i gynnwys carcharorion Hollesley Bay.

ASTUDIAETH ACHOS – Sefydliad Ymddeol Ceffylau Pedigri (TRF)

Gan ddechrau yng Nghyfleuster Ceryddol Wallkill ym mhen ucha Efrog Newydd, mae TRF bellach yn gweithredu pedair canolfan sy'n helpu ceffylau a phobl. Addysgir carcharorion, y mae rhai ohonynt wedi'u carcharu am amser hir, am farchogwriaeth ac maent yn dilyn cwrs hyfforddi galwedigaethol a achredir gan y wladwriaeth ac a ddatblygwyd gan TRF ym maes gofalu am geffylau a'u rheoli. Mae'r ymagwedd arloesol hon wedi dod yn brototeip ar gyfer rhaglenni TRF eraill ac yn fodel ar gyfer sefydliadau eraill. Yn bwysicach fyth, mae'r archarorion yn datblygu cysylltiad â pherson arall, sy'n amhrisiadwy. I lawer, mae'n wers mewn ymddiriedolaeth a thrugaredd sydd wedi helpu i'w gwneud yn ddinasyddion gwell ar ôl eu rhyddhau. "Bu i weithio gyda'r ceffylau achub fy mywyd", dywedodd un o gyn garcharorion Wallkill sydd bellach yn gynghorydd alcohol a chamddefnyddio sylweddau gydag Adran Gwasanaethau Ceryddol Efrog Newydd. "Roeddwn yn gallu ymlacio yn eu cwmni. Roeddwn yn gallu bod yn fi fy hun. Gallwn hefyd ddysgu oddi wrthynt...am gariad, ymddiriedolaeth a gofal. Hefyd sylweddolais faint sydd gennym yn gyffredin. Roeddem i gyd mewn

¹⁴ http://www.biglotteryfund.org.uk/assets/ypf_general.pdf

¹⁵ <http://society.guardian.co.uk/crimeandpunishment/story/0,8150,1544825,00.html>

¹⁶ Cul-de-Sacs and Gateways – understanding the Positive Futures approach, Y Swyddfa Gartref, Mehefin 2003. Tudalen 14. <http://www.renewal.net/Documents/RNET/Policy%20Guidance/Culdesacsandgateways.pdf>

¹⁷ Sports for Life, Adroddiad Partneriaeth NDC Bradford a Trident, <http://www.renewal.net/Documents/RNET/Case%20Study/Sportslifebradford.doc>

¹⁸ Gwasanaeth Carcharau EM, Prison Service News <http://www.hmprisonservice.gov.uk/prisoninformation/prisonservicemagazine/index.asp?id=3876,18,3,18,0,0>

cyflwr eithaf gwael ond nid oeddem wedi ein trechu. Gyda'n gilydd, gallem lwyddo."

ASTUDIAETH ACHOS – San Patrignano, Yr Eidal

Mae San Patrignano yn ganolfan fyd-enwog ar gyfer ailsefydlu pobl sy'n gaeth i gyffuriau a'u hailintegreiddio'n gymdeithasol. Cynigir nifer o alwedigaethau i breswylwyr tra'u bod yn aros yno, am gyfnod hir weithiau, pan na fyddant mewn unrhyw gysylltiad â theulu a ffrindiau. Un o'r opsiynau mwyaf llwyddiannus yw bridio ceffylau, a ddechreuwyd ar ddechrau'r 1980au. Mae'r re, sy'n cynnwys 80 o geffylau, yn canolbwyntio ar gynhyrchu neidwyr ceffylau o ansawdd uchel iawn. Hefyd, mae gan San Patrignano arena farchogol o'r radd flaenaf, lle y cynhaliwyd Pencampwriaeth Neidio Ceffylau Ewrop yn 2005. Sefydlwyd San Patrignano ar sail y gred bod y berthynas rhwng pobl a cheffylau yn ddull therapiwtig rhagorol o helpu'r rhai â phroblemau o ran cydberthnasau ac ymgysylltu ag eraill sy'n nodweddiadol o gamddefnyddio cyffuriau. Mae ceffylau yn galluogi pobl i gydbwyso a rheoli eu hadweithiau emosiynol, maent yn annog cysondeb a chydlyniant o ran eu hymddygiad, maent yn gofyn am fuddsoddiad emosiynol cadarnhaol ac, yn bennaf oll, maent yn gofyn i unigolion wneud ymdrech i wrando a dysgu iaith newydd a dieithr, y mae hyn oll yn helpu cyfranogwyr i roi'r gorau i hunanganologrwydd sy'n nodweddiadol o'r rhan fwyaf o bobl sy'n gaeth i gyffuriau.

- 2.18 Er mwyn sicrhau bod marchogyddiaeth yn chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â'r blaenoriaethau pwysig hyn a gyflwynir gan y Llywodraeth, mae'n amlwg yn hanfodol cynnal a datblygu mwy o gyfleoedd i bobl fanteisio ar gyfleusterau marchogaeth. Nodir yr anawsterau ariannol sy'n wynebu sefydliadau marchogol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, yn adran nesaf y Strategaeth hon. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod prosiectau adfywio sy'n gysylltiedig â cheffylau yn gallu gwasanaethu'r gymuned, megis Prosiect Adfywio Aintree. Yn ogystal, mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod yr hyn sy'n deillio o gystadlaethau marchogol yng Ngemau Olympaidd 2012, a gynllunnir ar gyfer Parc Greenwich ar hyn o bryd, yn real, yn barhaol ac yn gymdeithasol gynhwysol (hyd yn oed os mai dim ond dros dro y bydd y cyfleusterau ffisegol ar gyfer y cystadlaethau ar gael). Drwy ddysgu i ymgysylltu â'r Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, a thrwy wella ei berfformiad mewn perthynas â'r agendâu cyhoeddus ehangach a amlygwyd yn gynharach, bydd y diwydiant ceffylau yn gallu nodi prosiectau cymunedol a seilwaith y gall eu cefnogi ac yn ei dro elwa arnynt wrth iddynt gael eu cyflwyno.

ASTUDIAETH ACHOS – Prosiect Adfywio Aintree

Mae Awdurdod Datblygu Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr yn cyfrannu £4.7m tuag at brosiect £35m i ailddatblygu Cae Rasio Aintree a fydd yn cynnwys cyfleuster unigryw newydd, sy'n cyfuno ysgol farchogaeth a gymorthdelir ar gyfer cymunedau lleol gyda chanolfan sioe safonol ryngwladol y disgwylir iddi ddenu cystadleuaethau a digwyddiadau marchogol mawr. Ar y cyfan, disgwylir i'r cyfleusterau gwell a'r ganolfan farchogol newydd ddenu 11,200 o ymwelwyr ychwanegol i'r ardal bob blwyddyn gan gyfrannu at gynnydd o £1.2 miliwn yng ngwariant blynyddol twristiaid, a fydd yn rhoi hwb sylweddol i'r diwydiant twristiaeth.

2.19 Yn olaf, elfen werthfawr arall o'r diwydiant ceffylau a gaiff ei hanwybyddu'n aml yw rôl hanfodol gwirfoddolwyr ymhob agwedd bron. Mae ysgolion marchogaeth, sioeau ceffylau, grwpiau mynediad, cymdeithasau bridiau a llawer o grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â cheffylau yn y bôn yn dibynnu ar wirfoddolwyr, sydd yn eu tro yn elwa'n fawr iawn o ran datblygiad personol ac ymwneud â'r gymuned, o ganlyniad i'w hymgysylltiad â gweithgareddau gwerth chweil y sefydliadau hyn. Er bod rôl gwaith gwirfoddol o ran elusennau, megis Marchogaeth i'r Anabl a'r Gynghrair Ryngwladol ar gyfer Amddiffyn Ceffylau, yn hysbys, ni werthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan y llu o drefnwyr a chynorthwyywyr at lwyddiant digwyddiadau ar bob lefel gymaint. Os yw'r diwydiant ceffylau yn llwyddiannus yn ei ymdrechion i hyrwyddo marchogaeth a gweithgareddau marchogol eraill er mwyn rhoi proffil cyhoeddus uwch iddo a chynyddu cyfranogiad, byddai'n haws denu gwirfoddolwyr i helpu a byddai'r rhai a oedd yn cyfranogi yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn fwy ac yn elwa ar y manteision cymdeithasol a phersonol sydd ar gael.

CAM GWEITHREDU 8: Cyfrannu at Gytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus y Llywodraeth

Cam Gweithredu: Cynnal trafodaethau gydag Adrannau ac asiantaethau perthnasol y Llywodraeth ar sut y gall y diwydiant ceffylau helpu i gyfrannu at gyflawni eu Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus a thargedau polisi cymdeithasol eraill gan ddefnyddio tystiolaeth o astudiaethau achos ac ymchwil bellach.

Cyfrifoldeb: BHIC a Defra.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

Nod 3: Gwella perfformiad economaidd busnesau marchogol

- 3.1 Mae mwy na 18,000 o fusnesau marchogol gweithredol ym Mhrydain Fawr, ac mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â marchogyddiaeth neu'n dibynnu arni mewn rhyw ffordd¹⁹. Mae'r mwyafrif yn fusnesau bach a chanolig eu maint²⁰, ac mae llawer yn cyflogi llai na phump o bobl. Mae gweithgareddau busnes yn amrywio o siopau offer ceffylau i weithgynhyrchwyr porthiant, hyfforddwyr i ffotograffwyr, gwyliau marchogaeth i gwmnïau recriwtio arbenigol. Mae gwella perfformiad economaidd y busnesau hyn yn bwysig nid yn unig i'r unigolion â chysylltiad uniongyrchol – megis cwsmeriaid, perchenogion neu gyflogeion – ond i'r diwydiant yn gyffredinol. Mae sector busnes marchogol iach a ffyniannus yn hanfodol i dwf a datblygiad parhaol marchogyddiaeth, tra bod perfformiad economaidd a pharhad llawer o fusnesau marchogol hyd yn oed yn dibynnu ar farchnad iach, wedi'i hategu gan y nodau strategol eraill.
- 3.2 Bydd sector busnes marchogol cryf, sy'n perfformio'n dda yn economaidd, yn helpu i sicrhau bod llif cyson o arian yn parhau i ddod i mewn i'r byd marchogol. Bydd hyn o fudd nid yn unig i ardaloedd gwledig ond hefyd ardaloedd trefol, lle y lleolir llawer o'r busnesau gweithgynhyrchu a manwerthu. Bydd diwydiant llwyddiannus a redir yn dda hefyd yn gallu llobio'n fwy effeithiol am unrhyw newidiadau i atgyfnerthu a gwella perfformiad yn y dyfodol.
- 3.3 Canolbwyntiodd y themâu allweddol a amlygwyd yn yr ymgynghoriad cychwynnol ar yr amgylchedd busnes (rheoleiddio, rhyngweithio â chyrff lleol a chyrff cenedlaethol y llywodraeth, yswiriant), materion mewnol (megis sgiliau busnes), a gweithgareddau ar y cyd (megis hyrwyddo, datblygu marchnadoedd a phennu safonau). Mae'r themâu hyn yn cysylltu â'i gilydd, ac â'r nodau strategol eraill (gweler cynigion 1 a 2 uchod yn benodol).
- 3.4 Crynhoir y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad isod.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn mai rheoliadau – gan gynnwys rhai ariannol a rhai deddfwriaethol, megis annhegwch ymddangosiadol y system drethi rhwng ffermwyr sy'n arallgyfeirio a sefydliadau marchogol sy'n bodoli eisoes neu sefydliadau marchogol newydd - oedd y rhwystr mwyaf i lwyddiant eu busnes. Mae hyn yn debyg i farn busnesau bach a chanolig eu maint yn genedlaethol²¹.
 - Gwella sgiliau busnes, yn ogystal â mynediad i ffynonellau cyngor a chymorth ac ymwybyddiaeth ohonynt, oedd yr ail thema y cyfeiriwyd ati amlaf. Gallai datblygu strategaethau ceffylau rhanbarthol ddarparu cyfleoedd rhwydweithio a phwysleisio pwysigrwydd cynyddol gweithgarwch marchogol mewn rhai ardaloedd²².

¹⁹ Ffynhonnell: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain.

²⁰ Fe'i diffinnir fel unrhyw fusnes â llai na 250 o gyflogeion. Yn achos manwerthwyr marchogol, dengys arolygon blynyddol a gynhelir gan Gymdeithas Masnach Farchogol Prydain mai tri neu lai yw nifer gyfartalog y staff a gyflogir.

²¹ Gweler Small Firms: Big Business! A review of SMEs in the UK, Gwasanaeth Busnesau Bach, 2002.

²² Mae Adolygiad Defra o Ffrydiau Ariannu Gwledig yn edrych ar y mater hwn a bydd y Sianel Cyngor Busnes Gwledig yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y diwydiant ceffylau pan y'i cyflwynir ar wefan Defra o fis Mawrth 2006. Y bwriad yw darparu gwasanaethau cynghori gwell a haws eu defnyddio ar gyfer pobl fusnes yng nghefn gwlad, gan ddarparu cyngor sy'n fwy perthnasol iddynt ac i'r ardal lle y maent yn byw ac yn gweithio, a chan gynnig gwasanaeth gwybodaeth integredig i bawb sy'n gysylltiedig â Defra trwy linell gymorth a gwefan.

- Canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar gynyddu gwerth cynhyrchion a gwasanaethau marchogol. Un elfen oedd annog y sector hamdden (marchogion, hyfforddwyr ac ysgolion marchogaeth) a byd busnes (masnach, ffermwyr sefydliadau addysg) i weithio gyda'i gilydd yn lleol gyda llywodraeth leol. Un arall oedd datblygu marchnadoedd newydd, nid yn unig marchnadoedd allforio ond rhai domestig hefyd, gan fanteisio ar y ddelwedd ragorol sydd gan gymaint o gynhyrchion marchogol Prydeinig.
- Denodd cynnwys ceffylau yn y broses o ddatblygu polisïau gwledig a defnydd tir gryn nifer o sylwadau hefyd, gan gynnwys yr angen i gydnabod pwysigrwydd arallgyfeirio ffermydd o ran datblygu'r diwydiant.
- Nodwyd twristiaeth farchogol fel maes y mae angen ei ddatblygu, er nas nodwyd mor aml nac mewn termau mor bendant â'r disgwyl efallai.

(a) Codi safonau o ran perfformiad busnes

- 3.5 Mae busnesau marchogol llwyddiannus yn dibynnu ar fynd i'r afael ag achosion pwysau allanol a sicrhau y rhedir y busnesau mor effeithlon ac mor economaidd â phosibl. Er y gall cyffredinolli guddio gwahaniaethau unigol, mae busnesau marchogol yn tueddu i wneud llai o elw cyfartalog o gymharu â busnesau tebyg mewn sectorau eraill. Mae hyn yn golygu y gall hyd yn oed gynnydd bach mewn costau wneud y gwahaniaeth rhwng dichonoldeb parhaus a methdaliad. Mae gweithgarwch manwerthu marchogol, er enghraifft, yn cynnwys llawer o fannau gwerthu bach sy'n gwneud elw na fyddai'n ddichonadwy mewn sectorau manwerthu eraill.
- 3.6 Rhedir llawer o fusnesau bach heb fawr ddim ymwybyddiaeth o sut y maent yn perfformio mewn perthynas â busnesau eraill, naill o fewn y sector neu mewn sectorau eraill. Byddai system feincnodi yn galluogi busnesau i asesu eu perfformiad mewn ffordd anghystadluel, a chanolbwyntio ar rannau o'u gweithrediadau lle'r oedd potensial i wella. Mae meincnodi yn fodd o gyflawni'r her benodol hon ond nid yw'n fwy na hynny. Gellid ei ddatblygu i gwmpasu pob math o fusnesau marchogol (ysgolion a chanolfannau marchogaeth, ffariers, manwerthwyr ac ati) a chynnwys cymariaethau o fewn y sector a'r tu hwnt iddo. Dylai hyn helpu i gynyddu cynhyrchiant a phroffidioldeb busnesau. Gallai fod yn seiliedig ar Fynegai Meincnodi presennol yr Adran Masnach a Diwydiant.

CAM GWEITHREDU 9: Meincnodi busnesau

Cam gweithredu: Cyflwyno system feincnodi, i godi safonau a gwella perfformiad ar draws pob math o fusnes marchogol.

Cyfrifoldeb: Gweithwyr proffesiynol y diwydiant a chyrff masnach i arwain.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

(b) Annog cydweithredu i wella cyfleoedd busnes

- 3.7 Yn aml nid oes fawr ddim rhyngweithio rhwng busnesau marchogol, naill ai rhwng busnesau o'r un math neu rhwng busnesau cysylltiedig. Mae hyn oherwydd pryderon ynghylch cystadleuaeth a diffyg ymwybyddiaeth o berthnasedd posibl yr hyn y mae busnesau eraill yn ei wneud. Fodd bynnag, mae cysylltiad allweddol rhwng cyfranogiad mewn marchogaeth a dichonoldeb llawer o fusnesau. Wrth l gyfranogiad gynyddu, mae'r galw am nwyddau a gwasanaethau cysylltiedig yn cynyddu. Mae angen ffurfioli a chryfhau'r cysylltiadau rhwng craidd y diwydiant a darparwyr nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y craidd hwnnw (gweler y diagram yn y cyflwyniad). Un enghraifft yw'r modd y gall ysgolion marchogaeth a manwerthwyr weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynyddu nifer y cwsmeriaid ar gyfer y ddau barti trwy gyfeirio cwsmeriaid at ei gilydd.
- 3.8 Er mwyn bod yn llwyddiannus mae'n rhaid i fusnes gael ei redeg yn effeithlon, yn ddarbodus ac yn ofalus – mewn geiriau eraill “mewn ffordd broffesiynol drefnus”. Fodd bynnag mae llawer o bobl yn bwrw ati i redeg busnes marchogol yn ddamweiniol, nid o fwriad, wedi'u hysgogi gan ddiddordeb mewn ceffylau yn hytrach nag mewn busnes. Mae'n ddigon posibl bod llawer o'r busnesau hyn – p'un a ydynt yn ysgolion marchogaeth, yn fridwyr, yn stablau cadw a hurio ceffylau neu'n fusnesau cyfrwyiaeth – yn cael eu rhedeg gan arbenigwyr ym maes lles ceffylau, marchogyddiaeth neu'r grefft sydd ynghlwm wrth weithgynhyrchu. Ond nid ategir yr arbenigedd ymarferol hwn bob amser gan ddigon o graffter busnes na sgiliau rheoli l fanteisio i'r eithaf ar botensial y busnes.
- 3.9 Yn aml nid oes gan reolwyr y sgiliau na'r wybodaeth angenrheidiol i reoli eu busnes, gan gynnwys staff, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael. Byddai hyfforddiant parhaus mewn arferion rheoli modern yn helpu busnesau i oroesi a thyfu, a chadw a datblygu staff. Dylid teilwra sgiliau busnes generig i ddiwallu anghenion busnesau marchogol a dylid darparu cyfeiriadau i ffynonellau gwybodaeth megis Business Link (Lloegr)²³ a Llygad Busnes (Cymru)²⁴ hefyd.

CAM 10: Proffesiynoldeb busnes

Cam Gweithredu: Hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i dargedu yn y gweithle ar gyfer rheolwyr marchogol, a'i gwneud yn haws i gael gafael ar hyfforddiant; sefydlu system rhwydweithio busnesau yn lleol neu'n rhanbarthol i rannu gwybodaeth, profiadau ac arfer gorau.

Cyfrifoldeb: Cyrff proffesiynol o fewn y diwydiant mewn partneriaeth â Lantra.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

²³ Gweler www.businesslink.gov.uk

²⁴ Gweler www.llygadbusnes.org.uk

(c) Sicrhau cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Datblygu

- 3.10 Sefydlwyd y naw Awdurdod Datblygu Rhanbarthol gan y Llywodraeth i hybu datblygu economaidd cynaliadwy yn Lloegr. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cyflawni swyddogaeth debyg yng Nghymru. Yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, y dibenion yw:
- hybu gweithgarwch datblygu ac adfywio economaidd;
 - hybu effeithlonrwydd, buddsoddi a gallu cystadleuol ym myd busnes;
 - hybu cyflogaeth;
 - cyfrannu at ddatblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth.
- 3.11 Noddir yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol gan yr Adran Masnach a Diwydiant ond maent yn rheoli cyllideb, a elwir yn Gronfa Sengl, y mae nifer o adrannau'r Llywodraeth yn cyfrannu ati, gan gynnwys Defra. Mae gan bob Awdurdod Datblygu Rhanbarthol yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r arian a ddyrennir iddo i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau rhanbarthol a nodir yn y Strategaethau Economaidd Rhanbarthol ac yn y Cynlluniau Corfforaethol. Mae'n cyflwyno adroddiadau i'r Llywodraeth drwy Fframwaith Gorchwyl. Yn ogystal â'u gweithgareddau prif ffrwd, mae'r Awdurdodau wedi ymgymryd yn ddiweddar â'r cyfrifoldeb dros dwristiaeth ranbarthol a rheoli Cysylltiadau Busnes, y rhwydwaith cyngor busnes i fusnesau bach a chanolig eu maint.
- 3.12 Er mwyn sicrhau bod tystiolaeth o gyfraniad posibl y diwydiant ceffylau at ddatblygu economaidd yn cael ei hymgorffori'n briodol yn y gwaith o bennu blaenoriaethau strategol rhanbarthol a chynllunio buddsoddiadau, mae'n hanfodol bod y diwydiant yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol ac asiantaethau perthnasol eraill. Cwmpesir hyn yng Ngham Gweithredu 4 uchod.

(ch) Sicrhau chwarae teg o ran materion ariannol a rheoliadol

- 3.13 Mae llawer o bobl yn y diwydiant o'r farn bod busnesau marchogol yn cael eu rhwystro'n annheg gan rwystrau rheoliadol anghyfiawn i dyfu a diffyg chwarae teg ym myd busnes o gymharu â sectorau busnes eraill yn y DU a busnesau marchogol cystadleuol dramor. Mynegwyd pryderon o'r fath dro ar ôl tro yn ystod y broses ymgynghori, gan gynnwys:
- mae gostyngiadau treth ar gael i ffermwyr sy'n arallgyfeirio i weithgareddau marchogol ond nid i fusnesau marchogol sy'n bodoli eisoes;
 - mae'r diwydiant o'r farn bod gweithgareddau marchogaeth masnachol mewn sefydliadau addysgol megis Colegau Addysg Bellach yn elwa ar driniaeth ffafriol mewn perthynas â threthi, tra bod ysgolion marchogaeth yn cael eu trethu ar y gyfradd lawn;
 - mae helmedau beiciau a beiciau modur ar gyfer oedolion yn elwa ar gyfradd sero o ran Treth ar Werth (TAW), yn ogystal â hetiau marchogaeth plant, tra bod hetiau marchogaeth oedolion yn parhau ar y gyfradd lawn o 17.5%;

- mae bridwyr yn talu TAW ar 17.5%, sy'n llawer mwy na'u cystadleuwyr yng Ngweriniaeth Iwerddon (4.4%) a Ffrainc (5.5%)²⁵.

3.14 Mae'r pryderon hyn yn rhai cryf a dilyn ac, ar yr wyneb, maent yn darparu tystiolaeth gref bod y diwydiant ceffylau yn cael ei drin yn wael. Fodd bynnag, er bod y pwyntiau uchod yn ffeithiol gywir, cred y Llywodraeth nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r darlun llawn. Er enghraifft, ym marn y Llywodraeth mae mwy o resymau dros arallgyfeirio ffermwyr i elwa ar doriadau ariannol, fel rhan o becyn sydd ar gael i ffermwyr ond nid busnesau eraill; a bod ymwneud â'r sector marchogol wedi bod o rywfaint o fudd i farchogion a pherchenogion ceffylau yn ogystal â chystadleuaeth ychwanegol mewn rhai meysydd. Bwriedir i'r cynllun gostwng ardrethi penodol hwn ddod i ben ym mis Awst 2006.

3.15 O ran rhyddhad TAW, mae'r trefniadau ffurfiol sefydledig gyda phartneriaid Ewropeaidd yn galluogi'r Deyrnas Unedig i gadw'r cyfraddau sero presennol ond maent yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ehangu eu cwmplas neu gyflwyno rhai newydd. Felly, mae'r Llywodraeth wedi ei gwneud yn glir na fwriedir dileu TAW oddi ar hetiau marchogaeth neu ddillad ac offer diogelwch eraill. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ceffylau yn dal i fod o'r farn bod angen cyfradd TAW gostyngedig ar gyfer offer diogelwch hanfodol megis hetiau marchogaeth, a bydd yn parhau i lobio'r Llywodraeth am y gostyngiad hwn.

3.16 Mae trethi sefydliadau addysgol yn fater dadleuol, ond pwysleisia Asiantaeth y Swyddfa Brisio fod y sail statudol ar gyfer cynnal asesiad yr un peth ar gyfer Colegau Addysg Bellach ac Addysg Uwch a busnesau sector preifat. Ym marn Asiantaeth y Swyddfa Brisio gallai canfyddiad y diwydiant ceffylau bod gan golegau o'r fath fantais annheg dros fusnesau sector preifat fod yn ddi-sail. Gallai unrhyw wahaniaethau, os o gwbl (mae'r rhain yn anodd eu mesur oherwydd y dulliau prisio gwahanol a ddefnyddir), fod yn ymylol ar sail tebyg at ei debyg. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall rhai colegau hawlio rhyddhad ardreth dewisol gan yr Awdurdod Bilio perthnasol ar sail statws elusennol. Byddai'r Llywodraeth yn barod i drafod unrhyw dystiolaeth ffeithiol o driniaeth annheg a gyflwynir gyda'r diwydiant.

3.17 Yn ogystal, mae'r diwydiant ceffylau yn mwynhau rhai manteision ariannol ei hun. Er enghraifft:

- Bydd rhai busnesau ceffylau yn Lloegr â gwerth trethiannol o dan £10,000 yn gymwys i gael rhyddhad ardreth o dan gynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach a ddechreuodd ym mis Ebrill 2005²⁶;
- mae greoedd cymwys yn manteisio ar ostyngiad o £3,500 (uchafswm yn Lloegr)²⁷ a £3,000 (uchafswm yng Nghymru) mewn gwerth trethiannol, a gallant gymryd rhan yn y cynllun un gyfradd wastad amaethyddol ar gyfer TAW.

²⁵ Yn 2003, gostyngodd Llywodraeth Ffrainc ei chyfradd TAW ar gyfer canolfannau marchogaeth a hyfforddwyr i 5.5%, fel rhan o becyn i ddatblygu ardaloedd gwledig, gan gydnabod bod y sector hwn yn debyg i weithgaredd amaethyddol a bod ganddo botensial gwirioneddol i arallgyfeirio a bod yn ddeinamig o fewn ardaloedd gwledig.

²⁶ Gweler www.mybusinessrates.gov.uk/rates/other-reliefs.

²⁷ Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Greoedd) (Lloegr) 2004

- ceir cynllun cofrestru TAW arbennig ar gyfer perchenogion ceffylau rasio, sy'n eu galluogi i adennill y TAW a delir ganddynt wrth brynu a chadw eu ceffylau;
- mae rhyddhad ardrethi hefyd ar gael i elusennau, ac yn ôl disgrisiwn I sefydliadau eraill nad ydynt yn gwneud elw ac i fusnesau â gwerth trethiannol o dan £14,000 mewn pentref gwledig â phoblogaeth o dan 3,000²⁸
- o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ymestynnwyd y Cynllun Taliad Sengl yn Lloegr i gynnwys tir a borir gan geffylau²⁹;
- mae rhai cynlluniau TAW y gallai'r diwydiant ceffylau hefyd elwa arnynt, megis y Cynllun Gorswm TAW ar gyfer gwerthu ceffylau a merlod ail-law neu Gynlluniau Arwerthwyr TAW³⁰.

3.18 Ceir pryderon hefyd ynghylch y modd y caiff busnesau ceffylau eu trin o fewn y system cynllunio defnydd tir. Cyflwynwyd canllawiau sy'n annog awdurdodau cynllunio yn frwd i gefnogi gweithgareddau yn ymwneud â cheffylau ym mis Awst 2004 pan gyhoeddwyd Datganiad Polisi Cynllunio 7, *Sustainable Development in Rural Areas*³¹. Mae hefyd yn cynnwys cyngor ar anheddau galwedigaethol ar gyfer busnesau gwledig, a ddylai helpu i'w gwneud yn haws i gael caniatâd cynllunio ar gyfer llety staff ar y safle. Fodd bynnag, erys peth tystiolaeth o ymagweddau anghyson a fabwysiedir gan awdurdodau cynllunio gwahanol (gweler Nod 6). Gallai'r trefniadau cyfathrebu gwell o fewn y diwydiant a ragwelir yn Nod 1 (Cam Gweithredu 3) helpu i alluogi busnesau marchogol i gael gafael ar gyngor clir a defnyddiol ar gynllunio defnydd tir, tra byddai rhwydweithiau ceffylau lleol a rhanbarthol (Cam Gweithredu 5) yn gallu lloio awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni mwy o gysondeb yn y maes hwn a rhoi mwy o bwys ar gyngor a chanllawiau Datganiad Polisi Cynllunio 7.

3.19 Mae Defra a Chyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain wedi trafod trethiant busnesau ceffylau sawl gwaith. Mae Defra wedi cyflwyno rhestr wirio o'r materion y mae angen i'r diwydiant fynd i'r afael â hwy er mwyn pledio achos dros newid i'r Cyddfederasiwn. Mae cynnydd yn cael ei wneud yn raddol ar lawer o'r materion hyn, gyda'r nod o sicrhau bod y diwydiant yn cael chwarae teg o gymharu â busnesau eraill yng Nghymru a Lloegr. Golyga hyn ei bod yn annhebyg y bydd toriadau ariannol newydd ychwanegol ar gael iddo yn y dyfodol agos ond bydd yn bwysig sicrhau bod busnesau yn cael eu hysbysu o unrhyw drefniadau y gallant elwa arnynt. Er mwyn cyflawni hyn yn y modd mwyaf effeithiol, mae angen i gyrff o fewn y diwydiant marchogol ddatblygu

²⁸ Gweler www.mybusinessrates.gov.uk/rates/other-reliefs.

²⁹ Mae'n rhaid cadw'r tir mewn Cyflwr Amgylcheddol ac Amaethyddol Da, a'i gynnwys mewn daliad ag arwynebedd o 0.3 hectar o leiaf. Ni ellir gwneud unrhyw gais pan ddefnyddir y tir yn bennaf at ddibenion hamdden megis caeau rasio, cyrsiau carlamu neu gyrsiau traws gwlad. Yng Nghymru bydd y cyfrifiad ar gyfer y Taliad Fferm Sengl yn seiliedig ar geisiadau am daliadau uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) a wnaed gan ffermwyr yn ystod 2000 hyd 2002. Ni fydd y bobl hynny nad oeddynt mewn sefyllfa i wneud cais am gymorthdaliadau amaethyddol yn y blynyddoedd hynny yn gymwys. Felly yng Nghymru, ni fydd unrhyw newid o ran cyfundrefn talu newydd CAP o ran sefyllfa ffermwyr neu berchenogion tir sy'n rhedeg busnesau yn ymwneud â cheffylau yn unig.

³⁰ Gweler www.hmrc.gov.uk

³¹ Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi yn eu dogfennau datblygu eu polisiâu ar gyfer cefnogi busnesau marchogol, tra'n diogelu ansawdd amgylcheddol a chymeriad cefn gwlad. Dylai'r polisiâu hyn ddarparu ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau adloniadol a hamdden mewn lleoliadau addas a, lle y bo hynny'n briodol, ar gyfer anghenion busnesau hyfforddi a bridio. Dylent hefyd hwyluso aildefnyddio adeiladau fferm ar gyfer busnesau ceffylau ar raddfa fach [hynny yw, busnesau sy'n cynnwys hyd at ddeg ceffyl] sy'n darparu math defnyddiol o brosiect arallgyfeirio fferm.

ymagwedd fwy cydlynol tuag at gasglu tystiolaeth, a lobio a thrafod gyda'r Llywodraeth yn genedlaethol ac yn lleol. Gallai'r broses hon gael ei datblygu'n effeithiol gan Bwyllgor Trethi Ceffylau a Merlod y diwydiant³².

CAM GWEITHREDU 11: Cyfyngiadau ariannol a rheoliadol

Cam Gweithredu: Y diwydiant ceffylau i nodi cyfyngiadau ariannol a rheoliadol gwirioneddol ac arwyddocaol sy'n wynebu busnesau marchogol, a chyflwyno achos cryf dros newid lle y bo'n briodol.

Cyfrifoldeb: Pwyllgor Trethi Ceffylau a Merlod, mewn cydweithrediad â'r Cydffederasiwn. Dylai'r diwydiant a'r Llywodraeth gyfarfod yn rheolaidd i drafod camau gweithredu a chynnydd.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

(d) Dod i farn ar statws y ceffyl ar gyfer y diwydiant cyfan

3.20 O dan ddeddfwriaeth ddomestig, dim ond ceffylau a ddefnyddir i ffermio tir amaethyddol neu a gaiff eu ffermio ar gyfer cig neu groen a all cael eu galw'n anifeiliaid amaethyddol³³. I'r gwrthwyneb, mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn trin y ceffyl fel anifail sy'n cynhyrchu bwyd³⁴, gan adlewyrchu'r ffaith bod cig ceffyl yn cael ei fwyta mewn rhai Aelod-Wladwriaethau.

3.21 Roedd rhai pobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn y dylai deddfwriaeth ddomestig ddosbarthu'r ceffyl yn 'anifail amaethyddol', sy'n cyfateb i'r modd y mae'r ceffyl yn eu barn hwy yn cael ei drin mewn rhai Aelod-Wladwriaethau eraill fel anifail 'amaethyddol' neu anifail 'cynhyrchu' yn bennaf. Maent o'r farn y byddai'r dosbarthiad hwn yn arwain yn awtomatig at y diwydiant ceffylau yn cael yr un manteision o dan y systemau ariannol a chynllunio â ffermio³⁵. Yn ymarferol nid yw hyn mor hawdd. Byddai unrhyw newid yn y modd y caiff busnesau ceffylau eu trin yn golygu pledio achos penodol ac argyhoeddiadol (gweler Cam Gweithredu 12) a gallai rhai gofynion yn ymwneud â dosbarthiad amaethyddol niweidio natur gystadleuol.

3.22 Mae eraill o fewn y diwydiant o'r farn y dylid diffinio'r ceffyl fel anifail cymar, tra bod trydydd grŵp o'r farn bod achos dros roi i'r ceffyl ei statws ei hun o fewn amaethyddiaeth fel anifail cynhyrchu ar gyfer chwaraeon, hamdden ac o bosibl bwyd. Cyn i'r diwydiant lobio ar gyfer unrhyw newid yn statws y ceffyl, rhaid nodi'n glir a fyddai hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth o bwys, ac os felly beth fyddai'r sgîl-ffeithiau i bob rhan o'r diwydiant - gallai'r hyn a allai fod yn

³² Mae Pwyllgor Trethi Ceffylau a Merlod yn grŵp arbenigol, sy'n cynnwys arbenigwyr ym maes trethiant a chynrychiolwyr o sefydliadau marchogol sy'n cyfarfod i drafod materion yn ymwneud â threthiant a mynd i'r afael â hwy ar gyfer y diwydiant ceffylau.

³³ Mae hyn yn dilyn o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, adran 109. Mae'r dehongliadau mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, yn seiliedig ar Ddeddf 1947.

³⁴ Y deddfwriaeth wreiddiol yw Cyfarwydddeb 64/433/CEE, sy'n rheoleiddio masnach o fewn y Gymuned mewn cig ffres i'w fwyta gan bobl. Un canlyniad yw bod gan borthiant ceffylau gyfradd sero o ran Treth Ar Werth.

³⁵ Eithriad rhag ardrethi busnes, Treth Ar Werth ar gyfradd sero ar gyfer anifeiliaid amaethyddol, a hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau amaethyddol.

ddefnyddiol i un rhan weithio yn erbyn un arall. Gellid dadlau dros ymdrin â phob achos ar wahân.

CAM GWEITHREDU 12: Statws y Ceffyl

Cam Gweithredu: Sefydlu gweithgor sy'n cynrychioli pob rhan o'r diwydiant i bennu a yw statws y ceffyl yn fater o bwys, ac os felly pennu safbwynt ar gyfer y diwydiant cyfan a phledio achos argyhoeddiadol dros newid, gan roi sylw i'r sefyllfa mewn Aelod-Wladwriaethau eraill.

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain/Cyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain i arwain. Byddai Defra yn cynorthwyo'r gweithgor ar gais trwy ddarparu cyngor a chanllawiau ffeithiol.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

(dd)Mynd i'r afael â phroblemau yn gysylltiedig ag yswiriant a rheoli risgiau iechyd a diogelwch

3.23 Mae marchogaeth yn weithgaredd peryglus. Mae'r risg hon yn cyfrannu at werth y profiad dysgu, ac at y rôl y mae marchogaeth yn ei chwarae yn natblygiad cymdeithasol pobl ifanc, a all gymhwyso'r gwersi a ddysgir ganddynt at rannau eraill o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar mae cynnydd sylweddol mewn premiymau yswiriant wedi cyfrannu at broblemau ariannol difrifol ar gyfer perchenogion sefydliadau marchogaeth a chadw a hurio ceffylau, yr ymddengys eu bod wedi achosi i sefydliadau gau mewn rhai achosion. Yn yr un modd, mae manwerthwyr marchogol yn wynebu mwy a mwy o achosion o ymgyfreitha yn dilyn achosion o offer yn methu nad ydynt i'w priodoli iddynt, ac mae'n dod yn fwy anodd i weithgynhyrchwyr porthiant gael yswiriant atebolrwydd cynnyrch. Mae'r problemau hyn yn rhannol adlewyrchu cymdeithas fwyfwy ymgyfreithgar, a ategir gan amllder achosion "dim ennill, dim ffi". Yn ychwanegol at hyn, mae effaith achos Mirvahedy ar atebolrwydd perchenogion a ganfu, mewn rhai amgylchiadau, fod perchenogion ceffylau yn gyfrifol am ddifrod a wneir gan eu ceffylau, hyd yn oed pan nad ydynt wedi bod yn esgeulus³⁶.

3.24 Mewn cymdeithas fwyfwy ymgyfreithgar ac annhueddol o ran risg, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth yn dod yn rhwymedigaeth ddifrifol i'r diwydiant yn hytrach nag yn un o'i nodweddion cadarnhaol. Mae angen i'r diwydiant annog y Llywodraeth i gydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chwaraeon cyfranogiad gweithredol a gweithgareddau awyr agored eraill a sicrhau nad osgoir risg a reolir yn briodol oherwydd ofn ymgyfreithiad. Mae gan wledydd eraill, megis UDA, ddeddfwriaeth sy'n cydnabod yn ffurfiol y math hwn o risg, a chred y diwydiant y dylai'r Llywodraeth ystyried gwneud rhywbeth tebyg.

³⁶ *Mirvahedy v. Henley* (2003)

ASTUDIAETH ACHOS – Deddfwriaeth yn yr Unol Daleithiau

Pasiwyd deddfwriaeth yn Nhalaith Kentucky sy'n cydnabod y risg gynhenid sy'n gysylltiedig ag unrhyw beth yn ymwneud ag anifeiliaid fferm, gan gynnwys ceffylau. O dan y ddeddfwriaeth hon, nid oes unrhyw ddyletswydd benodol ar geidwaid i leihau'r risg honno. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu unrhyw amddiffyniad rhag esgeulustod, ac mae dyletswydd i rybuddio cyfranogwyr o'r risg gynhenid. Mae deddfwriaeth o'r fath wedi atal ceisiadau ffug, er enghraifft yn erbyn ysgol farchogaeth yn dilyn damwain pan na fu'r perchennog yn esgeulus a phan hysbyswyd y cyfranogwr o'r risgiau yn gysylltiedig â marchogaeth. Mae Taleithiau eraill wedi pasio deddfwriaeth debyg.

- 3.25 Ceir rhai arwyddion bod y Llywodraeth yn dechrau cydnabod hyn. Er enghraifft, ym mis Mai 2005, traddododd y Prif Weinidog araith yn cefnogi diwylliant yn seiliedig ar synnwyr cyffredin yn hytrach na diwylliant yn seiliedig ar iawndal³⁷. Yn yr araith honno, addawodd y byddai ei Lywodraeth yn cyflwyno Mesur lawndal³⁸ a fyddai'n cyfyngu ar waith y "ffermwyr hawliadau" sy'n bwydo'r broses ymglyfreitha, ac yn egluro'r gyfraith gwlad bresennol ar esgeulustod er mwyn tanlinellu nad oes unrhyw atebolrwydd yn gysylltiedig ag esgeulustod mewn perthynas â digwyddiadau anffodus na ellid bod wedi eu hosgoi drwy gymryd gofal rhesymol neu arfer sgil rhesymol. Yn ogystal, mae adrannau'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am weithgareddau yr ystyrir eu bod yn peri risg neu atebolrwydd, megis gwirfoddoli a chwaraeon, wedi bod yn trafod â'r diwydiant yswiriant sut y gellid ymdrin â risgiau o'r fath yn fwy effeithiol. Mae'r diwydiant ceffylau yn edrych ymlaen at weld hynt y Mesur, a chanlyniadau'r trafodaethau hyn.
- 3.26 Mynd i'r afael ag achos craidd y cynnydd mewn premiymau yswiriant drwy gydnabod a derbyn yn ffurfiol y risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth yw'r ffordd orau o ymdrin â'r mater yn yr hirdymor yn amlwg. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ceffylau yn glir bod angen iddo weithredu nawr er mwyn sicrhau nad yw mwy a mwy o sefydliadau marchogaeth sydd, fel y nodir mewn manau eraill, yn aml yn gwneud llai o elw na busnesau eraill yn gorfod rhoi'r gorau i weithredu. Wrth gwrs, yswirwyr sy'n gyfrifol am bennu lefel y risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd a gosod premiymau yn unol â hynny, ond yn dilyn anogaeth gan Defra, mae'r diwydiant ceffylau a'r diwydiant yswiriant wedi sefydlu gweithgor ar y cyd i helpu i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn gwbl gyfiawn yn ôl lefel y risg, nodi sut y gellir lleihau risgiau, a chanfod ffordd ymlaen sy'n gwneud synnwyr masnachol i'r ddwy ochr. Mae'r grŵp hwn wedi dod i'r casgliad mai gwella'r broses o gadw cofnodion yw'r allwedd o ran atal cynnydd mewn premiymau yswiriant i sefydliadau marchogol. Nid yw'r diwydiant o'r farn bod hyn yn golygu mwy o waith papur o reidrwydd, ac eithrio'r sefydliadau hynny sy'n ddiofal yn hyn o beth ar hyn o bryd. Felly, mae'r grŵp yn gweithio i gynhyrchu a dosbarthu ffurflenni cofnodion ar gyfer marchogion, ceffylau a hyfforddwyr a fydd yn cofnodi'r data hanfodol ac yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar yswirwyr i wrthod hawliadau anghyfiawn.

³⁷ Araith yn University College, Llundain ddydd Iau, 26 Mai 2005.

³⁸ Cyhoeddwyd y Mesur lawndal ar 3 Tachwedd 2005 ac mae gerbron y Senedd ar hyn o bryd. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.parliament.uk

3.27 Yn ogystal ag effaith premiymau cynyddol ar fusnesau o ganlyniad i gyn ymglyfreithiad, rhydd canlyniad achos Mirvahedy broblem ddifrifol o bosibl i fusnesau marchogol a pherchenogion ceffylau preifat o ran atebolrwydd perchenogion yn y dyfodol. Yn ôl Deddf Anifeiliaid 1971 ceidwaid anifeiliaid sy'n achosi niwed sy'n gyfrifol pan fodlonir y pwyntiau canlynol: (a) roedd yr anifail yn debygol o achosi'r difrod a wneir, oni bai ei fod yn cael ei rwystro; a (b) roedd tebygolrwydd y difrod o ganlyniad i nodweddion nas canfyddir mewn anifeiliaid o'r un rhywogaeth fel arfer neu nas canfyddir fel arfer ac eithrio ar adegau penodol neu mewn amgylchiadau penodol; ac (c) roedd y nodweddion hynny'n hysbys i'r ceidwad. Yn y gorffennol, dehonglwyd hyn fel galluogi perchenogion i osgoi bod yn atebol am ddifrod a achoswyd gan eu ceffylau os gallent ddangos nad oeddent wedi ymddwyn yn esgeulus, e.e. pe byddai ffensys a chlwydi caeau yn weddol uchel a diogel. Fodd bynnag, ym marn Arglwyddi'r Gyfraith, roedd perchenogion yn gyfrifol am geffylau yn ymddwyn mewn ffordd a oedd yn arferol i geffylau ar ôl cael braw, er na fuont yn esgeulus. Mae'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wedi dechrau ymgyrch i ddiwygio'r Ddeddf Anifeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r mater penagored hwn o ran atebolrwydd o bosibl, ac mae'r Llywodraeth yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i'w gyflawni.

CAM GWEITHREDU 13: Materion yn ymwneud ag yswiriant

Cam Gweithredu: Mynd i'r afael â thair elfen y mater yn ymwneud ag yswiriant, h.y:

- Parhau i drafod ffyrdd o sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth yn cael eu cydnabod a'u derbyn gyda'r Llywodraeth;
- Sicrhau bod ffurflenni marchogion, ceffylau a hyfforddwyr ar gael i bawb, a llunio rhaglen addysgol i helpu perchenogion sefydliadau marchogaeth wella safon eu cofnodion.
- Ar y cyd â'r Llywodraeth, archwilio ffyrdd o leddfu goblygiadau niweidiol dyfarniad Mirvahedy mewn perthynas â pherchenogion ceffylau.

Cyfrifoldeb:

- Cyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain
- Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain (yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant yswiriant).

Blaenoriaeth: Byrdymor, a thu hwnt.

3.28 Fel y nodwyd eisoes, mae risgiau cynhenid yn gysylltiedig â marchogaeth a bod yng nghwmni ceffylau. Nid yw llawer o'r damweiniau sy'n digwydd yn gysylltiedig â'r risgiau cynhenid hyn ond â risgiau nas nodwyd neu nas rheolwyd. Bydd deall risgiau a rheoli risgiau y gellir eu rheoli yn well yn arwain at lai o ddamweiniau, gan wella delwedd y diwydiant ceffylau fel chwaraeon diogel a chyfrifol, hybu perfformiad economaidd a helpu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag yswiriant. Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain³⁹ wedi cyhoeddi dogfen ar gyfer y Sector Gwirfoddol a'r Sector Cymunedol sy'n edrych

³⁹ www.abi.org.uk Cymdeithas Yswirwyr Prydain – Living with Risk

ar reoli risgiau a chynghor ar yswiriant, y mae llawer ohoni'n ymwneud â'r diwydiant ceffylau.

- 3.29 Mae sawl busnes naill ai nad yw'n cydymffurfio digon – neu yn wir nad yw'n cydymffurfio o gwbl – â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol nid yn unig o'u rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth, ond y manteision sy'n gysylltiedig â chydymffurfio a fydd ar gael iddynt hwy a'u busnesau o ran arbedion cost posibl. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi bod yn rhagweithiol o fewn y sector amaethyddol er mwyn codi lefelau ymwybyddiaeth yn y diwydiant drwy gynnal sioeau teithiol ledled y DU a datblygu meddalwedd rhyngweithiol am ddim i helpu ffermwyr i gynnal asesiadau iechyd a diogelwch cynhwysfawr o'u ffermydd. Ceir rhywfaint o dir cyffredin rhwng y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant ceffylau, a gellid annog yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ddarparu adnodd tebyg ar gyfer y diwydiant ceffylau.

(e) Cynyddu gwerth nwyddau a gwasanaethau marchogol

- 3.30 Mae data digonol ar werth a thwf y diwydiant ceffylau a'i elfennau unigol yn hanfodol ar gyfer penderfyniadau masnachol a pholisi priodol. Nid yw'r ystadegau swyddogol o gymorth, am nad yw'r dosbarthiad safonol at ei gilydd yn nodi nwyddau a gwasanaethau marchogol yn benodol. Er enghraifft, cynhwysir cyfrwyau yn yr un cod â bagiau llaw a bagiau, felly yr unig ffordd o fesur gwerth (cynyddol) allforion cyfrwyaeth yw drwy gael data sensitif yn syth gan gwmnïau unigol.

CAM GWEITHREDU 14: Dosbarthiadau ystadegol

Cam gweithredu: Hwyluso'r gwaith o gasglu ystadegau a fydd yn caniatáu i werth y diwydiant gael ei asesu yn fwy effeithiol, trwy adolygu ac ailddiffinio'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol a'r Codau Galwedigaethol Safonol ar lefel pum digid.

Cyfrifoldeb: I'w drafod gan Gydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain, Lantra a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

- 3.31 Mae twf marchogaeth fel gweithgaredd hamdden wedi cyd-fynd â thwf y diwydiant marchogol sy'n ei gynnal. Cydnabyddir enw da cynhyrchion marchogol a weithgynhyrchir ym Mhrydain Fawr ledled y byd. Er enghraifft mae llawer o farchnadoedd allforio yn edrych arnom fel cartref naturiol cyfrwyau wedi'u saernio'n goeth, lle y mae traddodiad crefftwaith yn dal i ffynnu. Ac eto mae gweithgynhyrchwyr a dylunwyr Prydain hefyd ar flaen y gad o ran arloesi mewn amrywiaeth eang o gynhyrchion yn ymwneud â marchogyddiaeth, gan gynnwys cyflwyno dulliau newydd o weithgynhyrchu cynhyrchion traddodiadol. Mae arloesedd, arddull, dylunio, diogelwch, a gwerth am arian i gyd yn nodweddion y mae prynwyr y cynhyrchion hyn yn disgwyl eu cael. Mae angen hybu'r enw da hwn a manteisio i'r eithaf arno er mwyn datblygu marchnadoedd sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg.

CAM GWEITHREDU 15: Deunydd hyrwyddo

Cam gweithredu: Hyrwyddo'r DU fel ffynhonnell nwyddau a gwasanaethau o safon drwy baratoi papur hyrwyddo a chanllaw digidol (DVD) i ragoriaeth Brydeinig yn y diwydiant marchogol. (Gweler Camau Gweithredu 16 a 18).

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain i arwain ar ran y diwydiant, gyda Masnach a Buddsoddi'r DU.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

ASTUDIAETH ACHOS - Digwyddiadau hyrwyddo masnach tramor

Mae ffeiriau defnyddwyr neu gystadlaethau marchogol tramor yn cynnig un o'r cyfleoedd gorau i farchnata a hyrwyddo arbenigedd a chynhyrchion Prydeinig. Mae Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain wedi mynd â grwpiau o arddangoswyr I Gemau Marchogol y Byd, Equitana (ffair defnyddwyr marchogol fwyaf y byd yn yr Almaen ac Awstralia), cystadleuaeth tri diwrnod Rolex yn Kentucky, UDA, yn ogystal ag i ffeiriau masnach yn yr Almaen a'r Dwyrain Canol. Mae gwybodaeth am gwmnïau Prydeinig wedi cyrraedd cynulleidfya fyd-eang wedi'i thargedu o dros 500,000 o farchogion ac unigolion â'u bryd ar farchogyddiaeth, gan dynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i farchogaeth neu ymweld â digwyddiadau marchogol, prynu ceffylau Prydeinig neu fanteisio ar yr ansawdd a gynigir gan offer marchogol Prydain.

CAM GWEITHREDU 16: Ffeiriau masnach a digwyddiadau hyrwyddo

Cam Gweithredu: Cynyddu cyfranogiad mewn ffeiriau masnach farchogol tramor a chartref a digwyddiadau hyrwyddo teithio, er mwyn tynnu sylw at arbenigedd a chynhyrchion Prydeinig a chyfleoedd twristiaeth ym maes marchogyddiaeth.

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain i arwain ar ran y diwydiant; swyddfeydd Visit Britain a Masnach a Buddsoddi'r DU.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

ASTUDIAETH ACHOS - Prosiect cyfrwyaeth Equitech

Mae Equitech yn brosiect tair blynedd, a sefydlwyd yn 2002, sydd wedi'i deilwra'n benodol i edrych ar gyfleoedd technoleg o fewn y diwydiant gweithgynhyrchu marchogol. Sefydlwyd y prosiect gan y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Peirianeg law yn llaw â chwmnïau lleol, cyrff o wahanol sectorau o fewn y diwydiant megis Cymdeithas Farchogol Walsall a Chymdeithas Masnach Farchogol Prydain ac Advantage West Midlands. Trwy Equitech, bu'n bosibl i gwmnïau sy'n gweithgynhyrchu cyfrwyau ac offer cysylltiedig gael gafael ar gymorth sy'n eu helpu i ymchwilio i feysydd datblygu newydd ac arallgyfeirio iddynt, gan helpu eu busnes i dyfu a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau technolegol. O ganlyniad i'r prosiect cyflwynodd cwmnïau arferion gweithgynhyrchu darbodus, ac edrychwyd ar fanteision gwrth-beirianeg. Ystyriwyd hefyd sut y gellir defnyddio ymchwil i faes dadansoddi symud wrth gynllunio cyfrwyau, a sut y gellir defnyddio technoleg sy'n mesur y

dosbarthiad gwasgedd deinamig rhwng cyfrwy a chefn y ceffyl pan fydd yn cael ei farchogaeth wrth asesu ffit cyfrwy.

- 3.32 Mae angen i'r diwydiant ceffylau allu defnyddio technoleg newydd a chyfleoedd ymchwil a datblygu yn fwy effeithiol er mwyn bod yn fwy cystadleuol yn rhyngwladol. Gellid sicrhau gwell mynediad i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a dulliau cyflenwi trwy ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng y diwydiant a'r rhwydwaith cymorth, cyngor a gwybodaeth fusnes a ddarperir gan Business Link yn Lloegr⁴⁰ a Llygad Busnes yng Nghymru⁴¹.

CAM GWEITHREDU 17: Technolegau newydd a gwaith ymchwil a datblygu

Cam Gweithredu: Annog y defnydd o dechnolegau newydd a thechnolegau sy'n datblygu a gwaith ymchwil a datblygu ym myd busnes, i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

Cyfrifoldeb: Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain gyda chyrff eraill cysylltiedig o fewn y diwydiant.

Blaenoriaeth: Hirdymor

(f) Cynyddu twristiaeth farchogol

- 3.33 Yn yr ymgynghoriad cychwynnol cafwyd sawl cyfeiriad at yr angen i gynyddu gwerth twristiaeth farchogol, ond ychydig awgrymiadau pendant i weithredu ar hynny. Rhan o'r rheswm o bosibl yw'r dryswch ynglŷn â beth yn union yw ystyr "twristiaeth farchogol". I rai mae'n golygu ymwelwyr sy'n dod i'r wlad hon i weld rasys ceffylau, gwyllo prif ddigwyddiadau marchogol neu fynd ar wyliau marchogaeth pecyn. Mae'r cyfle i weld bridiau brodorol yn eu cynefin yn ychwanegu at yr hyn y mae'r dwristiaeth yn ei gynnig. I eraill mae'n golygu gweithgarwch rheolaidd gan lawer o farchogion, yn teithio oddi cartref i farchogaeth eu ceffylau eu hunain ar lwybrau ceffylau neu lwybrau pellter hir. Gall hefyd olygu mynd i ffordd i ganolfan ferlota am deithiau marchogaeth neu ganolfan farchogaeth am gwrs hyfforddiant neu ychydig o ddiwrnodau i ffordd dros y penwythnos. Mae'r pob un o'r gweithgareddau hyn yn agweddau pwysig ar y cynnyrch twristiaeth a gallant fod yn fodd pwysig i ddenu pobl i farchogaeth am y tro cyntaf ac ychwanegu at farchogaeth fel gweithgarwch i'r teulu. Mae Nod 5, sef cynyddu mynediad i farchogaeth oddi ar y ffordd, yn berthnasol iawn i'r opsiwn canol.

- 3.34 Mae llawer o waith yn cael ei wneud eisoes o ran twristiaeth fferm. Mae angen datblygu strwythur tebyg ar gyfer twristiaeth farchogol. Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â mathau eraill o dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Cynllun Menter Gwledig⁴², sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig Lloegr yn cefnogi nifer fawr o weithgareddau twristiaeth, gan gynnwys cyfleusterau gwyliau sy'n seiliedig ar weithgareddau megis canolfannau merlota, ac nid yw'n

⁴⁰ Gweler www.businesslink.gov.uk. Gall Business Link hefyd roi gwybodaeth am dwristiaeth, gwastraff, cynllunio ac arallgyfeirio.

⁴¹ Gweler www.llygadbusnes.org.uk. Mae Llygad Busnes yn gweithredu fel arwyddbyst a gall helpu i roi busnesau mewn cysylltiad â chymorth gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

⁴² www.defra.gov.uk/erdp/default.htm

ofynnol i'r ymgeisydd fod yn ffermwr. Mae'r pwyslais ar weithgareddau sy'n denu twristiaid i'r ardal, yn hytrach nag ysgolion marchogaeth, er enghraifft, sy'n darparu ar gyfer gweithgareddau hamdden i'r boblogaeth leol yn bennaf. Mae'r Cynllun yn dod i ben ar ddiwedd 2006. Mae'r gwaith ar lunio rhaglen olynol i Raglen Datblygu Gwledig Lloegr yn mynd rhagddo ac mae angen i'r diwydiant ceffylau sicrhau ei fod yn ymwneud yn llawn â'r rhaglen olynol o'r cychwyn cyntaf (Gweler Nod 8 am ragor o wybodaeth am brosiectau twristiaeth sy'n ymwneud â merlod brodorol).

ASTUDIAETH ACHOS – Strategaeth ar gyfer Twristiaeth Farchogol yn Ne-ddwyrain Lloegr

Yn 2003 comisiynodd Tourism South East a Rural Ways brosiect i "bennu cwmpas y sector twristiaeth farchogol" drwy ymchwili berthnasol, a drafftio cynllun yn nodi rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu twristiaeth farchogol gynaliadwy y rhanbarth. Y nod cyffredinol oedd cynyddu cyfraniad economaidd y sector, drwy ddatblygu ei botensial twristiaeth tra'n sicrhau cynaliadwyedd unrhyw fentrau twristiaeth farchogol yn y dyfodol. Cyhoeddwyd y strategaeth ar ddiwedd 2004. Nododd flaenoriaethau allweddol, a chynigiodd amcanion ar gyfer y cynllun gweithredu. Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys codi proffil De-ddwyrain Lloegr fel ffocws i dwristiaeth farchogol, gan greu cynnyrch newydd a marchnata cysylltiadau a phecynnau rhwng cynnyrch marchogol a chynnyrch twristiaeth, ac integreiddio mentrau rhwng y ddau sector. Mae'r amcanion yn cynnwys rhoi trefn ar wybodaeth am dwristiaeth farchogol i ymwelwyr, gan ddatblygu gwyliau marchogaeth penodol, pecynnau a digwyddiadau rasio, a'u marchnata i'r prif farchnadoedd targed, a chefnogi datblygiadau pellach drwy ymchwili i'r farchad a chodi proffil twristiaeth farchogol. Gweler Yn 2003 comisiynodd Tourism South East a Rural Ways brosiect i "bennu cwmpas y sector twristiaeth farchogol" drwy ymchwili berthnasol, ac i ddrafftio cynllun yn nodi rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu twristiaeth farchogol gynaliadwy'r rhanbarth. Y nod cyffredinol oedd cynyddu cyfraniad economaidd y sector, drwy ddatblygu ei botensial am dwristiaeth tra'n sicrhau cynaliadwyedd unrhyw fentrau twristiaeth farchogol yn y dyfodol. Cyhoeddwyd y strategaeth ar ddiwedd 2004. Nododd flaenoriaethau allweddol, a chynigiodd amcanion ar gyfer y cynllun gweithredu. Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys codi proffil De-ddwyrain Lloegr fel ffocws i dwristiaeth farchogol, gan greu cynnyrch newydd a marchnata cysylltiadau a phecynnau rhwng cynnyrch marchogol a chynnyrch twristiaeth, ac integreiddio mentrau rhwng y ddau sector. Mae'r amcanion yn cynnwys rhoi trefn ar wybodaeth am dwristiaeth farchogol i ymwelwyr, gan ddatblygu gwyliau marchogaeth penodol, pecynnau a digwyddiadau rasio, a'u marchnata i'r prif farchnadoedd targed, a chefnogi datblygiadau pellach drwy ymchwili i'r farchnad a chodi proffil twristiaeth farchogol. Gweler www.industry.visitsoutheastengland.com

ASTUDIAETH ACHOS – Twristiaeth ceffylau yng Nghymru

Llofnodwyd concordat gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Chymdeithas Ceffylau Prydain ym mis Gorffennaf 2004 i weithio gyda'i gilydd, gan gynnwys hyrwyddo twf mewn twristiaeth ceffylau yng Nghymru. Mae'r concordat yn anelu at hyrwyddo:

- mynediad agored i farchogaeth ceffylau mewn coetir lle bynnag y bo modd;
- cyfleoedd i fusnesau marchogaeth ceffylau a merlota
- cod ymarfer newydd i farchogion sy'n defnyddio coetiroedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn annog marchogaeth diogel a chyfrifol;
- sefydliad cymdeithasau marchogaeth lleol i ddatblygu a rheoli llwybrau a chyfleusterau cysylltiedig;
- treialu cymdeithasau marchogaeth mewn ardaloedd lle mae angen rheoleiddio marchogaeth yng nghoetiroedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- gweithdai blynyddol i helpu pobl i ddeall effaith hamdden ar yr amgylchedd a bod yn ymwybodol ohoni.

ASTUDIAETH ACHOS – Llwybrau Coedwig Dyfnant ac Efyrrwy

Cafwyd y syniad o ddatblygu dwy goedwig gyfagos rhwng y Trallwng a Dolgellau i hyrwyddo twristiaeth ceffylau yn sgîl sgwrs rhwng marchog brwdfrydig a rheolwr ardal Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Arweiniodd hyn at greu cymdeithas o 200 o farchogion brwdfrydig (sy'n cynyddu), sef Cymdeithas Marchogion a Gyrwyr Cerbydau Dyfnant ac Efyrrwy, a gyd-gysylltodd â'r Comisiwn i greu cyfleusterau marchogaeth diogel oddi ar y ffordd ym mynyddoedd anghysbell y Canolbarth.

Yn dilyn cais llwyddiannus am Arian Ewropeaidd Amcan 2, datblygwyd cyfres o brosiectau twristiaeth coedwigaeth i ddenu mwy o ymwelwyr i Bowys. Mae'r coedwigoedd cyfagos ar fin dod yn ganolfan genedlaethol bwysig ar gyfer hamdden farchogol yn yr un modd ag y mae Coed y Brenin gerllaw wedi datblygu'n ganolfan adnabyddus yn genedlaethol i feicwyr mynydd.

Gwnaed cryn dipyn o waith eisoes yng Nghoedwig Dyfnant i ddarparu cyfleusterau diogel oddi ar y ffordd ar gyfer gweithgareddau hamdden a chystadlaethau marchogaeth a gyrru cerbydau. Ymhlith y disgyblaethau sydd wed cael budd o'r cyfleusterau newydd mae marchogaeth dyncwch a'r gamp farchogol newydd, sef Trec Cymdeithas Ceffylau Prydain, a'r goedwig yn cael ei defnyddio ar gyfer penwythnosau llawn hwyl a sesiynau rhagflas i farchogion newydd. Mae'r cyfleusterau yn cynnwys maes parcio gyrru mewn ac allan i flychau ceffylau, corlan lle y gall ceffylau bori'n ddiogel tra bod marchogion yn paratoi cerbydau ar gyfer y daith adref a dau lwybr arwyneb caled a dau lwybr arwyneb meddal yn amrywio o 3 milltir i 18 milltir o hyd. Mae 18 milltir arall o lwybrau arwyneb meddal yn cael eu creu.

Mae Awdurdod Dŵr Hafren Trent wedi datblygu sawl lwybr yng Nghoedwig Efyrrwy sy'n gyfagos, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar y ffordd orau i agor rhai llwybrau anghramwyadwy i gysylltu'r ddwy goedwig.

CAM GWEITHREDU 18: Twristiaeth Farchogol

Cam Gweithredu: Annog ymagwedd gydlynol tuag at hyrwyddo twristiaeth farchogol drwy awdurdodau lleol, cynghorau twristiaeth rhanbarthol a chyrrff cenedlaethol; cyhoeddi cofrestr genedlaethol o wyliau marchogaeth a chyfleoedd twristiaeth farchogol ar y rhyngwrwyd; a sefydlu system raddio ddisgrifiadol genedlaethol ar gyfer twristiaeth farchogol.

Cyfrifoldeb: Cymdeithasau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, gan gynnwys Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain, Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain, Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain, gan weithio gyda darparwyr gwyliau a chyrrff twristiaeth rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

Nod 4: Gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau marchogol

- 4.1 Dangosodd yr ymgynghoriad cychwynnol fod pob rhan o'r diwydiant am godi safonau a gwella sgiliau, a chyfleoedd hyfforddi. Y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd denu a chadw staff, darparu amgylchedd lle mae pobl am ddatblygu gyrfa, nodi lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi, a gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys cyllid.
- 4.2 Roedd yr angen am fwy o gydweithredu rhwng pob sector o'r diwydiant ceffylau i fynd i'r afael â phroblemau a nodi atebion ymarferol hefyd yn amlwg iawn. Bydd gofyn am brosiectau cydweithredol a hyrwyddir ar draws y diwydiant er mwyn cael yr effaith angenrheidiol. Roedd yn amlwg hefyd mai darniog oedd yr ymwybyddiaeth o waith Lantra, sef y Cyngor Sgiliau Sector dros y Sector Amgylcheddol a'r Sector Tir. Mae cyfeiriad strategol Lantra wedi newid yn ddiweddar ac erbyn hyn mae'n canolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr i sicrhau'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar y diwydiant. Mae'n hollbwysig bod y diwydiant ceffylau yn defnyddio hyn ac yn ymgysylltu â Lantra er mwyn sicrhau bod ei ofynion wedi'u bodloni.
- 4.3 Bydd gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau'r rhai sy'n gweithio gyda cheffylau ac sy'n marchogaeth yn helpu i wella delwedd y diwydiant (gan gynnwys iechyd a lles ceffylau) a pherfformiad economaidd. Bydd gweithredu Camau Gweithredu o dan Nodau 1, 2 a 3 i ddwyn y diwydiant ceffylau ynghyd, cynyddu cyfranogiad a hybu busnes yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r diwydiant i ddenu a chadw staff.

(a) Denu a chadw staff

- 4.4 Mae'r diwydiant ceffylau yn wynebu heriau mawr o ran denu a chadw digon o staff. Nid yw gwybodaeth am natur ac amrywiaeth cyfleoedd gyrfa bob amser ar gael yn hawdd i bobl ifanc. Nid yw gyrfa yn y diwydiant ceffylau yn gweddu'n hawdd i ffordd o fyw llawer o bobl ifanc heddiw. Mae angen strwythur gyrfa clir, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi a datblygu ac amodau gwaith gwell er mwyn helpu i gadw staff.
- 4.5 Mae cymwysterau yn hollbwysig mewn gyrfa fodern, er mewn sawl rhan o'r diwydiant ceffylau, nid oes dim yn well na phrofiad ymarferol. Mae gan rai rhannau o'r diwydiant ceffylau, ond nid pob un, strwythur gyrfa penodol. Mae gyrfaoedd yn y diwydiant yn cael eu marchnata'n wael. Mae angen i gynghorwyr gyrfaoedd, rhieni a chyrff eraill megis Connexions ddeall y cyfleoedd sydd ar gael a manteision gyrfa yn y diwydiant.

CAM GWEITHREDU 19: Strategaeth Recriwtio a Chadw

Cam Gweithredu: Llunio a gweithredu strategaeth ar gyfer denu a chadw staff ym mhob sector o'r diwydiant, gan gynnwys:

- ymgyrch farchnata i hyrwyddo gyrfa gyda cheffylau;
- gweithio'n agosach gyda phob cynghorydd gyrfaedd, gan gynnwys Connexions;
- strwythur gyrfa cliriach;
- cofrestr swyddi ganolog i hwyluso dechrau yn y diwydiant a chadw pobl yn y diwydiant.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, swyddogaeth gyfathrebu ganolog i'r diwydiant (Cam Gweithredu 3) a Lantra.

Blaenoriaeth: Dechrau yn y byrdymor, gweithredu yn y tymor canolog.

- 4.6 Mae'r ffaith mai anaml y caiff hyfforddiant marchogol ei gynnwys mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol yn lleihau'r mynediad at farchogaeth hamdden a gyrfaedd marchogol posibl. Mae'r penderfyniad i gyflwyno prentisiaethau i bobl ifanc dros 14 oed, gan gynnwys dau ddiwrnod yr wythnos yn y gweithle yn ddiweddar, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm 14-19 yn Lloegr a datblygu dysgu yn seiliedig ar yr amgylchedd a'r tir, yn rhoi cyfleoedd i'r diwydiant ceffylau. Mae nifer o ysgolion eisoes yn defnyddio ysgolion marchogaeth ac yn derbyn disgyblion ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol yn rheolaidd. Mae cyllid yn broblem fawr ac mae hynny yn atal y cynlluniau hyn rhag ehangu. Mae'r rhaglen Addysg Rasio (gweler Nod 2) yn fodel i sectorau eraill y diwydiant.

CAM GWEITHREDU 20: Hyfforddiant galwedigaethol

Cam Gweithredu: Cyflwyno strategaeth gydgyssylltiedig ar gyfer y diwydiant i weithio gydag ysgolion er mwyn rhoi cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant galwedigaethol ar draws y diwydiant ceffylau.

Cyfrifoldeb: Sefydliadau yn y diwydiant mewn partneriaeth â Lantra.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

(b) Darparu amgylchedd lle y mae pobl am ddatblygu gyrfa

- 4.7 Mae'r diwydiant yn gofyn am amrywiaeth fawr o sgiliau, o berchenogion busnes i filfeddygon a gweision stabl. Credir bod angen i berchenogion busnesau marchogol gael hyfforddiant mewn sgiliau rheoli staff, ac iechyd a diogelwch, yn ogystal â hyfforddiant mewn sgiliau busnes a chyfle i gael cyngor busnes (a gwmpesir o dan Nod 3). Nid oes cysondeb o ran yr hyfforddiant a'r cyllid sydd ar gael o ran ffermwyr sy'n arallgyfeirio ac eraill sydd am ymuno â'r diwydiant neu sydd eisoes yn gweithio yno. Dylai'r agweddau lles ar reoli ceffylau hefyd fod yn nodwedd ar bob rhaglen hyfforddi.

CAM GWEITHREDU 21: Hyfforddiant rheoli staff

Cam Gweithredu: Annog perchenogion busnesau marchogol i wella eu sgiliau eu hunain ym maes rheoli adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a rheoli adnoddau ffisegol.

Cyfrifoldeb: Sefydliadau yn y diwydiant gyda chymorth Lantra.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

- 4.8 Ym myd rasio, mae'n ofynnol i bob gwas stabl gofrestru â Chlwb y Jocis, ac maent yn aelodau o Gymdeithas Gweision Stabl yn awtomatig. Mae'r Gymdeithas, sydd wrthi'n moderneiddio, yn cynrychioli buddiannau'r gweithlu mewn trafodaethau drwy'r sector rasio i gyd, yn gweithredu ar ran y staff mewn negodiadau cenedlaethol ar delerau ac amodau cyflogaeth, ac yn rhoi cyngor a gwasanaeth cynrychioli mewn anghydfodau unigol. Fodd bynnag, eithriad yw hynny. Ni chaiff buddiannau pobl sy'n gweithio yn y diwydiant ceffylau eu cynrychioli fel arfer gan undeb neu gymdeithas staff. Mae hyn yn gallu gwneud y diwydiant yn lle llai dymunol i weithio ynddo, ac yn atal cyflogwyr rhag cael y cyfle i siarad â chorff sy'n cynrychioli buddiannau cyflogaion. At hynny, ym marn y Llywodraeth mae gweithleoedd lle mae cyflogaion yn cael gwybodaeth ac yn cymryd rhan yn gweithredu'n fwy effeithiol a llwyddiannus.

(c) Nodi lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi

- 4.9 Yr allwedd i lwyddiant i unrhyw fusnes yw sgiliau ei staff. Ychydig iawn o ddata cywir sydd ar gael ar nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant ac ar eu sgiliau nac ar ofynion sgiliau yn y dyfodol, a heb ddata o'r fath mae'n anodd cael atebion priodol ac effeithiol. Mae gwaith cychwynnol gan Lantra a'r diwydiant fel rhan o'r Cytundeb Sgiliau Sector wedi dechrau ymdrin â hyn, er bod angen rhagor o waith o hyd i gwblhau'r dadansoddiad hwn o anghenion y gweithlu. Mae mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi parhaus yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r nodau strategol eraill.
- 4.10 O fis Ionawr i fis Mawrth 2006, bydd Lantra yn treialu Pasport Sgiliau i weision stabl. Mae hwn yn gyfle i weision stabl gadw cofnod o'u cymwyseddau a'u mesur yn erbyn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Nid cymhwyster ydyw, ond cydnabyddiaeth o'r hyn y gall pobl ei wneud. Gellir mapio'r cymwysterau sydd gan bobl eisoes yn erbyn y Pasport. Mae llawer o ymchwil i'w gwneud o hyd o fewn y diwydiant i fesur dilystrwydd y prosiect ac mae llawer o gwestiynau i'w hateb, yn enwedig o ran sicrhau ansawdd a hygredded. Bydd Lantra yn gwneud yr ymchwil hon ar ddiwedd 2005 a dechrau 2006.

CAM GWEITHREDU 22: Lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi

Cam Gweithredu: Gwneud ymchwil i ganfod lefelau sgiliau ac anghenion hyfforddi gyda'r nod o bennu gofynion sgiliau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cyfrifoldeb: Sefydliadau yn y diwydiant mewn partneriaeth â Lantra.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

(ch) Gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y coleg ac yn y gweithle

- 4.11 Erbyn hyn mae mwy o bobl ifanc yn dewis dilyn cyrsiau coleg i gael sgiliau a gwybodaeth na hyfforddi mewn swydd. Felly mae llawer o ysgolion marchogaeth a darparwyr hyfforddiant preifat yn gorfod cystadlu â cholegau a sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu hyfforddiant.
- 4.12 Dylid rhoi'r un gwerth ar fathau academiaidd a galwedigaethol o ddysgu. Mae llawer o ddiwydiannau eraill yn llwyddo i gyfuno hyfforddiant yn y coleg ac yn y gweithle, er budd pawb dan sylw. Mae rhai wedi mynegi pryderon mawr ynglŷn ag addasrwydd cynnwys cwricwlwm a chymfandrefnau hyfforddi cyrsiau academiaidd a Chymwysterau Galwedigaethau Cenedlaethol o ran cyflogaeth. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd mae galw am bwyslais ar hyfforddiant ymarferol ac 'mewn swydd'. Byddai mwy o gydweithredu rhwng colegau a sefydliadau marchogol yn helpu i ddarparu mwy o brofiad gwaith perthnasol, a sicrhau bod cynnwys cyrsiau yn gwbl berthnasol o ran cyflogadwydd yn y dyfodol.

ASTUDIAETH ACHOS – Marchogaeth a chymwysterau i blant

Mae cynllun peilot a ddechreuwyd gan Gymdeithas Ceffylau Prydain yn Ysgol Marchogaeth Lee Valley yng Ngogledd Llundain yn cynnig cyfle i blant farchogaeth ac ennill NVQ Lefel 1 a Cham 1 Cymdeithas Ceffylau Prydain, gan esgor ar y posibilrwydd o swydd yn y diwydiant ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae'r cynllun hefyd wedi dangos sut y gall rhyngweithio â cheffylau fod o fudd mawr i'r plant hynny ag anawsterau dysgu, gan ei fod wedi bod yn ysgogydd mawr i'r plant nid yn unig ddysgu marchogaeth ond hefyd i symud ymlaen â'u haddysg academiaidd a chymdeithasol. Dywed Cyfarwyddwr Safonau Cymdeithas Ceffylau Prydain a gafodd y syniad am y cynllun, "Mae'n gyflwyniad i bobl weithio gyda cheffylau ac yn rhoi gyrfa neu hobi sy'n gallu parhau am oes. Ond y cyfnod peilot yn unig yw hwn. Er mwyn llwyddo mae'n rhaid iddo fod yn agored i bawb".

ASTUDIAETH ACHOS – Ysgoloriaethau Ysgolion Rasio

O dan Reolau Rasio, os ydych rhwng 16 a 18 oed ac am weithio mewn iard hyfforddwr mae'n ofynnol i chi gael hyfforddiant naill ai yn Ysgol Rasio Prydain neu yng Ngholeg Rasio Gogledd Lloegr. Bydd myfyrwyr yn treulio naw wythnos fel arfer yn un o'r ysgolion. Yn ystod y cyfnod hwn dylent ennill rhan o'r cymhwyster NVQ2. Mae myfyrwyr yn cael swydd warantedig ar ddiwedd y cwrs. Yna caiff rhan arall y cymhwyster ei chwblhau a'i hasesu yn eu swydd newydd drwy dîm o aseswyr crwydrol. Maent yn ymweld yn fuan ar ôl i'r myfyriwr ddechrau, er mwyn sicrhau ei fod wedi ymgynffwrdd, ac yno bob deufis nes ei fod wedi cwblhau'r cymhwyster. Mae hyn fel arfer yn cymryd llai na blwyddyn.

- 4.13 Dylai'r hyfforddiant sydd ar gael i'r rhai yn y diwydiant ceffylau nid yn unig ddiwallu anghenion wrth ymuno â'r diwydiant ond hefyd ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus (gweler Cam Gweithredu 10). Dylid pwysleisio manteision hyfforddiant parhaus i gyflogwyr a chyflogaion a'i annog. Mae hyfforddiant ar gael i farchogion hamdden a pherchenogion ceffylau i wella eu sgiliau marchogaeth, lles a gofal ceffylau ac, unwaith eto, mae angen annog hyn.

CAM GWEITHREDU 23: Arferion da hyfforddiant ymarferol

Cam Gweithredu: Darparwyr hyfforddiant yn y diwydiant a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyfathrebu'n well i ledaenu a rhannu arferion da o ran yr elfennau hyfforddiant ymarferol o raglenni addysg drwy wneud y defnydd gorau o adnoddau dynol a ffisegol.

Cyfrifoldeb: Cydgysylltu rhwng colegau a'r diwydiant a grwpiau cynghorol.

Blaenoriaeth: Byrdymor

- 4.14 Mae angen i'r seilwaith hyfforddiant fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy, gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Mae llawer o gyflogwyr eisoes yn chwarae eu rhan drwy fuddsoddi a chynorthwyo mewn hyfforddiant a datblygiad ond maent yn cael anhawster i gael gafael ar gyllid. Mae'r diwydiant ceffylau yn cynnwys llawer o sefydliadau bach sy'n ei gwneud yn anodd i gael gafael ar gyllid.

CAM GWEITHREDU 24: Polisi cyllido a chyfyngiadau oedran

Cam Gweithredu: Gweithio gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau o ran y polisi cyfredol o gyllido darparwyr mawr yn bennaf, yr ystod o gymwysterau a dderbynnir, a'r rhwystrau y mae'r cyfyngiadau presennol o ran oedran yn eu creu.

Cyfrifoldeb: Sefydliadau yn y diwydiant mewn partneriaeth â Lantra.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

- 4.15 Dylai'r llwybrau hyfforddiant a gyrfaedd sydd ar gael fod wedi'u cydlynu'n well ar draws y diwydiant er mwyn galluogi cyflogwyr i symud yn haws rhwng y gwahanol ddisgyblaethau ceffylau a rhannau o'r diwydiant. Mae'r systemau hyfforddi cyfredol yn ddarniog ac yn amrywiol ac weithiau maent yn peri dryswch.

CAM GWEITHREDU 25: Cydlynu hyfforddiant a sgiliau

Cam Gweithredu: Sefydliadau yn y diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i gydlynu hyfforddiant yn well a deall y priod sgiliau a chymwysterau yn well.

Cyfrifoldeb: Sefydliadau yn y diwydiant.

Blaenoriaeth: Tymor canolig

Nod 5: Cynyddu mynediad i farchogaeth a gweithgarwch gyrru cerbydau oddi ar y ffordd

- 5.1 Yn yr ymgynghoriad cyn paratoi'r Strategaeth hon cadarnhawyd awydd cadarn a chyffredinol i wella mynediad i farchogaeth a gyrru cerbydau oddi ar y ffordd, ac yn enwedig yr angen am ragor o lwybrau marchogaeth a gyrru mwy diogel i'r rhai sydd eisoes yn marchogaeth, darpar farchogion a gyrrwyr cerbydau, a thwristiaid marchogol. Teimlai llawer o ymatebwyr nad oedd y Llywodraeth nac awdurdodau lleol wedi rhoi digon o ystyriaeth i anghenion mynediad perchenogion ceffylau, ac yn benodol eu bod wedi methu â:
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd mynediad diogel a digonol ar gyfer marchogaeth;
 - Rhoi digon o arian ac adnoddau eraill i gyflawni hynny;
 - Gweithio'n effeithiol tuag at rwydwaith gwirioneddol o hawliau tramwy i farchogion.
- 5.2 Credai llawer hefyd, er gwaethaf y gwelliannau a fydd yn digwydd o bosibl o dan y mentrau presennol, fod cyfleoedd ar gyfer marchogaeth y tu allan i gyfyngiadau marchogaeth dan do ac ansawdd marchogaeth o'r fath yn debygol o barhau i fynd yn llai yn y rhan fwyaf o ardaloedd, a bod angen gweithredu rhagweithiol ac unedig ar fyrder. Y farn gyffredinol yw nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol nac arferion ar lawr gwlad yn llwyddo i roi digon o lwybrau addas oddi ar y ffordd, ac nad ydynt yn rhoi gwerth gorau am yr adnoddau, rhy brin, sydd ar gael. Mae'n rhaid ystyried effaith amgylcheddol rhagor o fynediad a gweithgareddau hamdden marchogol eraill, er mwyn sicrhau y cânt eu cynllunio a'u rheoli mewn ffordd sy'n parchu ac yn diogelu'r amgylchedd (gweler Nod 6).
- 5.3 Mae'r Llywodraeth a Chyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain yn cytuno y dylai'r amcanion strategol fod fel a ganlyn:
- sicrhau rhwydwaith cydgysylltiedig, wedi'i gynnal yn dda o hawliau tramwy cyhoeddus i farchogwyr;
 - ychwanegu at y ddarpariaeth o lwybrau marchogol eraill oddi ar y ffordd ac ardaloedd gyda mynediad agored i farchogwyr;
 - parhau ag addysg diogelwch i fodurwyr, marchogion a gyrrwyr cerbydau;
 - sicrhau bod marchogaeth a gyrru cerbydau mewn ardaloedd trefol a maestrefol yn cael eu hyrwyddo a'u gwella yn ogystal â marchogaeth a gyrru cerbydau mewn ardaloedd gwledig.
- 5.4 Gellir gweithredu ar yr amcanion hyn drwy Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a gwaith Fforymau Mynediad Lleol (gweler isod), sy'n rhoi cyfle i grwpiau buddiannau marchogol amlinellu eu hanghenion a'u gofynion o ran adnoddau ochr yn ochr â gofynion defnyddwyr eraill y ffordd a hawliau tramwy.

(a) Sicrhau rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cydgysylltiedig wedi'i gynnal yn dda

5.5 Datgelodd yr ymgynghoriad nifer fawr o bryderon am y trefniadau presennol ar gyfer nodi, sicrhau, cyflawni a diogelu mynediad statudol, gan gynnwys:

- hawliau tramwy sydd wedi'u dosbarthu'n anghywir neu nad ydynt wedi'u cydnabod o gwbl ar y map diffiniol;
- hawliau tramwy y mae ffyrdd newydd yn torri ar eu traws;
- mae marchogion ar hyn o bryd yn gorfod neilltuo cryn nifer o adnoddau i ddiogelu'r cyfleusterau hynny sydd ganddynt eisoes;
- mae angen ymchwilio i'r hawl mynediad at draethau i geffylau a'i hyrwyddo, yn unol â'r ymgais i estyn Mynediad Agored at yr arfordir i gerddwyr;
- mae'r Asiantaeth Priffyrdd wedi arafu'r gwaith o weithredu camau a nodwyd yn ei Rhaglen Gwella Croesfannau i Ddefnyddwyr Diamddiffyn;
- mae ffyrdd yn mynd yn fwyfwy peryglus i'w defnyddio oherwydd:
 - Cyflymder a maint y traffig;
 - Ymddygiad gwael gan yrwyr;
 - Rhwystrau ar ymylon ffyrdd;
 - Methiant i ddarparu croesfannau addas neu le i geffylau;
 - Arwynebau llithrig (yn enwedig asffalt mastig cerrig).
- mae awdurdodau lleol yn amharod i ddefnyddio eu pwerau i greu hawliau tramwy, oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chostau digolledu i'w talu;
- mae gweithdrefnau yn cymryd amser (hyd at 15 mlynedd) ac yn gostus;
- gan nad yw'r marchogwyr wedi cael hawliau sy'n cyfateb i'r hawl a roddwyd, o dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968, i feicwyr fynd ar gefn beic ar lwybrau ceffylau, ni chaniateir i geffylau ddefnyddio llwybrau beicio, neu lle y caniateir rhannu mynediad nid yw'r llwybrau yn hwylus i geffylau oherwydd y defnydd o ddefnyddiau arwyneb amhriodol.

5.6 Mae camau eisoes yn cael eu cymryd i leddfu rhai o'r pryderon hyn, drwy:

- Prosiect Darganfod Ffyrdd Coll yr Asiantaeth Cefn Gwlad, sy'n mynd i'r afael â phroblem hawliau coll a dylai helpu i ddatrys problemau llwybrau toredig. Bwriedir cwblhau'r ymchwil ymhen tua 10 mlynedd, ac os bydd y ceisiadau a wneir bryd hynny yn llwyddiannus, dylai arwain at lawer mwy o lwybrau ceffylau yn Lloegr;
- Mae'r Asiantaeth Priffyrdd yn paratoi canllawiau ar wneud darpariaeth amgen pan fydd ffyrdd newydd yn effeithio ar lwybrau marchogol sy'n bodoli eisoes;
- mae'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol, sy'n gyfrifol am hawliau tramwy, baratoi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy erbyn 2007, yn cynnwys eu Fforymau Mynediad Lleol;
- Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chymdeithas y Syrfewyr Sir yn paratoi cod ymarfer ar y cyd ar arwynebau ffyrdd;
- Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cynnwys mesurau ar gyfer marchogion yn y strategaeth genedlaethol diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r camau gweithredu hyn yn rhoi fframwaith da ar gyfer gwella'n sylweddol fynediad marchogol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer marchogwyr a gyrwyr yn cyfateb i'r hyn a roddwyd i gerddwyr a beicwyr o ran hawliau mynediad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am dipyn o gyfraniad gan y diwydiant ceffylau yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus.

Arweiniad

- 5.7 Cytunir yn gyffredinol fod angen strwythur cydgysylltiedig o sefydliadau mynediad yn y diwydiant ceffylau er mwyn arwain yr ymgyrch i gael mwy o fynediad, amddiffyn mynediad sydd ar gael eisoes, a chynghori pawb â diddordeb mewn hawliau cyhoeddus i farchogwyr. Mae lluo o wirfoddolwyr yn treulio oriau lawer yn ceisio amddiffyn, gwella ac ehangu llwybrau ar gyfer marchogaeth a gyrru. Mae llawer o frwdfrydedd y gellir ei harneisio, a byddai nodi strwythur cyfundrefnol yn helpu i roi arweiniad a chyfeiriad yn hyn o beth. Mae Cymdeithas y Cerddwyr wedi cyflawni llawer ar ran cerddwyr dros y blynyddoedd diwethaf a'r teimlad cyffredinol yw ei bod yn esiampl dda o'r math o strwythur a fyddai o fudd i'r diwydiant ceffylau. At hynny, mae Sustrans⁴³ wedi gwneud cryn gynnydd ar ran beicwyr mewn cyfnod byr iawn, a gallai'r sefydliad hwnnw fod yn esiampl dda o bosibl o ran cyflawni'r nod o wella mynediad i farchogwyr a gyrwyr. Dylai cyrff mynediad arwain y diwydiant nid yn unig ddysgu gan sefydliadau eraill ond gweithio'n agos gyda hwy i wella'r rhwydwaith hawliau yn ei gyfanrwydd a datblygu perthynas sy'n fuddiol i'r naill a'r llall.

ASTUDIAETH ACHOS – Sustrans: Yr Elusen er Trafnidiaeth Gynaliadwy

Mae Sustrans yn gweithio ar brosiectau ymarferol i annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau traffig moduron a'i effeithiau andwyol. Mae ei phrosiectau yn cynnwys:

- Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol: cyfres o lwybrau beicio a cherdded ag arwyddion sy'n ymestyn dros 10,000 o filltiroedd gan gysylltu cymunedau ag ysgolion, gorsafoedd, a chanol dinasoedd, yn ogystal â chefn gwlad.
- Active Travel: hyrwyddo beicio a cherdded fel dulliau effeithiol o wella iechyd, mynd i'r afael â materion megis clefyd y galon a gordewdra, ynghyd â materion hygyrchedd ac allgáu cymdeithasol.
- Liveable Neighbourhoods: rhoi mwy o statws i gerddwyr o'u cymharu â cheir nag sydd ganddynt ar hyn o bryd drwy droi strydoedd yn fannau cymdeithasol lle y gall pobl fwynhau eu hamgylchedd.
- Llwybrau Diogel i Ysgolion: cyfuno mesurau ymarferol ac addysgol i annog plant i gerdded neu feicio i'r ysgol, gan hybu iechyd a ffitrwydd.
- Gwaith Ymchwil a Monitro: gwaith arbenigol gyda'r nod o ennyn cefnogaeth i Sustrans drwy ddangos manteision beicio a cherdded.
- Rhaglen Gwirfoddoli: rhaglen Ceidwaid Gwirfoddol, sy'n galluogi gwirfoddolwyr i wneud gwahaniaeth i'w cymunedau, gan ofalu am lwybrau beicio a cherdded lleol a mwynhau bod yn yr awyr agored.

⁴³ www.sustrans.org.uk

- 5.8 Mae llawer yn teimlo bod Cymdeithas Ceffylau Prydain yn sefydliad arwain amlwg oherwydd ei staff proffesiynol, ei rhwydwaith rhanbarthol a sirol o wirfoddolwyr, ei safle fel ymgynghorai statudol, a'i chysylltiadau datblygedig â'r Llywodraeth ac amrywiaeth mawr o gyrff cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw pawb yn cytuno, ac mae'r Gymdeithas ei hun yn cydnabod y byddai angen iddi weithio'n agos gyda sefydliadau ag iddynt yr un amcanion, y mae llawer ohonynt yn meddu ar gryn brofiad ac arbenigedd. Er bod y Gymdeithas yn cynyddu'r adnoddau a neilltuir ar gyfer Mynediad a Hawliau Tramwy - ac wedi penodi Cyfarwyddwr Mynediad, Diogelwch a Lles llawn amser yn ddiweddar - byddai unrhyw wariant ychwanegol sylweddol ar ran sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn yn gofyn am arian referniw ac ymrwymiad newydd gan bawb er mwyn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd nod cyffredin. Nid yw'n amlwg o ble y gallai'r arian ychwanegol hwn ddod o dan y strwythurau presennol, ond rhaid mai'r dasg gyntaf i strwythur cydgysylltiedig o gyrff mynediad yw sicrhau digon o arian i fwrw ymlaen â'r gwaith.

CAM GWEITHREDU 26: Cael mwy o gydweithredu ymhlith y sefydliadau mynediad presennol.

Cam Gweithredu: Datblygu strwythur cytûn o fewn y diwydiant er mwyn cydlynu grwpiau buddiannau mynediad, cael mwy o gydweithredu ymhlith cyrff mynediad a sicrhau y rhoddir trefn ar wybodaeth a sgiliau er mwyn manteisio arnynt i'r eithaf.

Cyfrifoldeb: Y cyrff mynediad presennol yn y diwydiant sy'n gweithio yn y maes hwn, gan gynnwys Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Llwybrau Ceffylau, Ymddiriedolaethau Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau yn ogystal â Chymdeithas Ceffylau Prydain.

CAM GWEITHREDU 27: Ymgysylltu â chyrff arwain mewn meysydd eraill

Cam Gweithredu: Mae'n rhaid i'r diwydiant ceffylau ymgysylltu â chyrff arwain mewn meysydd eraill megis Cymdeithas y Cerddwyr a Sustrans, er mwyn dysgu o'u llwyddiannau a nodi achosion cyffredin i wella mynediad i farchogwyr a gyrwyr.

Cyfrifoldeb: Strwythur o gyrff mynediad wedi'i nodi.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

Gweithredu Lleol

5.9 Bydd angen i ymgyrchoedd y cyrff arwain hyn wedi'u cydlynu ar lefel genedlaethol gefnogi ac ategu ymdrechion yn rhanbarthol ac yn lleol drwy rwydweithiau ceffylau perthnasol (gweler Cam Gweithredu 5), a fyddai'n gallu goruchwyllo gwaith ar fynediad yn eu hardaloedd eu hunain. Byddent hefyd yn gallu helpu'r rhwydweithiau ceffylau ac eraill i gyfrannu'n effeithiol i'r holl fecanweithiau newydd a gyflwynwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i geisio lleddfu pryderon mwy cyffredinol ynglŷn â mynediad cyhoeddus, megis Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, Fforymau Mynediad Lleol a phrosiect Darganfod Ffyrdd Coll.

5.10 Mae 29 o Fforymau Mynediad Lleol ar hyn o bryd yng Nghymru, sydd wedi'u sefydlu o dan adran 94 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a 80 yn Lloegr. Mae aelodau fforymau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr a pherchenogion tir, ac yn rhoi cyngor annibynnol i'r awdurdodau sy'n eu penodi ac eraill ar y canlynol:-

“gwella mynediad cyhoeddus at dir yn eu hardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal”.

Nodwyd mewn astudiaeth ddiweddar gan Brifysgol Swydd Gaerloyw fod y fforymau yn amrywio gryn dipyn o ran gweithgarwch a ffocws. Mae Defra a'r Asiantaeth Cefn Gwlad wrthi'n ystyried sut y gellir cefnogi a datblygu gwaith y fforymau hyn fel y gallant weithredu mor effeithiol â'r fforymau gorau.

5.11 Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol y tu allan i Ganol Llundain ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy erbyn 2007. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r rhain ddarparu cyfleusterau gwell i farchogwyr a defnyddwyr eraill nad ydynt wedi cael cystal gwasanaeth yn y gorffennol. Mae'n rhaid i awdurdodau ymgynghori â Fforymau Mynediad Lleol, a gall hyn roi cyfle i berchenogion a defnyddwyr ceffylau gynnig gwelliannau ochr yn ochr â'r gwelliannau a geisir gan gerddwyr, beicwyr a grwpiau anabled. Ymgorfforir Cynlluniau Gwella mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, a fydd yn llywio'r ffordd y caiff adnoddau eu dyrannu. Felly maent yn fodd i ddylanwadu ar gyllid cyhoeddus sylweddol, er bod rhai wedi mynegi pryderon ynglŷn â chanran y cyllid a gaiff ei gwario o bosibl ar weithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy o'u cymharu â blaenoriaethau eraill Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol. Eto i gyd drwy gymryd rhan ym mhroses y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gall y diwydiant ceffylau amlygu'r diffygion a geir mewn llwybrau marchogol sy'n bodoli eisoes a gall helpu awdurdodau i gyrraedd eu nodau cymdeithasol, economaidd, iechyd ac amgylcheddol.

ASTUDIAETH ACHOS – Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn Hampshire

Mae gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad raglen arddangos i lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy enghreifftiol. Yn Hampshire, mae gwaith ymchwil mewn cysylltiad â'r cynllun enghreifftiol wedi ystyried anghenion marchogwyr a gyrwyr cerbydau. Nododd i ba raddau y maent yn defnyddio hawliau tramwy a llwybrau eraill, y rhwystrau i ddefnydd cynyddol, a'r materion allweddol o ran mynediad i farchogion.

CAM GWEITHREDU 28: Hawliau tramwy lleol i farchogion a mynediad cyhoeddus

Cam Gweithredu: Awdurdodau Lleol yn ystyried anghenion y diwydiant ceffylau ac yn hysbysebu ac yn hyrwyddo mentrau llwyddiannus. Y Diwydiant Ceffylau yn cyfrannu'n fwy effeithiol i hawliau tramwy lleol a phrosesau cynllunio a'r Cynlluniau Trafnidaeth Lleol dilynol.

Cyfrifoldeb: Strwythur ceffylau rhanbarthol, rhwydweithiau ceffylau lleol, cyrff mynediad ac Awdurdodau Lleol.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

Cydgysylltu

5.12 Yn gyffredinol, credir ei bod yn hanfodol creu rhwydwaith gwirioneddol o lwybrau sefydledig, cydnabyddedig, wedi'u hariannu'n gyhoeddus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol er mwyn i farchogaeth ffynnu fel gweithgaredd hamdden a sector busnes yn y dyfodol. Bydd angen i gyrff mynediad weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol, er mwyn dadansoddi a gwerthuso pob problem o ran mynediad, nodi atebion posibl a'u harchwilio gydag awdurdodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd rhai cynigion a gyflwynwyd drwy'r broses ymgynghori yn cynnwys:

- deddfu i bob llwybr cyhoeddus fod ar gael i ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio cerbydau peiriannol fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn ogystal â thrawsnewid y rhwydwaith marchogol a beicio, byddai hyn yn dileu'r angen am waith ymchwil ac ymchwiliadau cyhoeddus costus i statws llwybrau, gan ei gwneud yn bosibl i adnoddau ganolbwyntio ar welliannau ffisegol lle mae eu hangen fwyaf;
- dysgu gan Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003;
- dileu'r pŵer presennol i ddiddymu hawliau llwybrau ceffylau ar sail tystiolaeth hanesyddol yn gynt, er mwyn lleihau ar y gwaith a wneir a'r arian a werir i ddiogelu'r hawliau tramwy presennol i farchogwyr;
- defnyddio'r mynediad statudol presennol i farchogwyr ar gyfer marchogaeth mewn Parciau Brenhinol, manau agored cyhoeddus a llawer o dir comin, sydd wedi bod yn darparu cyfleusterau gwych, mewn ambell achos, ers canrifoedd, fel enghraifft o wella mynediad i barciau gwledig a thir arall a ddelir gan gyrff cyhoeddus.

CAM GWEITHREDU 29: Cynllun Cydgysylltiedig ar gyfer gwella Mynediad Statudol i Farchogwyr

Cam Gweithredu: Paratoi adroddiad diffiniol yn amlinellu'r darlun gwirioneddol o fynediad i farchogwyr yng Nghymru a Lloegr, a chyflwyno cynllun cydgysylltiedig ar gyfer amddiffyn yr hawliau cyfredol a gwella arnynt lle y bo modd.

Cyfrifoldeb: Cyrff mynediad, gyda chymorth rhwydweithiau lleol a rhanbarthol.

Blaenoriaeth: Tymor canolig

(b) Cynyddu'r ddarpariaeth o ran llwybrau marchogaeth eraill oddi ar y ffordd ac ardaloedd â mynediad agored i farchogion

5.13 Fel mynediad statudol, mae gwella darpariaeth anstatudol ar gyfer marchogion a gyrwyr yn creu cryn dipyn o ddadlau a phryderon. Ar y naill law, mae pobl o'r farn mai'r unig ateb cynaliadwy a theg gwirioneddol yw sicrhau bod pob llwybr yn statudol. Ar y llaw arall, mae llawer o bobl eraill o'r farn, yn ychwanegol at rwydwaith cyhoeddus helaeth a gaiff ei gynnal a'i gadw yn dda, bod lle i ffermwyr a pherchenogion tir cyhoeddus a phreifat eraill roi mynediad gwirfoddol i'w tir at ddibenion marchogaeth a gyrru, p'un a yw'n barhaol ai peidio, a ph'un a godir tâl am yr hawl mynediad ai peidio. Bydd angen i gyrff mynediad gydbwyso'r safbwyntiau croes hyn, ac yn ogystal ag archwilio'r mater sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, canfod ffyrdd o ehangu, lle y bo'n briodol, mynediad anstatudol er budd y marchogion a'r gyrwyr hynny sy'n dymuno eu defnyddio.

Sefydliadau Cyhoeddus a Sefydliadau Preifat

5.14 Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth goncordat â Chymdeithas Ceffylau Prydain ar fynediad i farchogion i goetiroedd. Mae'n caniatáu mynediad rhydd i farchogion, ac eithrio lle mae angen rheoli niferoedd. Mewn rhai ardaloedd a ddefnyddir yn helaeth mae'r Comisiwn yn codi tâl i ariannu gweithgarwch rheoli sydd ei angen. Hefyd, ar adegau, mae'r Comisiwn yn rhoi mynediad caniatool er mwyn cysylltu llwybrau ceffylau a llwybrau caniatool sydd ar dir y mae eraill yn berchen arno, ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer busnesau marchogaeth a merlota. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cyflwyno ei ystâd rydd-ddaliad ar gyfer mynediad agored ar droed o dan Adran 16 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae sawl marchogwr o'r farn y dylid ehangu hyn i hawl mynediad i farchogion, o ystyried y peryglon penodol a wynebant ar y ffyrdd a diffyg rhwydwaith digonol oddi ar y ffordd iddynt ei ddefnyddio. Byddai hyn yn diogelu'r mynediad rhydd pwysig a roddir i farchogion ar dir y Comisiwn Coedwigaeth am byth mewn rhai rhannau o'r wlad, pe byddai'r tir hwnnw'n cael ei werthu.

5.15 Dylid croesawu agwedd gadarnhaol y Comisiwn Coedwigaeth tuag at farchogion, ond dylai'r strwythur mynediad arwain newydd ganfod ffyrdd o wella a sicrhau mwy o fynediad i dir y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn berchen arno. Dylai'r diwydiant ceffylau hefyd gymryd camau cynnar i sefydlu ei hun gyda Natural England a fydd, o 2007, yn ymgymryd â rôl yr Asiantaeth Cefn Gwlad o ran diogelu a gwella tirluniau a hyrwyddo gweithgareddau hamdden awyr agored a mynediad.

5.16 Yn ogystal â'r Comisiwn Coedwigaeth, mae nifer o gyrff cyhoeddus a phreifat eraill eisoes yn chwarae rhan adeiladol mewn prosiectau i gyflwyno cyfleoedd mynediad newydd. Mae'r Asiantaeth Cefn Gwlad, er enghraifft, wedi cefnogi'r cynnig i greu Llwybr Ceffylau'r Penwynion (gweler isod), tra bod Cymdeithas Ceffylau Prydain wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o agor bron 350 milltir o lwybrau pellter mawr yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fel rhan o Brosiect

Ride UK⁴⁴, gan gynnwys Sabrina Way (Swydd Derby - Swydd Gaerloyw), Llwybr Ceffylau Claude Duval (Swydd Rydychen), Three Downs Link (yn ymuno'r Ridgeway â South Downs Way) a Three Rivers Ride (yn croesi afon Lugg, afon Gwy ac afon Wysg, ac yn teithio drwy'r Mynyddoedd Du a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Ar lefel fwy lleol, mae grwpiau megis Ymddiriedolaeth Llwybrau Croes y Mendips hefyd wedi gweithio'n galed i agor llwybrau anstatudol newydd. Dylid cymeradwyo ac annog gwaith y cyrff hyn.

ASTUDIAETH ACHOS – Llwybr Ceffylau'r Penwynion

Mae'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn datblygu'r Llwybr Cenedlaethol newydd hwn fel y llwybr ceffylau pellter mawr cyntaf a adeiladwyd i'r pwrpas. Ar ddechrau'r prosiect nid oedd llawer o'r llwybr ar gael yn gyfreithiol i farchogion, ac felly bu'n rhaid negodi hawliau llwybrau ceffylau newydd gyda pherchenogion tir. Ar ôl ei gwblhau bydd Llwybr Ceffylau'r Penwynion yn rhedeg am 350 o filltiroedd, o Lwybr yr High Peak yn Swydd Derby i Byrness yn Northumberland. Mae darn sy'n ymestyn am 120 o filltiroedd o Swydd Derby i'r Mary Townley Loop eisoes ar agor.

ASTUDIAETH ACHOS – Ymddiriedolaeth Llwybrau Croes y Mendips

Mae gan yr elusen hon hanes o osod llwybrau hamdden ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion. Crëir llwybrau newydd i gysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy darniog sy'n bodoli eisoes a manteisio i'r eithaf arno. Mae'r ymddiriedolaeth yn nodi ac yn mapio llwybrau, yn negodi gyda pherchenogion tir, ac yn sefydlu prosiectau cyfalaf i osod a hyrwyddo llwybrau. Ymhlith mathau eraill o gyllid llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael gafael ar gyllid o Gronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau. Defnyddiwyd rhan o'r arian hwn i dalu iawndal l ffermwyr a gytunodd i gael hawliau tramwy newydd ar draws eu tir ac a'u cyflwynodd am byth.

ASTUDIAETH ACHOS – Prosiect Ride UK

O dan y teitl prosiect "Ride UK", lansiodd Cymdeithas Ceffylau Prydain gynlluniau ar gyfer y Rhwydwaith Llwybrau Ceffylau Cenedlaethol ym mis Mai 2000. Nod y prosiect yw creu rhwydwaith cynhwysfawr o gylchffyrdd cymunedol a llwybrau llinol strategol ar gyfer marchogion ledled y Deyrnas Unedig. Gan ddechrau gyda llwybrau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes (megis The Ridgeway a Llwybr Ceffylau'r Penwynion), llwybrau rhanbarthol (gan gynnwys The Three Rivers Ride, Swan's Way a The Icknield Way) a'r cylchffyrdd a hyrwyddir, bydd y rhwydwaith yn datblygu gydag amser yn rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau sydd ar gael i bob defnyddiwr. Bydd creu Cylchffyrdd Cymunedol a hyrwyddir yn sicrhau bod gan farchogion fynediad hawdd i lwybrau lleol sy'n rhydd o draffig modur ar y cyfan. Mae llwybrau rhanbarthol yn cysylltu'r Cylchffyrdd Cymunedol, gan ganiatáu llwybrau hwy, a lleihau'r angen i deithio mewn fan geffylau i leoedd o ddiddordeb marchogol. Bydd y Llwybrau Cenedlaethol yn cynnwys llwybrau strategol mawr ledled y Wlad gan gysylltu'r rhanbarthau ac, o bosibl, cysylltu ag Ewrop. Mae Ride UK yn dwyn amcanion cyffredin o ran iechyd, datblygu cynaliadwy, hamdden a chwaraeon ynghyd drwy bartneriaeth effeithiol rhwng ceidwaid tir, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

⁴⁴ Gweler www.ride-uk.org.uk

CAM GWEITHREDU 30: Cyhoeddi Canllaw Arfer Da ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn ehangu mynediad lleol ar gyfer marchogaeth

Cam Gweithredu: Byddai sefydliadau sydd â diddordeb mewn ehangu mynediad anstatudol ar gyfer marchogaeth yn elwa ar Ganllaw Arfer Da gan ymgorffori cyngor y rhai sydd eisoes wedi dysgu eu gwersi'r ffordd anodd.

Cyfrifoldeb: Cyrff Mynediad, gyda chymorth cyrff a rhwydweithiau lleol a rhanbarthol.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

Mynediad i Dir Fferm

- 5.17 Mae cynnal trafodaethau â ffermwyr a pherchenogion tir i'w hannog i ganiatáu i farchogion ddefnyddio eu tir wedi bod yn ffordd werthfawr o sicrhau cyfleoedd marchogaeth a gyrru oddi ar y ffordd ychwanegol. Mae rhai Grwpiau Llwybrau Ceffylau Lleol, megis Cymdeithas Marchogion Matfield a'r Cylch, wedi llwyddo i negodi llwybrau marchogaeth caniatol am ddim gyda pherchenogion tir lleol hael. Fodd bynnag, gall negodi llwybrau o'r fath fod yn waith anodd a thrafferthus iawn ac yn aml dim ond cynnig llwybrau dros dir nad ydynt yn ei ddefnyddio llawer y mae perchenog tir yn fodlon ei wneud, yn hytrach na chynnig y llwybr mwyaf defnyddiol i farchogion. Mae mwy na 50% o'r llwybrau a negodwyd gan y Gymdeithas wedi cau pan fo cynlluniau neu amgylchiadau'r perchenogion tir wedi newid.
- 5.18 Mae safbwyntiau'n amrywio, ond cred llawer o bobl yn gryf na ellir disgwyl i'r system llwybrau ceffylau gyhoeddus gael ei hymestyn yn wirioneddol, yn barhaol ac yn wirfoddol hyd nes y caiff perchenogion tir eu talu'n dda am ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir, oherwydd ar hyn o bryd ystyrir mynediad fel cost yn hytrach na budd a chredir ei fod yn gostwng gwerth cyfalaf y tir. Bu i Gynlluniau Stiwardiaeth Cefn Gwlad ac Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif y Llywodraeth dalu perchenogion tir i ganiatáu llwybrau ceffylau caniatol ar eu tir, ond mynegwyd pryderon na thargedwyd y rhain yn dda bob amser tuag at ardaloedd â galw uchel neu angen penodol (er i'r Cynllun ei gwneud yn ofynnol i unrhyw lwybr ceffylau newydd gysylltu â llwybr ceffylau neu ffordd a oedd yn bodoli eisoes).
- 5.19 Mae'r Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad bellach wedi cau i ymgeiswyr newydd ac mae Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol yn cael ei gyflwyno yn ei le (er y bydd cytundebau'r Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn parhau nes diwedd cyfnod y cytundeb). Mae cynlluniau stiwardiaeth tebyg ar waith yng Nghymru, er y gall y manylion a'r gofynion amrywio. Mae'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol yn cynnwys tair elfen sef Stiwardiaeth Lefel Mynediad (SLM), Stiwardiaeth Lefel Mynediad Organig (SLMO) a Stiwardiaeth Lefel Uwch (SLU). Mae SLM yn gynllun anymarferol lle ceir y lefel isaf posibl o fewnbwn gweinyddol a dim cyngor ar y fferm. Mae'r gwaith o ddatblygu llwybrau mynediad sy'n bodloni galw lleol ac sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd (er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian) yn gofyn am gynnal ymgynghoriad lleol a mewnbwn gweinyddol lleol gan gynnwys ymweliadau gofal a chynnal

dilydol. Nid yw hyn yn bosibl o dan y cynllun SLM anymarferol neu nid ystyriwyd ei bod yn ymarferol ei gynnwys, er y bydd y Llywodraeth yn ystyried unrhyw atebion ymarferol i'r broblem.

- 5.20 Mae Stiwardiaeth Lefel Uwch (SLU) yn seiliedig ar ffermwyr a rheolwyr tir yn cytuno ar amryw opsiynau y bwriedir iddynt sicrhau manteision amgylcheddol penodol yn gyfnewid am dâl. Mae creu llwybrau mynediad caniataol, gan gynnwys llwybrau ceffylau, yn un o'r opsiynau hyn. Rhaid i lwybrau a grëir o dan SLU fod mewn man lle ceir galw amlwg am y llwybr – e.e. i gysylltu llwybrau ceffylau sy'n bodoli eisoes ac a ddefnyddir yn dda er mwyn creu cylchffordd, neu i fynd â marchogion oddi ar ffyrdd prysur. Gellid hefyd defnyddio SLU i uwchraddio mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, at ddefnydd marchogion. Ni fyddai deiliad cytundeb yn cael ei dalu am greu llwybr nad oedd yn debygol o gael ei ddefnyddio. Mae Gwasanaeth Datblygu Gwledig Defra yn gweithio gyda buddiannau mynediad lleol a'r awdurdod priffyrdd i asesu'r angen am lwybr mynediad, y defnydd tebygol a wneir ohono ac ymateb cymdogion. Anogir ymgeiswyr i ddarparu tystiolaeth o angen, megis llythyrau gan farchogion lleol neu gefnogaeth eu fforwm mynediad lleol. Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy lleol yn cael ei ystyried wrth asesu blaenoriaethau, ond ni fyddai diffyg llwybr penodol mewn Cynllun o reidrwydd yn ei ddiystyru pe byddai galw lleol cydnabyddedig. Cred rhai y gallai cyflwyno mynediad o dan y cynllun hwn ei gwneud hyd yn oed yn anos a drutach cyflwyno Llwybrau Ceffylau Cyhoeddus statudol parhaol; bydd angen cadw llygad ar hyn wrth i'r cynllun ddatblygu, a bydd angen i gyrff mynediad fynd i'r afael â hynny'n briodol. Mae'r wefan Llwybrau Cadwraeth⁴⁵ yn rhoi gwybodaeth am bob llwybr mynediad o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol, gan gynnwys mapiau a hyd pob cytundeb.
- 5.21 Mae Cynllun y Taliad Sengl yn gynllun newydd a gyflwynwyd yn Lloegr yn lle deg cynllun cymhorthdal blaenorol a oedd yn gysylltiedig â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae hyn yn caniatáu i dir a ddefnyddir ar gyfer rhai gweithgareddau anamaethyddol gael eu cynnwys yn hawliad y ffermwr. Mae marchogaeth ar hyd llwybrau ceffylau lle na chodir tâl am fynediad yn un gweithgaredd anghyfyngedig o'r fath (yn y cyd-destun hwn mae llwybr ceffylau yn golygu unrhyw briffordd neu lwybr heb arwyneb y caniateir marchogaeth arni/arno neu y mae hawl tramwy ar gyfer marchogaeth yn bodoli - gallai hyn gynnwys llwybrau ceffylau statudol yn ogystal â llwybrau eraill megis cilffyrdd, llwybrau caniataol neu ymylon caeau gan osgoi ffyrdd prysur). Mae'n ofyniad na ddifrodir y tir (h.y. dim difrod a fyddai'n golygu na ellir defnyddio'r tir at ddibenion amaethyddol) a bod yr holl amodau perthnasol eraill yn cael eu bodloni - megis gofynion yr Amod Amaethyddol ac Amgylcheddol Da a nodir yn amodau trawsgydymffurfio'r cynllun. Dim ond i lwybrau lle na chodir tâl y mae'r trefniant anghyfyngedig hwn yn gymwys: lle codir tâl am fynediad, e.e. Toll-llwybrau (gweler isod), byddai terfyn o 28 diwrnod ar fynediad yn ystod deg mis y flwyddyn y mae'r Cynllun Taliad Sengl yn gymwys, neu byddai'n rhaid datgan bod y rhan honno o'r cae yn anghymwys.

⁴⁵ <http://countrywalks.defra.gov.uk>

- 5.22 Gallai'r Cynllun Taliad Sengl fod yn ddefnyddiol o ran gwella a chynnal a chadw hawliau tramwy sy'n bodoli eisoes ond nis cynlluniwyd i greu mwy o fynediad cyhoeddus. Dylai cyrff mynediad ystyried opsiynau ar gyfer ymgorffori mynediad yn well mewn cynlluniau yn y dyfodol, a chynyddu cwrddas cynlluniau sy'n bodoli eisoes megis y posibilrwydd o wneud mynediad oddi ar y ffordd yn opsiwn unigol ar gyfer perchenogion tir o dan y SLU.

CAM GWEITHREDU 31: Llwybrau marchogaeth ar dir fferm, coetir ac ardaloedd arfordirol

Cam Gweithredu: Trafod a negodi gyda Defra, y Gwasanaeth Datblygu Gwledig (sy'n gweinyddu Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol) a chyrff eraill i weld sut y bydd taliadau tir newydd yn effeithio ar fynediad sy'n bodoli eisoes i dir fferm a mynediad posibl iddo; a hefyd mynd i'r afael â materion eraill sy'n ymwneud â pherchenogion tir, gyda'r nod o gynllunio 'pecynnau' deniadol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol a marchogion lleol i negodi gyda pherchenogion tir lleol.

Cyfrifoldeb: Cyrff mynediad.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

Toll-lwybrau

- 5.23 Mae rhai o'r farn bod sefydlu toll-lwybrau gan sefydliadau, megis yr Ymddiriedolaeth Toll-lwybrau oddi ar y Ffordd (TROT), yn ffordd greadigol a rhagweithiol o ddarparu mynediad ychwanegol i farchogaeth oddi ar y ffordd ddiogel.

ASTUDIAETH ACHOS – Ymddiriedolaeth Toll-lwybrau oddi ar y Ffordd (TROT)

Mae TROT yn elusen gofrestredig a redir gan wirfoddolwyr. Mae'n creu llwybrau ar dir preifat, naill ai drwy gysylltu llwybrau ceffylau sy'n bodoli eisoes, gan osgoi ffyrdd peryglus, neu drwy sefydlu llwybrau marchogaeth newydd. Mae TROT wedi sefydlu dros 350 o filltiroedd o doll-lwybrau marchogaeth, sydd yn eu tro wedi agor llawer mwy o filltiroedd o rwydweithiau llwybrau ceffylau hygyrch. Mae marchogion yn talu tua £100 y flwyddyn. Telir tua £200 y flwyddyn fesul milltir o lwybr marchogaeth i berchenogion tir ac maent yn elwa ar y ffaith y caiff mynediad ar eu tir ei reoli a'i blismona yn gywir. Mae hyblygrwydd llwybrau marchogaeth caniatol yn apelio'n fawr at berchenogion tir o'r cychwyn cyntaf. Yn ôl TROT, ychydig iawn sy'n tynnu caniatâd yn ôl ar ôl hynny; roedd tua 5% o dan fygythiad ar ddechrau 2005. Mae TROT yn gweithio gyda ffermwyr yn bennaf, yn ogystal â gweinyddu trwyddedau'r Comisiwn Coedwigaeth mewn rhai ardaloedd.

- 5.24 Cydnabyddir yn eang y gallai toll-lwybrau 'achub bywyd' marchogion lleol a'r diwydiant ceffylau, mewn ardaloedd lle ceir ychydig iawn o ddarpariaeth oddi ar y ffordd, neu ddim o gwbl. Mae stablau cadw a hurio ceffylau, er enghraifft, sy'n hanfodol i ddiwydiant llwyddiannus ac sy'n ddangosydd da o gyflwr y diwydiant mewn ardal benodol, yn ffynnu lle ceir rhwydwaith oddi ar y ffordd da. Gall sefydliadau megis TROT, sy'n gweinyddu trwyddedau ar y cyd ar gyfer nifer o doll-lwybrau cyfagos, fod o fantais i berchenogion tir a marchogion. Gall toll-lwybrau hefyd helpu i ysgogi trafodaethau rhwng grwpiau marchogol a pherchenogion tir, a rhoi profiadau da i berchenogion tir o agor eu tir i farchogion a gyrrwyr cerbydau.

- 5.25 Fodd bynnag, cred rhai fod codi ffioedd blynyddol yn adlewyrchu tybiaethau elitaidd ynghylch marchogion hamdden, neu ei fod yn gyfystyr â chamwahaniaethu yn erbyn perchenogion ceffylau. Mae rhai yn cwestiynu gwerth toll-lwybrau, gan ddweud nad yw mynediad yn barhaol nac wedi ei fapio, a bod bodolaeth toll-lwybrau yn ei gwneud yn anos sicrhau y caiff hawliau tramwy cyhoeddus eu creu. Mae toll-lwybrau yn dibynnu ar strwythur daliadaeth tir, a gall newidiadau i berchenogaeth tir effeithio ar fodolaeth llwybr. Dadleuir hefyd y gall creu toll-lwybr beryglu hawliau tramwy neu ddefnydd nas cofnodwyd sy'n bodoli eisoes ers bron 20 mlynedd, a bod angen i ysgolion marchogaeth a sefydliadau cadw a hurio ceffylau fod yn ofalus rhag gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau ar sail cyfleusterau nad ydynt yn barhaol efallai.
- 5.26 Felly, er na ddylid hyrwyddo toll-lwybrau ar draul y system Hawliau Tramwy ehangach, derbynir y gall toll-lwybrau ddarparu cysylltiadau rhwng Hawliau Tramwy sefydledig a chynlluniau mynediad gwirfoddol eraill (megis y rhai o dan gynlluniau Amaeth-amgylcheddol) i greu rhwydwaith cysylltiedig. Maent yn darparu llwybrau oddi ar y ffordd diogel, na fydd yn rhaid eu rhannu gyda cherddwyr a beicwyr efallai; ac mae llawer o bobl yn fodlon defnyddio unrhyw hawliau mynediad, gan gynnwys y rhai y mae angen iddynt dalu amdanynt. Mae lle iddynt yn y system gyffredinol a byddai'n wrthgynhyrchol eu hanwybyddu neu ddefnyddio adnoddau i'w gwrthwynebu pan eu hamcan yn y pen draw yw gwella mynediad i farchogion.

CAM GWEITHREDU 32: Toll-lwybrau

Cam gweithredu: Ar y cyd â Cham Gweithredu 31, ymgorffori toll-lwybrau, os yw'n ymarferol, yn y pecynnau y gall grwpiau marchogaeth lleol eu trafod gyda pherchenogion tir lleol fel ychwanegiad i ddarpariaeth gyhoeddus sylfaenol ddigonol.

Cyfrifoldeb: Cyrff mynediad yn gweithio gyda strwythur ceffylau rhanbarthol a rhwydweithiau ceffylau lleol (Cam Gweithredu 5).

Blaenoriaeth: Byrdymor i'r tymor canolig.

(c) Parhau ag addysg diogelwch i fodurwyr, marchogion a gyrwyr cerbydau

Damweiniau Traffig Ffyrdd

- 5.27 Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn amcangyfrif bod o leiaf 3,000 o ddamweiniau ffordd bob blwyddyn yn cynnwys ceffylau. Yn ffodus prin yw'r marchogion sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yn y damweiniau hyn. Yn ôl yr Adran Drafnidiaeth, anafwyd 132 o farchogion yn 2004, gyda dau yn cael eu lladd wrth farchogaeth. Mae hyn yn cynrychioli llai na 0.05% o'r holl ddamweiniau y rhoddwyd gwybod amdanynt ond mae'n dal i fod yn ddwy farwolaeth yn ormod (heb sôn am ddioddefaint y ceffylau dan sylw). Mae'r Gymdeithas o'r farn y dylid casglu ystadegau swyddogol ar gyfer pob damwain ffordd yn ymwneud â cheffylau, nid yn unig y rhai lle y caiff pobl eu hanafu. Byddai'r ymagwedd hon, sydd eisoes yn cael ei mabwysiadu mewn perthynas â cheirw gan y Fenter Ceirw (gweler isod), yn creu darlun mwy cywir o'r sefyllfa

gyffredinol o ran diogelwch marchogol ar y ffordd ac yn helpu i leihau damweiniau drwy nodi'r mannau lleol hynny lle ceir llawer o ddamweiniau y gall yr awdurdodau priffyrdd fynd i'r afael â hwy, a darparu tystiolaeth werthfawr i ategu ymgyrchoedd ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol i wella diogelwch ffordd i farchogion. Fodd bynnag, noda'r Adran Drafnidiaeth nad oes gan yr heddlu, sy'n cofnodi pob damwain ffordd lle anafir rhywun, yr adnoddau i gofnodi'r nifer llawer uwch o ddamweiniau nad ydynt yn cynnwys anaf i berson. Mae hynny'n berthnasol i bawb sy'n defnyddio ffyrdd, nid dim ond marchogion.

ASTUDIAETH ACHOS – Damweiniau Traffig Ffyrdd sy'n cynnwys Ceirw

Mae'r Fenter Ceirw yn bartneriaeth eang rhwng diddordebau statudol, gwirfoddol a phreifat sydd â'r nod o sicrhau poblogaeth gynaliadwy o geirw gwyllt a reolir yn dda yng Nghymru a Lloegr. Mae Damweiniau Traffig Ffyrdd sy'n cynnwys ceirw yn broblem fawr yn y DU, yn ogystal â sawl gwlad arall. Mae'r Asiantaeth Priffyrdd a Gweithrediaeth yr Alban, ynghyd â'r Ymddiriedolaeth Coetir, y Cwmni Coedwigoedd Cenedlaethol a'r Ganolfan Astudiaethau ac Ymchwil Ceirw yn ariannu ymchwil newydd i ddatblygu, am y tro cyntaf, system genedlaethol ar ffurf haenau o gofnodi gwybodaeth am ddamweiniau traffig ffyrdd sy'n gysylltiedig â cheirw ledled y DU.

Gwella Diogelwch ar y Ffordd

5.28 Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith ardderchog i addysgu modurwyr i fynd heibio i geffylau 'yn ddigon pell ac yn araf'. Mae hefyd wedi cynnwys mesurau ar gyfer marchogion yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer diogelwch ar y ffordd, megis:

- Gwella'r prawf gyrru i roi mwy o sylw i geffylau fel defnyddwyr ffordd;
- Cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth modurwyr o natur ddiamddiffyn marchogion;
- Darparu arian i annog pobl i sefyll Prawf Marchogaeth a Diogelwch ar y Ffordd Cymdeithas Ceffylau Prydain⁴⁶

Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn parhau i addysgu gyrwyr i fod yn fwy ymwybodol o farchogion, ac mae'n croesawu ymdrechion addysgol y diwydiant ceffylau.

5.29 Awgrymwyd dosbarthiad Lonydd Tawel a Pharthau Cartref⁴⁷ fel ffyrdd priodol o ddatblygu'r agenda diogelwch ar y ffordd yn flaenorol. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi egluro nad yw'r un o'r ddau yn gynlluniau diogelwch ar y ffordd yn sylfaenol, ond yn hytrach eu bod yw gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol. Ym marn y diwydiant dim ond ffyrdd â llif isel o draffig sy'n teithio'n araf, neu ffyrdd lle y mae amodau o'r fath yn cael eu creu, sy'n addas i'w dosbarthu yn Lonydd Tawel neu Barthau Cartref.

⁴⁶ Mae Clybiau Marchogaeth a rhai Clybiau Merlod hefyd yn hyrwyddo'r prawf hwn. Mae tua 5,000 o ymgeiswyr yn ei sefyll bob blwyddyn.

⁴⁷ Fel y trafodwyd yn 'Consultation on Quiet Lanes and Home Zones' gan yr Adran Drafnidiaeth, Awst 2004. Nod Lonydd Tawel yw cynnal cymeriad is-ffyrdd gwledig drwy geisio rheoli twf cynyddol traffig sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig; nod Parthau Cartref yw gwella ansawdd bywyd ar ffyrdd preswyl drwy eu gwneud yn lleoedd ar gyfer pobl, yn hytrach na thramwyfeydd ar gyfer cerbydau.

- 5.30 Yn ogystal, ym marn y diwydiant ceffylau mae angen gwneud mwy i addysgu beicwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o feiciau ar lwybrau ceffylau. Hefyd, cred y diwydiant yn gyffredinol y byddai llydanu ymylon ffyrdd a'u rheoli yn well yn gwella diogelwch ceffylau a marchogion yn sylweddol. Gallai'r cynnig olaf hwn fynd law yn llaw â gostwng y terfyn cyflymder ar lonydd gwledig ac, o bosibl, gwahardd cerbydau modur ar draciau anwneuthuredig yn gyfan gwbl (er y cydnabyddir bod anawsterau sylweddol yn gysylltiedig â hyn).
- 5.31 Mae pwyslais parhaus Cymdeithas Ceffylau Prydain ar wisgo hetiau diogelwch priodol wedi'i gymeradwyo'n eang, ac mae llawer o bobl o'r farn y dylid cyflwyno'r polisi hwn yn fwy grymus er mwyn cyflawni'r nod o wneud gwisgo hetiau diogelwch yn ofynnol i bob marchog ar ffyrdd cyhoeddus.
- 5.32 Yn olaf, rhaid talu sylw penodol i groesfannau ffyrdd; a dadleuwyd y dylai croesfannau a reolir ar gyfer marchogion fod yn ofynnol ar ffyrdd sydd â mwy na 14,000 o gerbydau yn teithio arnynt bob dydd. Bydd angen i gyrff mynediad archwilio hyn a'r materion eraill o ran diogelwch ar y ffordd a nodir uchod wrth ddatblygu ac arwain ymgyrch newydd i hyrwyddo diogelwch marchogion.

CAM GWEITHREDU 33: Ymgyrch diogelwch ar y ffordd ac oddi ar y ffordd

Cam gweithredu: Cynnal trafodaethau pellach gyda'r Adran Drafnidiaeth ar ddatblygu a chyflwyno ymgyrch i addysgu marchogion, gyrwyr cerbydau, beicwyr a modurwyr ynghylch sut i ymddwyn yn gywir ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.

Cyfrifoldeb: Cyrff Mynediad a defnyddio trefniadau cyfathrebu gwell y diwydiant (Camau Gweithredu 26 a 3).

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

(ch) Sicrhau bod marchogaeth a gyrru cerbydau mewn trefi a maestrefi yn cael ei hyrwyddo a'i wella

- 5.33 Yn aml ystyrir ar gam bod marchogaeth yn weithgaredd 'gwledig' yn unig. Mae'r mwyafrif o bobl yn byw mewn ardaloedd trefol, ac mae galw enfawr am fynediad i leoedd diogel i farchogaeth ar gyrion trefi a dinasoedd yn ogystal ag o fewn canolfannau trefol. Dim ond cynyddu a wnaiff y galw hwn am gyfleoedd diogel i farchogaeth a gyrru mewn trefi wrth i farchogaeth ddod yn fwy poblogaidd yn unol â'r amcanion eraill yn y Strategaeth hon, ac wrth i fwy a mwy o bobl ifanc o ardaloedd gwledig sydd â phrofiad o farchogaeth a diddordeb ynddi symud i drefi. Mae'n hollbwysig nad anghofir am hyn wrth ystyried darparu llwybrau marchogol, ac y cynhelir ac y cedwir lleoedd diogel i farchogaeth a gyrru ceffylau ac y darperir mwy ohonynt.
- 5.34 Mae'n hanfodol bod llwybrau marchogaeth, ysgolion marchogaeth a stablau cadw a hurio ceffylau yn cael eu hystyried yn gyfangorff cydlynol, y gellir eu cyrraedd yn hawdd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ceir enghreifftiau ardderchog eisoes o gyfleusterau marchogol mewn ardaloedd trefol yn cael caniatâd cynllunio i ddarparu ymarfer hamddenol iach.

- 5.35 Mae'n bwysig bod cyfleusterau marchogol yn cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw yn agos at ddatblygiadau tai mawr. Os nad oes unman i farchogaeth y tu allan i arena ysgol farchogaeth, yna cred llawer yn y diwydiant ceffylau y bydd hynny'n rheswm i gleientiaid ysgol farchogaeth beidio â chymryd rhan ac y bydd pobl yn colli diddordeb mewn marchogaeth a gyrru.

CAM GWEITHREDU 34: Marchogaeth a gyrru mewn trefi a maestrefi

Cam gweithredu: Trefnu ymgyrch proffil uchel i hysbysu pobl, awdurdodau lleol a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog o fanteision marchogyddiaeth, argaeledd cyfleoedd i farchogaeth a gyrru mewn trefi a dinasoedd a'r angen i ddarparu cyfleusterau i wasanaethau ardaloedd lle ceir datblygiadau tai newydd mawr.

Cyfrifoldeb: Trefniadau cyfathrebu gwell o fewn y diwydiant (Cam gweithredu 3); Cyrff mynediad a strwythurau ceffylau rhanbarthol.

Blaenoriaeth: Byrdymor a'r tymor canolig.

Nod 6: Ystyried effaith amgylcheddol y ceffyl

- 6.1 Bu ceffylau yn rhan bwysig o'r dirwedd wledig erioed, ac mae perchenogion ceffylau sy'n berchen ar dir, llawn cymaint â ffermwyr, yn gwarchod cefn gwlad. Gall y diwydiant ceffylau chwarae rhan werthfawr i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae tir a ddefnyddir gan y diwydiant, megis tir pori, tir ymarfer ceffylau, llwybrau mynediad ac adeiladau i geffylau oll yn effeithio ar natur weledol a ffisegol yr amgylchedd a dylai'r diwydiant ceffylau gael ei annog i helpu i wella ansawdd y tir a ddefnyddir ganddo. Gall ceffylau chwarae rhan werthfawr o ran cynnal ansawdd a nodweddion amrywiol cefn gwlad Cymru a Lloegr.
- 6.2 Yn ogystal â'r effaith weledol gadarnhaol a gawn o weld ceffylau'n pori mewn dolydd glaswelltog, mae hefyd effeithiau gweledol negyddol posibl yn gysylltiedig â cheffylau, yn enwedig ar ymylon ardaloedd trefol. Gall y rhain hefyd fod yn gysylltiedig ag effeithiau niweidiol ar les ceffylau, er enghraifft, oherwydd stablau dros dro a ffensys anniogel yn ogystal â malurion mewn caeau. Yn yr un modd, mae caeau gaeaf wedi'u sathru nid yn unig yn ddiolwg, ond hefyd gallant arwain at fwy o risg i iechyd megis y dwymyn llaid, a chael effeithiau amgylcheddol negyddol megis erydu pridd. Mae'r methiant i ddileu llysiau'r gingroen oddi ar badogau a chaeau a ddefnyddir ar gyfer tyfu gwair yn gallu arwain at effeithiau ar afu ceffylau na ellir eu gwella ac a all fod yn angheuol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, yr hyn nad yw'n edrych yn dda yw'r peth gorau o ran lles ceffylau. Er enghraifft, mae angen padogau bach 'moel' yn aml ar gyfer merlod sy'n debygol o ddioddef gan y llid llafnog, ond ni fydd eu heffaith weladwy mor gadarnhaol â phadog mawr glaswelltog.
- 6.3 Mae llawer o berchenogion ceffylau yn defnyddio ffensys trydanol gan eu bod yn caniatáu'r defnydd o llain-bori a'u bod yn ddull diogel o reoli ceffylau a'u pori mewn grwpiau bach neu ar eu pennau eu hunain ond hynny o fewn golwg ceffylau eraill, a thrwy hynny gryfhau greddf gre a lleihau'r risg o anaf. Fodd bynnag, efallai y bydd eraill yn teimlo bod y ffensys trydanol â thâp gwyn, yn arbennig, yn annymunol ac mewn rhai ardaloedd gallent fod yn ymwithiad gweledol gan dorri ar draws patrymau'r ffiniau cae traddodiadol. Mae cyrff megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)⁴⁸ neu awdurdodau lleol yn aml yn paratoi canllawiau ar sicrhau bod effaith weledol y ffensys trydanol a ddefnyddir cyn lleied â phosibl (megis drwy ddefnyddio ffensys gwyrdd neu frown) ond mor ddiogel â phosibl. Fodd bynnag, mae llawer o berchenogion ceffylau yn pryderu bod yna brinder gwybodaeth ffeithiol am ddiogelwch y ffensys mewn lliwiau mwy tywyll. Mae hwn yn fater y bydd angen ei ystyried ymhellach er mwyn sicrhau bod y canllawiau a roddir ar ffensys trydanol yn gadarnhaol o ran diogelwch a lles ceffylau, ond hefyd yn helpu i gynnal cefn gwlad sy'n weledol ddymunol.

⁴⁸ Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Rhostiroedd Caint wedi cynhyrchu Canllaw ar Ddylunio Tirwedd sy'n rhoi cyngor clir ac ymarferol i berchenogion tir. Gweler www.kentdowns.org.uk

- 6.4 Gall y diwydiant ceffylau chwarae rhan bwysig i gyfrannu'n gadarnhaol i greu amgylchedd iach, cynaliadwy, amrywiol wedi'i reoli'n dda ac yn llawn bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol.
Bwriedir cyflawni hyn drwy:
- wella safonau rheoli tir;
 - annog storio a gwaredu gwrtaith yn gywir ac yn ddiogel;
 - annog y defnydd o geffylau mewn prosiectau pori er lles cadwraeth sy'n cefnogi bioamrywiaeth bywyd gwyllt a thir pori.
- 6.5 Bydd creu Natural England, a fydd yn parhau â gwaith diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth English Nature⁴⁹, yn ogystal â swyddogaethau rheoli tir amgylcheddol y Gwasanaeth Datblygu Gwledig, yn gyfle ardderchog i'r diwydiant ceffylau chwarae rhan fwy effeithiol yn y maes hwn.

(a) Gwella safonau rheoli tir

- 6.6 Er y cydnabyddir nad oes modd bob amser osgoi rhai o'r problemau o ran caeau wedi'u sathru neu wedi'u gorburi, mae cydnabyddiaeth gynyddol bod modd cymryd camau cadarnhaol mewn sawl achos. Gall rheoli tir yn briodol fod yn hynod gadarnhaol i'r cyhoedd ac i berchenogion ceffylau, a chael effaith lesol ar iechyd ceffyl ac ar fywyd gwyllt yn yr ardal o'i amgylch. Gall rheoli tir pori ceffylau yn gadarn arwain at ostyngiad mawr mewn achosion o lyngyr mewn ceffylau a rheoli planhigion gwenwynig megis llysiau'r gingroen; a gall yr amrywiaeth o rywogaethau o laswellt a pherlysiau fod yn lesol i iechyd ceffylau, gan leihau'r risg o ordewdra neu gloffni. At hynny, gall tir wedi'i reoli'n dda gynnal ceffylau am gyfnodau hwy a gall gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon. I ymwelwyr â'r ardal neu drigolion nad ydynt yn berchen ar geffylau mae'n creu perthynas fwy cadarnhaol â'r byd ceffylau, a gwell dealltwriaeth o fanteision annog gweithgareddau ceffylau.
- 6.7 Mae perchenogion neu geidwaid ceffylau yn gallu cyfrannu'n ddifrif i gymeriad ac ansawdd eu hardal leol. Yn ogystal â chreu effaith gadarnhaol ar y dirwedd ac ansawdd y tir, mae ceidwaid ceffylau yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at annog bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Er enghraifft, mae gwrychoedd brodorol yn gysgodfa i geffylau sy'n pori ac maent yn ffynhonnell o fwyd ac yn gynefin i amryw fathau o fywyd gwyllt. Gall Awdurdodau Lleol a chyrff megis yr Asiantaeth Cefn Gwlad neu English Nature chwarae rhan allweddol i roi gwybodaeth a chanllawiau i berchenogion a cheidwaid ceffylau yn eu meysydd unigol. Mae mentrau megis prosiect Rheoli Tir Pori Ceffylau Cyngor Sir Surrey (gweler isod) neu weithdai Rheoli Tir Pori Ceffylau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Rhostiroedd Caint yn hynod werthfawr o ran annog cydnabyddiaeth o effaith y ceffyl ar y dirwedd leol. Maent hefyd yn helpu i osod safonau o 'arfer gorau' i geidwaid ceffylau er mwyn rheoli safleoedd mewn ffyrdd sy'n sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymeriad y sir ac yn diogelu'r amgylchedd.

⁴⁹ Caiff English Nature a rhai rhannau o'r Asiantaeth Cefn Gwlad a'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig eu huno yn 2007 i ffurfio Natural England. Gweler www.defra.gov.uk/rural/ruraldelivery/natural-england.htm

ASTUDIAETH ACHOS: Prosiect Rheoli Tir Pori Ceffylau Cyngor Sir Sussex

Dyma'r adnodd ar-lein cyntaf o'i fath ym Mhrydain wedi'i gefnogi a'i ariannu gan Gyngor sy'n rhoi cyngor i berchenogion ceffylau ar ffyrdd ymarferol o gynnal a chadw eu padogau er budd mwyaf eu hanifeiliaid yn ogystal ag er budd y dirwedd. Fe'i crëwyd yn wreiddiol gan Gyngor Sir Surrey a'r Asiantaeth Cefn Gwlad ac mae Cyngor Sir Surrey, Prosiect Rheoli Cefn Gwlad Lower Mole a sawl cyngor dosbarth a bwrdeistref o fewn y sir yn parhau i'w gefnogi. Mae'r Prosiect wedi cynhyrchu calendrau llawn gwybodaeth a nodiadau cyfarwyddyd i roi cyngor ar reoli glaswelltir drwy gydol y flwyddyn ar gyfer safleoedd lle cedwir ceffylau ledled Surrey. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cyngor am ddim ar safleoedd penodol dros y ffôn, ymweliadau â safleoedd, negeseuon e-bost ac ati. Am ragor o wybodaeth gweler www.surreycc.gov.uk/horsepastureproject

CAM GWEITHREDU 35: Annog Awdurdodau Lleol ac eraill â chyfrifoldebau dros reoli tir i hyrwyddo dulliau o reoli tir pori yn dda

Cam Gweithredu: Annog Awdurdodau Lleol ac eraill â chyfrifoldebau dros reoli tir, i weithio gyda'r diwydiant ceffylau, datblygu prosiectau rheoli tir pori er mwyn hyrwyddo dulliau rheoli tir yn dda a rhoi cyngor 'arfer gorau'.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain a'r Llywodraeth i hybu gwerth prosiectau o'r fath. Awdurdodau Lleol a chyrff eraill, i'w datblygu fel y bo'n briodol mewn cydweithrediad â'r diwydiant ceffylau a'r rhai sydd eisoes wedi cyflwyno datblygiadau newydd yn y maes hwn, megis Cyngor Sir Surrey, a sefydliadau cynghori megis yr Asiantaeth Cefn Gwlad ac English Nature.

Blaenoriaeth: Byrdymor

CAM GWEITHREDU 36: Cod ymarfer ar gyfer rheoli tir yn dda

Cam Gweithredu: Ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cod o arfer gorau ar y cyd rhwng y Diwydiant a'r Llywodraeth ar gyfer pob perchennog/rheolwr yn y diwydiant ceffylau, er mwyn eu hannog i reoli tir yn well (gan ystyried lles ceffylau yn ogystal â bioamrywiaeth a diogelu bywyd gwylt), gan adeiladu ar waith da Cyngor Sir Surrey ac eraill.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Awdurdodau Lleol a chyrff megis yr Asiantaeth Cefn Gwlad, English Nature ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

Llysiau'r gingroen

- 6.8 Arweiniodd ymgyrch Cymdeithas Ceffylau Prydain ar llysiau'r gingroen at gamau, a oedd i'w croesawu, gan y Llywodraeth i sicrhau nad yw'r chwynnyn gwenwynig hwn yn ymledu i dir lle mae bygythiad i geffylau ac anifeiliaid pori eraill. Cyhoeddwyd Cod Ymarfer ar sut i atal llysiau'r gingroen rhag ymledu yn 2004 yn Lloegr⁵⁰, mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Ceffylau Prydain a rhanddeiliaid eraill i roi cyngor ar adnabod llysiau'r gingroen, asesiad risg a blaenoriaethau ar gyfer rheoli llysiau'r gingroen. Mae gwaredu llysiau'r gingroen yn y ffordd gywir yn rhan bwysig o reolaeth gyffredinol i atal y chwynnyn rhag ymledu drwy wasgaru hadau ac aildyfu o'r gwreiddiau ac mae Defra hefyd wedi cynhyrchu canllawiau pellach ar ddulliau o waredu llysiau'r gingroen⁵¹.
- 6.9 Roedd pryder yn y gorffennol nad aethpwyd ati i orfodi perchenogion tir i glirio llysiau'r gingroen oddi ar dir lle mae ceffylau yn pori neu wrth ymyl tir lle mae ceffylau yn pori yn ddigon cyflym, ac yn aml bod camau gorfodi yn rhy hwyr. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn hyn a rhoddir blaenoriaeth erbyn hyn i ymchwilio i gwynion lle mae perygl y gall y chwynnyn ymledu i dir a ddefnyddir ar gyfer cadw neu bori ceffylau neu anifeiliaid eraill.⁵² Lle nad yw'r perchennog tir neu'r deiliad yn gweithredu i reoli llysiau'r gingroen ac mae bygythiad i les anifeiliaid bydd Cynulliad Cymru (neu Defra os yw'r tir yn Lloegr) yn cyhoeddi hysbysiad gorfodi o dan Ddeddf Chwyn 1959 sy'n ei gwneud yn ofynnol i glirio'r tir o chwyn⁵³. Os na chydymffurfir â hysbysiad gorfodi, bydd contractwr yn clirio'r chwyn ac yna bydd y costau yn cael eu hadennill oddi wrth berchennog/deiliad y tir. Gobaith y diwydiant ceffylau yw y bydd y mesurau hyn, ynghyd â mentrau megis Wythnos Ymwybyddiaeth Llysiau'r Gingroen Cymdeithas Ceffylau Prydain yn cael effaith sylweddol ar reoli lledaeniad llysiau'r gingroen.

Tir a borir gan geffylau

- 6.10 Mae'r diwydiant ceffylau yn Lloegr yn gyffredinol wedi croesawu'r penderfyniad i wneud tir a borir gan geffylau yn gymwys yng Nghynllun newydd y Taliad Sengl (gweler Nod 3 a 5 am ragor o wybodaeth am gymhwyso ac amodau Cynllun y Taliad Sengl). Mae'r Undeb Ewropeaidd yn symud oddi wrth daliadau uniongyrchol am gynhyrchu a thuag at fentrau sy'n annog perchenogion tir i ofalu am gefn gwlad yn well. Mae'n hanfodol bod perchenogion tir a chanddynt geffylau wedi'u cynnwys yn y mentrau hyn, ac iddynt ddimensiwn pwysig o ran trawsgydymffurfio a rheoli tir.

⁵⁰ Cod Ymarfer ar sut i atal llysiau'r gingroen rhag ymledu (Mehefin 2004) Gweler www.defra.gov.uk/enviro/weedsact/default.htm

⁵¹ Nodyn canllaw ar Opsiynau Gwaredu Llysiau'r Gingroen (2005) Gweler www.defra.gov.uk/enviro/weedsact/default.htm

⁵² Ymhob achos, mae Defra yn disgwyl i'r achwynydd gysylltu â pherchennog neu ddeiliad y tir lle mae'r chwyn yn tyfu cyn gwneud cwyn ffurfiol.

⁵³ Cyflwynwyd y gweithdrefnau 41 hysbysiadau gorfodi diwygiedig yn 2004 a hyd yma eleni, cyhoeddwyd 68 o hysbysiadau gorfodi. Buont yn effeithiol i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd.

- 6.11 Fodd bynnag, mae prinder mawr o wybodaeth am erwau a borir gan geffylau, a lle y mae'r ardaloedd hyn. Mae hyn yn anfantais o ran y Llywodraeth a'r diwydiant ei hun yn yr ystyr ei bod yn rhwystro cynllunio polisïau amgylcheddol a pholisïau eraill yn y dyfodol. Dylai'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol (gweler Nod 8) fod o gymorth mawr i gasglu'r wybodaeth hon, ond bydd angen monitro i weld pa wybodaeth arall, os o gwbl, y bydd ei hangen pan fydd yn gwbl weithredol, a bydd angen ystyried sut y gellid cael y wybodaeth honno.

CAM GWEITHREDU 37: Paratoi map clir o le mae ceffylau yn pori

Cam Gweithredu: Gwerthuso'r wybodaeth ofodol sydd ar gael am dir lle porir ceffylau, ac ansawdd y tir lle cedwir ceffylau, ac ystyried datblygu modd i lenwi unrhyw fylchau sy'n codi.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, Cynulliad Cymru a chyrff eraill megis yr Asiantaeth Cefn Gwlad, gan ddefnyddio offer megis y Gronfa Data Ceffylau Genedlaethol, ac ystyried defnyddio arolygon o ffermydd sy'n bodoli eisoes ac arolygon eraill.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

Cynllunio

- 6.12 Mae'n hanfodol bod anghenion ceffylau, effeithiau cadw ceffylau ar y dirwedd a'r pwysau ar seilwaith lleol megis tir comin neu lwybrau ceffylau, yn cael eu hystyried yn y system gynllunio. Mae'r diwydiant ceffylau yn croesawu Datganiad 7 Polisi Cynllunio Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, a gynhyrchwyd ym mis Awst 2004, a oedd yn cynnwys adran newydd yn rhoi canllawiau ar adeiladau i geffylau gyda'r bwriad o leddfu ar rai o'r problemau o ran caniatâd cynllunio a gafwyd gan rai busnesau ceffylau. Fodd bynnag, ni fonitwyd eto i asesu a yw'r canllawiau newydd hyn wedi bod yn effeithiol yn gyffredinol, ac mae'r diwydiant ceffylau yn teimlo bod pobl yn dal i wynebu rhwystredigaeth oherwydd y gwahanol ffordd y mae'r gwahanol awdurdodau cynllunio yn mynd ati i ymdrin â cheisiadau yn ymwneud â marchogaeth. (Gweler Nod 3).

ASTUDIAETH ACHOS – cyngor cynllunio Cyngor Dosbarth De Swydd Amwythig

Mae Cyngor Dosbarth De Swydd Amwythig wedi cynhyrchu Nodyn Ymarfer manwl, sydd ar gael ar-lein, sy'n rhoi gwybodaeth am gyfraith ac arferion cynllunio sy'n ymwneud â datblygiadau sy'n golygu cadw a defnyddio ceffylau. Mae marchogyddiaeth a gweithgareddau yn ymwneud â cheffylau yn gynyddol boblogaidd yn yr ardal hon. Mae'r Cyngor wedi cefnogi busnesau ceffylau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes ac ar yr un pryd wedi cynhyrchu cyngor megis y Nodyn Ymarfer i helpu i sicrhau y ceisir y caniatadau angenrheidiol.

- 6.13 Dylid hefyd ystyried anghenion lles ceffylau yn genedlaethol ac yn lleol wrth weithredu mentrau gwledig a mentrau mynediad eraill. Er enghraifft, mae'r polisi cyfredol o hybu mynediad haws ar draws llwybrau troed drwy osod gatiau moch yn lle camfeydd i'w groesawu wrth reswm ond mae'r clwydi hyn yn beryglus i geffylau, yn enwedig ebolion ifanc. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn

ymwybodol o broblemau o'r fath, ac mae angen eu hannog i'w hystyried wrth benderfynu a gweithredu ar eu blaenoriaethau.

CAM GWEITHREDU 38: Sicrhau perfformiad mwy cyson gan Awdurdodau Lleol ar faterion cynllunio yn ymwneud â cheffylau

Cam Gweithredu: Meithrin perthynas agosach ag awdurdodau lleol, ac ystyried y posibilrwydd o roi iddynt hyfforddiant ac addysg ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â cheffylau, a thrafod sut y gellir cysoni'r ffyrdd gwahanol y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â materion o ran cheffylau.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, gyda'r Llywodraeth, gan gynnwys Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ac Awdurdodau Lleol.

Blaenoriaeth: Tymor canolog.

(b) Annog storio a gwaredu gwrtaith yn gywir ac yn ddiogel

- 6.14 Mae storio a gwaredu gwrtaith cheffylau yn fater sy'n parhau i godi o ran perchenogion cheffylau. Mae rhai gweithgareddau gwastraff cheffylau, megis lledaenu gwrtaith, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn weithgaredd gwastraff risg isel gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac felly maent wedi'u cwmpasu gan Fenter Risg Isel⁵⁴ yr Asiantaeth. Dylai dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop na ellir dosbarthu elifion da byw yn 'wastraff' pan y'i defnyddir fel gwrtaith pridd gael effaith fuddiol i'r diwydiant cheffylau a gallai helpu i leihau'r rheolaethau ar storio gwrtaith cheffylau pan y'i defnyddir yn y ffordd hon.
- 6.15 Mae angen rhoi blaenoriaeth i ledaenu arfer gorau yn well ac atebion ymarferol i'r perchennog neu'r busnes cheffylau o ran rheoli gwastraff. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r canllawiau presennol i helpu perchenogion tir a cheffylau, megis nodyn Canllaw Atal Llygredd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Stablau, Cyndai a Chathdai,⁵⁵ a deunydd a gynhyrchir gan awdurdodau lleol megis Prosiect Rheoli Tir Pori Ceffylau Surrey⁵⁶
- 6.16 Datgelodd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft gryn bryder o fewn y diwydiant cheffylau bod y sefyllfa lle y trinnid gwrtaith cheffylau o darddiad amaethyddol yn wastraff amaethyddol (fel gwrtaith gwartheg) er bod gwrtaith o geffylau eraill yn cael ei ddiffinio'n 'wastraff rheoledig', yn amwys. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cadarnhau y bydd y sefyllfa hon yn newid yn fuan. Y bwriad yw, o ddechrau 2006, y caiff gwastraff amaethyddol ei drin yn wastraff diwydiannol. Golyga hyn y bydd y gwastraff cheffylau o safleoedd amaethyddol yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau sydd eisoes yn gymwys i wastraff tebyg o

⁵⁴ Sefydlwyd y fenter hon i nodi gweithgareddau gwastraff risg isel nad ydynt wedi'u heithrio rhag trwyddedau rheoli gwastraff ond na ellir cyfiawnhau cymryd camau gorfodi yn eu cylch. Golyga hyn fod Asiantaeth yr Amgylchedd o'r farn na fyddai er budd y cyhoedd i ofyn am drwydded rheoli gwastraff ar gyfer y gweithgaredd. Dylid nodi, fodd bynnag, pe bai unrhyw weithgaredd yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n debygol o lygru'r amgylchedd neu niweidio iechyd pobl, y byddai dyletswydd ar Asiantaeth yr Amgylchedd i ystyried cymryd camau gorfodi. Ceir rhagor o wybodaeth am y fenter hon ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd yn www.environment-agency.gov.uk/subjects/waste/1030716/1098094/?lang=e

⁵⁵ Canllawiau Atal Llygredd rhif 24 – Stablau, Cyndai a Chathdai www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/ppg24.pdf

⁵⁶ Nodiadau Cyngor Prosiect Rheoli Tir Pori Ceffylau Surrey www.surreycc.gov.uk/horsepastureproject

ffynonellau nad ydynt yn amaethyddol. Fel y nodwyd uchod, ceir trefniadau gwahanol i ymdrin â gwastraff ceffylau sydd i'w ddefnyddio fel gwrtaith.

CAM GWEITHREDU 39: Hyrwyddo gwybodaeth am reoli gwastraff

Cam Gweithredu: Sicrhau bod pob perchennog ceffylau yn cael gwybodaeth am waredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir; a chyrff y diwydiant ceffylau a'r Llywodraeth yn parhau i gysylltu ar atebion ymarferol i broblemau o ran storio gwastraff gwrtaith ceffylau, compostio, lledaenu a gwaredu.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain, y Llywodraeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Blaenoriaeth: Byrdymor

(c) Annog y defnydd o geffylau mewn prosiectau pori er lles cadwraeth sy'n cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth tir pori

6.17 Fel y nodwyd uchod, mae rheoli caeau yn dda yn bwysig yn ecolegol oherwydd mae'n gwella defnyddioldeb cyffredinol y padog. Gall ceffylau gael effaith amgylcheddol fuddiol ar y tir lle maent yn pori. Defnyddir llawer llai o chwistrelliadau a gwrteithiau ar dir a ddefnyddir ar gyfer ceffylau fel arfer, o'i gymharu â thir â mathau eraill o dda byw fferm, ac anogir yn aml amrywiaeth o llystyfiant, gan gynnwys blodau gwyllt, sy'n llesol i geffylau.

6.18 Yn ogystal, mae ceffylau wedi'u rheoli'n dda yn gallu bod o fudd o ran diogelu ac annog bywyd gwyllt a rhywogaethau planhigion, mewn dolydd ac ar dir pori. Mae enghreifftiau lle y gall y dull agos o bori a ddefnyddir gan geffylau wella'r cynefin ar gyfer mathau penodol o flodau gwyllt mewn gwirionedd. Mae 75 o gynlluniau cadwraeth yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, lle mae bridiau merlod brodorol yn helpu i gadw llystyfiant mynydd yn agored drwy fwyta glaswelltau garw tra'n osgoi grug a phlanhigion blodeuo. Mae'r cynlluniau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd defnyddio bridiau brodorol Prydeinig, sydd nid yn unig yn fwyaf addas o ran yr hinsawdd, ond hefyd yn helpu i ddiogelu dyfodol y merlod hyn, y mae llawer ohonynt yn fridiau prin neu mewn perygl. Ceir canllawiau a chodau ymarfer i'r diwydiant ar les ceffylau a ddefnyddir mewn prosiectau pori er lles cadwraeth sydd ar gael gan sefydliadau megis Cymdeithas Ceffylau Prydain⁵⁷, Exmoor Ponies in Conservation⁵⁸, a'r Prosiect Anifeiliaid Pori⁵⁹.

⁵⁷ Cod Ymarfer o'r enw Welfare of Horses, Ponies and Donkeys used for Conservation Grazing

⁵⁸ www.exmoorpony.org

⁵⁹ www.grazinganimalsproject.org

ASTUDIAETH ACHOS – Merlod yn pori yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Crymlyn

Yn hanesyddol, bu deiliaid tir ar ymyl orllewinol y safle yn pori lleiniau o'r gors yn gyfagos â'u daliad. Peidiodd yr arfer hwn ar ôl yr ail ryfel byd ac erbyn hyn mae'r cynefin flaenoriaeth hon yn cael problemau o ran brwyn a phrysgwydd yn tyfu ar draws y safle. Eir i'r afael â'r prysgwydd drwy ei glirio'n flynyddol o dan gontract ond yr unig ffordd ymarferol o leihau'r brwyn yw drwy gyflwyno pori ysgafn yn yr haf (fel nad amherir ar ormod o adar nythu). Un dull a fu'n llwyddiannus ar Ynys Môn yw defnyddio merlod gwydn (Adran A) i bori'r ardal. Mae'r merlod yn gyfarwydd â'r amgylchiadau gwlyb ac maent wedi'u geni a'u magu ar gynefin tebyg. Felly, penderfynwyd trosglwyddo 10 merlyn o Ynys Môn i Grymlyn. Codwyd ffens i greu padog ar ymyl y safle a chaiff trawslun 100 metr drwy'r brwyn ei arolygu'n rheolaidd i fonitro llwyddiant yr arbrawf hwn. Os yw'n llwyddiannus, bwriedir ychwanegu rhagor o ferlod gan ddefnyddio stoc dros ben gyda'r nod o sefydlu gre fagu.

- 6.19 Cafwyd datblygiadau derbyniol o ran defnyddio ceffylau gwaith brodorol i gludo boncyffion. Mae'r ceffylau hyn, y mae llawer ohonynt yn fridiau prin hefyd, yn amhrisiadwy i fryniau amgylcheddol-sensitif neu'r ardaloedd mynyddig hynny sy'n rhy serth ar gyfer peiriannau.
- 6.20 Er gwaethaf y blaenoriaethau a nodir yn Nod 5, rhaid hefyd ystyried effaith gweithgareddau hamdden marchogol ar gynefinoedd bregus a bywyd gwyllt. Dylid cynllunio a rheoli mynediad a gweithgareddau hamdden mewn ardaloedd naturiol yn y fath fodd ag sy'n parchu ac yn diogelu'r amgylchedd naturiol. Mae canllaw ar wella ac amlhau cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden awyr agored mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd, o'r enw *Best of Both Worlds Guiding Principles*⁶⁰, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan nifer o grwpiau gweithgareddau hamdden awyr agored. Efallai y bydd y diwydiant ceffylau am ystyried cymryd rhan mewn hyrwyddo a datblygu'r canllaw hwn, yn ogystal ag ymrwymo i'w egwyddorion.

CAM GWEITHREDU 40: Gwybodaeth am bori er lles cadwraeth

Cam Gweithredu: Adolygu'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r codau ymarfer presennol ynglŷn â phori er lles cadwraeth ac, os bydd angen, paratoi cod cenedlaethol i ategu ac annog yr arfer hwn.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain yn gweithio gyda sefydliadau megis Cymdeithas Ceffylau Prydain, Exmoor Ponies in Conservation a'r Prosiect Anifeiliaid Pori, yn ogystal â chymdeithasau bridiau brodorol a chynhenid a sefydliadau cadwraeth amgylcheddol eraill.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

⁶⁰ Mae egwyddorion *Best of Both Worlds* yn cael eu datblygu gan weithgor o dan arweiniad yr Asiantaeth Cefn Gwlad. Gweler www.countryside.gov.uk

Nod 7: Annog Rhagoriaeth mewn Chwaraeon

- 7.1 Mae Prydain Fawr eisoes yn llwyddiannus mewn sawl camp farchogol, ac mae'r Llywodraeth wedi cydnabod yr elfennau o'r diwydiant sy'n ymwneud â mabolgampau marchogol ar bob lefel am eu cyflawniadau a'u potensial. Yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn Athen yn 2004, enillodd marchogion Prydain fwy o fedelau nag unrhyw genedl arall sy'n cystadlu yn y maes hwn: medal Aur unigol, medal Arian i'r tîm a medal Efydd unigol yn y Gemau Olympaidd a phum medal Aur a thair medal Efydd yn y Gemau Paralympaidd. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain a'r Llywodraeth yn edrych ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn yng Ngemau 2008 ac yn enwedig gartref yng Ngemau 2012 yn Llundain lle y bydd perfformiad gwych yn rhoi hwb mawr i'r diwydiant.
- 7.2 Caiff byd mabolgampau marchogol ei feirniadu weithiau am ganolbwyntio gormod ar yr elit. Canfyddiad yw hynny yn hytrach na'r gwirionedd. Mae proffil gweithgareddau'r elit yn denu sylw yn y cyfryngau ond wrth wraidd hyn gwneir cryn dipyn o waith i gefnogi a datblygu chwaraeon a gweithgareddau hamdden ar bob lefel. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod llwyddiant yr elit yn helpu i ennyn diddordeb pobl mewn marchogyddiaeth, ac yn annog marchogion i anelu at safonau uwch. Mae'n amlwg bod y llwyddiant a gafwyd yn rygbi'r undeb, yn enwedig ar ôl i Loegr ennill Cwpan y Byd yn 2003, ac ar ôl i Gymru ennill y Gamp Lawn yn 2005, wedi ysbrydoli chwaraewyr ifanc i droi at rygbi fel y gamp y dewisant ei chwarae. Bydd llwyddiant mewn mabolgampau marchogol yn annog mwy o bobl i ddechrau a pharhau â mabolgampau yn ymwneud â cheffylau o wybod bod y rhai sy'n dal ati yn gallu cael llwyddiant.
- 7.3 Dim ond drwy gyfuniad o ffactorau, y mae angen cael pob un yn iawn, y gellir cael llwyddiant ym myd chwaraeon:
- cynlluniau penodol a chanddynt dargedau dros gyfnod penodol;
 - manylder;
 - strwythur llywodraethu trefnus ag adnoddau;
 - marchnata da;
 - rhaglenni datblygu athletwyr cadarn i geffylau a'u marchogion;
 - strwythurau cystadlu da;
 - cyfleusterau da;
 - mynediad digonol ac agored i bobl ifanc;
 - rhaglenni canfod talent egniol;
 - gwyddor a meddygaeth chwaraeon ddatblygedig;
 - strwythurau hyfforddi rhagorol;
 - ceffylau wedi'u bridio ac wedi'u magu'n dda;
 - cefnogaeth i ysgolion, clybiau a marchogion cyffredin.

7.4 Mae nifer o fentrau sy'n diwallu rhai o'r anghenion hyn eisoes ar waith. Mae gan Fwrdd Rasio Ceffylau Prydain gynllun gweithredu clir sef Modernisation of British Racing⁶¹, mae wedi'i lywodraethu'n dda ac mae ganddo nifer o raglenni datblygu talent a gynhelir yn bennaf drwy Ysgolion Rasio Prydain. Ynghyd â'i aelod gyrff, mae Ffederasiwn Marchogol Prydain:

- yn datblygu strwythur llywodraethu newydd iddo'i hun dros y degawd nesaf;
- wedi llunio cynllun gweithredu cadarn;
- wedi rhoi rhaglenni Perfformiad o'r Radd Flaenaf, Potensial a Dechrau ar waith a ariennir gan Gronfa Chwaraeon y Loteri a'r Cyngor Chwaraeon i nodi, meithrin, hyrwyddo a chefnogi'r marchogion mwyaf talentog;
- wedi sefydlu rhaglenni gwyddor a meddygaeth chwaraeon i geffylau a marchogion.

7.5 Ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd. Mae Cynllun Strategol Ffederasiwn Marchogol Prydain ar gyfer 2005-2009⁶² yn trafod nifer o faterion sy'n cydberthyn i'r Strategaeth hon, ac y gellir eu darllen ochr yn ochr â hi. Yn ogystal, mae annog rhagoriaeth yn dibynnu ar gyflawni pob un o elfennau eraill y Strategaeth hon, fel y soniwyd uchod. Felly mae'r cynigion a nodir yn y Nod hwn yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae angen yr adnoddau datblygu mwyaf a mwyaf penodol i annog rhagoriaeth wirioneddol a chynaliadwy mewn chwaraeon tra'n peidio â dyblygu'r nodau strategol eraill. Felly, er enghraifft, mae'r angen i ddatblygu strwythur rhanbarthol i'r diwydiant ceffylau, a fydd, ymhlith manteision eraill, yn helpu i hybu rhagoriaeth mewn chwaraeon, wedi'i gwmpasu o dan Nod 1.

(a) Ymestyn y rhaglen datblygu hyfforddiant

7.6 Mae aelod gyrff Ffederasiwn Marchogol Prydain yn datblygu ac yn gweithredu Rhaglen Datblygu Hyfforddi unedig i bob camp a gweithgarwch hamdden. Mae wedi'i llunio yn ôl safonau newydd "Tystysgrif Hyfforddi'r DU" a bennir ar gyfer pob camp gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a Sports Coach UK, a bydd hefyd yn berthnasol i safonau sy'n cael eu datblygu gan y Ffederasiwn Marchogol Rhyngwladol. Mae'r rhaglen yn berthnasol i bob camp marchogaeth. Byddai ei lledaenu yn codi safonau yn y diwydiant drwyddo draw, a thrwy hynny yn helpu i gynyddu cyfranogiad.

CAM GWEITHREDU 41: Rhaglen Datblygu Hyfforddi

Cam Gweithredu: Estyn rhaglen datblygu hyfforddi Ffederasiwn Marchogol Prydain i sefydliadau eraill sydd am wella eu safonau hyfforddi hwythau.

Cyfrifoldeb: Ffederasiwn Marchogol Prydain.

Blaenoriaeth: Byrdymor

⁶¹ Gweler <http://www.britishhorseracing.com/>

⁶² Gweler www.bef.co.uk

ASTUDIAETH ACHOS – Hyfforddi a datblygu mewn chwaraeon eraill

Mae cyrff llywodraethu rygbi'r undeb, nofio, hwylio, pêl-droed, seiclo, criced a thenis wedi mabwysiadu polisiâu cadarn ar gyfer hyfforddi a datblygu hyfforddi. Mae cyfranogiad a llwyddiant yn y chwaraeon hyn ar gynydd o ganlyniad i'r buddsoddiad a wnaed mewn proffesiynoldeb yn y maes. Mae'r gwaith yn helpu i ddwyn ynghyd y diwydiannau sy'n gysylltiedig â'r chwaraeon mewn ffordd fwy cydlynol.

(b) Gwella safonau cyfleusterau

- 7.7 Fel golff, mae rasio cheffylau wedi codi safonau ei gyfleusterau am resymau masnachol da, gan greu amgylchedd sy'n annog mwy o bobl i ymwneud â'r gamp, rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad proffesiynol. Nid yw hynny yn wir, i'r un graddau, am y rhai ym myd chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn ymwneud â cheffylau. Mae Ffederasiwn Marchogol Prydain wrthi'n datblygu strategaeth ar y cyd â'i aelod gyrrff i annog cyfleusterau gwell. Mae'r gwaith hwn yn ystyried y cymorth sydd ei angen i sicrhau datblygu elit, cystadlu ar bob lefel, hyfforddi ac ymarfer ar bob lefel, mynediad i gefn gwlad, cyfleusterau ar gyfer clybiau ac ysgolion i'r rhai abl ac anabl. Bydd rhannu hyn o fewn y diwydiant yn ehangu'r manteision i bob sector.

ASTUDIAETH ACHOS – Yr Academi Criced

Mae perfformiad elit ym maes criced wedi arwain at gynydd sylweddol mewn proffesiynoldeb mewn criced ac, o ganlyniad, yn llwyddiant y tîm criced cenedlaethol. Bydd sefydliad marchogol cenedlaethol, fel y'i diffinnir yn Strategaeth Cyfleusterau'r Ffederasiwn, wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion mabolgampau a gweithgareddau hamdden marchogol yn dwyn yr un manteision o ran llwyddiant ym myd marchogaeth.

CAM GWEITHREDU 42: Strategaeth Cyfleusterau

Cam Gweithredu: Rhannu Strategaeth Cyfleusterau'r Ffederasiwn gyda chyrrff marchogaeth eraill.

Cyfrifoldeb: Ffederasiwn Marchogol Prydain.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

(c) Ymestyn rhaglenni datblygu athletwyr a cheffylau hirdymor

- 7.8 Defnyddir datblygiad hirdymor athletwyr mewn amryw gampau. Ei nod yw sicrhau'r hyfforddiant, y cystadlu a'r cyfnodau adfer cywir drwy gydol gyrfa athletwr ifanc, yn enwedig o ran twf a blynyddoedd datblygu pobl ifanc. Mae'n fframwaith i unigolion a'u cysylltiadau i helpu i bennu'r llwybr gorau er mwyn iddynt wireddu eu potensial. Mae'n helpu pobl i ddysgu i fwynhau eu hunain, hyfforddi, cystadlu'n effeithiol ac ennill yn y pen draw. Mae aelod gyrrff y Ffederasiwn yn cyflwyno rhaglen datblygiad hirdymor athletwyr i sicrhau bod pobl ifanc sy'n dechrau ym myd mabolgampau a gweithgareddau hamdden marchogol yn mwynhau'r profiad ac yn cael hwyl.

ASTUDIAETH ACHOS – Datblygiad Hirdymor Athletwyr ym myd nofio

Ers diwedd y 1990au mae'r byd nofio wedi ymgorffori datblygiad hirdymor athletwyr yn ei raglenni hyfforddi a chystadlu, ac wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y trefnir y gamp i bobl ifanc. Mae *The Journey Through Swimming* yn ganllaw ar gystadlu dros glwb i'r sir, ardal/rhanbarth ac yn genedlaethol hyd gael eich dewis i gynrychioli eich gwlad yn rhyngwladol. Mae'n esbonio nid yn unig yr hyn y gellir ei ddisgwyl ar bob lefel ond pam. Bydd rhai nofwyr yn cyrraedd pen y daith, bydd rhai yn mynd rhan o'r ffordd ond bydd pob un yn cael y cyfle gorau i wireddu eu potensial llawn os cânt eu trin yn unigolion. Mae'n bwysig o fewn y rhaglen gystadlu fod unigolion yn gallu cystadlu mewn digwyddiadau sy'n briodol i'w datblygiad a'u talentau. Adlewyrchir hyn yn y gwahanol fformatau ar gyfer cystadlaethau, sy'n helpu i sicrhau bod yr hyfforddwr yn gallu dewis y gystadleuaeth briodol i'w nofwyr.

- 7.9 Mae'r cysyniad o ddatblygiad hirdymor yr un mor werthfawr i geffylau ifanc. Er enghraifft, drwy sefydlu protocol lle y caiff y ceffylau ifanc gorau eu hyfforddi gan yr hyfforddwyr gorau, gan adnabod a rhoi cyhoeddusrwydd i'r elfennau allweddol mewn hyfforddi ceffylau ifanc yn llwyddiannus, ac efallai cynnal cyrsiau i hyfforddi hyfforddwyr a datblygu cynllun achredu. Dylai datblygiad hirdymor ceffylau a datblygiad hirdymor athletwyr fod yn gysylltiedig fel y bydd y marchogion gorau yn marchogaeth y ceffylau gorau yn y pen draw.

CAM GWEITHREDU 43: Rhaglenni Datblygu Athletwyr a Cheffylau Hirdymor

Cam Gweithredu: Ymestyn Rhaglenni Datblygu Athletwyr a Cheffylau Hirdymor i sefydliadau ceffylau eraill sydd am annog rhagoriaeth.

Cyfrifoldeb: Ffederasiwn Marchogol Cymru.

Blaenoriaeth: Tymor canolig.

(ch)Annog cyrff nad ydynt yn aelodau cyswllt i ymaelodi

- 7.10 Mae llawer o gyrff chwaraeon lleol yn trefnu gweithgareddau marchogol heb fod yn aelodau o gyrff llywodraethu cenedlaethol y gamp dan sylw. Weithiau ni weinyddir rheolau a rheoliadau yn dda, ac mae safonau o ran yswiriant ac iechyd a diogelwch yn is na'r hyn y dylid ei ddisgwyl. Er y gall costau fod yn is i'r rhai sy'n cymryd rhan, gall y profiad fod yn siomedig. Bydd dod â grwpiau sydd heb fod yn aelodau cyswllt yn aelodau uniongyrchol o'r cyrff llywodraethu presennol yn codi safonau, yn rhoi profiad gwell i gystadleuwyr ac yn annog rhagoriaeth. Caiff y grwpiau hyn eu hannog i ailystyried eu rolau a gweithio gyda'r corff llywodraethu perthnasol, a dylai cyrff llywodraethu eu helpu i ymaelodi.

CAM GWEITHREDU 44: Ymaelodi

Cam Gweithredu: Marchnata manteision ymaelodi i grwpiau nad ydynt yn aelodau cyswllt.

Cyfrifoldeb: Ffederasiwn Marchogol Prydain

Blaenoriaeth: Byrdymor.


Nod 8: Gwella ansawdd ein ceffylau a merlod a gweithgarwch bridio

- 8.1 Bydd bridio ceffylau a merlod o safon well yng Nghymru a Lloegr yn fuddiol i'r diwydiant ceffylau a gweddill y genedl. Bydd cynyddu gwerth ceffylau a merlod a fridir, a chyfran bridwyr a greoedd ar y farchnad, yn cynyddu'r manteision economaidd a chyflogaeth y mae'r busnesau hyn yn dod â hwy i ardaloedd gwledig a hefyd gwella'r fantolen fasnach. Bydd bridio ceffylau a merlod cystadlu ag iddynt anian dda a'r fath gyffurfiad ac iechyd nes eu bod yn parhau i gael eu marchogaeth am gyfnod llawer hwy hefyd o fudd i farchogion hamdden drwy sicrhau bod ceffylau a merlod o safon well ar gael iddynt drwy effaith raeadru.
- 8.2 Mae angen lleihau ar fridio ar hap ac er mwyn magu'r ceffylau a'r merlod o'r safon sydd ei hangen ar gwsmeriaid, dim ond gan y goreuon y dylai ebolion gael eu bridio, sut bynnag y diffinnir hynny gan y cyrff llywodraethu. Er bod y DU yn parhau gyda'r goreuon yn y byd o ran bridio ceffylau pedigri, mae wedi disgyn i'r trydydd safle o ran eu gwerthu. Erbyn hyn mae bridwyr ceffylau hyweddu a neidio dros glwydi yn gystadleuol yn prynu cyfran fawr o'u ceffylau gan gystadleuwyr tramor, sy'n eu marchnata'n fwy effeithiol. Mae ceffylau a merlod brodorol a chynhenid y DU yn dal i ragori ar y lleill, ac mae marchogion cynrychioliadol mewn digwyddiadau marchogaeth yn dal i ddefnyddio ceffylau sydd wedi'u bridio yn y DU, ond mae bridwyr tramor yn cau'r bwlch yn y ddau faes.
- 8.3 Nododd yr ymgynghoriad cychwynnol yn glir fod angen mwy o gydweithredu. Tynnodd sylw at broblemau sy'n codi o ddiffyg undod y sector bridio, sy'n cynnwys nifer fawr o sefydliadau sy'n aml yn fach. Mae marchnata, lobiö a chyfathrebu'n gyffredinol yn gallu bod yn ddryslyd ac yn aneffeithiol a chymaint yn cymryd rhan. Ymhlith cystadleuwyr tramor, mae llawer llai o sefydliadau yn cymryd rhan mewn bridio ac, ar y cyfan, mae ganddynt gorff cydlynu canolog. Dangosodd yr ymgynghoriad hefyd fod llawer o fridwyr o'r farn eu bod wrth alwedigaeth gostus a llafurus heb yr enillion ariannol cymesur yn debyg i amgylchiadau'r rhan fwyaf o ysgolion marchogaeth ac iardiau cadw a hurio ceffylau.

(a) Sefydlu cyrff arwain i gynorthwyo'r broses o wella ansawdd ceffylau a merlod

- 8.4 Prin, os o gwbl, yw'r gwledydd eraill sydd â chymaint o sefydliadau sy'n ymwneud â bridio ag sydd gan y DU. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dod o dan dri sector gwahanol - ceffylau rasio pedigri ac arabaid, bridiau brodorol a chynhenid, a cheffylau chwaraeon - pob un ac iddo nodweddion unigryw. Mae pob un o'r tri yn cyfrannu at y cyflenwad o geffylau a merlod hamdden. Mae bridio ceffylau rasio a cheffylau pedigri wedi'i gydlynyn'n arbennig o dda a gall y ddau sector arall ddysgu gwersi o hyn. Mae gan fridiau brodorol a chynhenid sefydliadau gwahanol (mewn rhai achosion mwy nag un y brid) sy'n ymroddedig i'w parhad. Mae Ffederasiwn Marchogol Prydain wedi sefydlu British Breeding i roi arweiniad ym myd bridio ceffylau chwaraeon sydd yn gyffredinol o waed cymysg (gweler y diagram).

Bridio ceffylau chwaraeon



Mae pob bridwr yn ceisio magu ceffylau o'r safon orau; yna mae'r ceffyl yn cyrraedd ei lefel ei hun yn dibynnu ar allu, hyfforddiant ac amgylchiadau.

- 8.5 Heblaw am rai eithriadau nodedig, mae prinder mawr o sgiliau marchnata yn y sector. Lle ceir marchnata, mae'n ddarniog oherwydd y nifer fawr o sefydliadau dan sylw, y mae gan lawer ohonynt gyllidebau bach, ac o ganlyniad i hynny y dryswch ymhlith darpar brynwyr o ran lle i fynd i gael cyngor a gweld ceffylau. Mae Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain yn hyrwyddo y Ceffyl Pedigri Prydeinig, yn y wlad hon a thramor, gan weithio gyda Chymdeithas Bridwyr Ceffylau Pedigri, y Tai Gwerthu a Masnach a Buddsoddi'r DU. Mae angen i weddill y sector bridio ddod ynghyd, rhannu adnoddau a chyflogi gweithwyr proffesiynol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i rinweddau a llwyddiannau eu ceffylau. Dylid sefydlu canolfannau rhithwir lle y gellir cyflwyno anifeiliaid ifanc, ar ran eu perchenogion, i ddarpar brynwyr, hyd yn oed ar fyr rybudd.
- 8.6 Mae llawer o sefydliadau bridio yn cynnal digwyddiadau graddio, gwerthuso a phrofi perfformiad, pob un â systemau gwahanol. Mae angen safoni ychydig er mwyn hyrwyddo gwerthiannau a marchnata a helpu darpar brynwyr i ddeall y sgoriau. Ar y cychwyn byddai hyn yn golygu dim byd mwy na defnyddio'r un ystod o farciau (er enghraifft 1-10), a'r un penawdau (cyflymder, cyffurfiad ac ati) i bob nodwedd a asesir. Ceir cyfleoedd hefyd i gymdeithasau rannu costau gorbenion gwerthusiadau drwy eu cynnal yn yr un lleoliad ar yr un diwrnod.

ASTUDIAETH ACHOS – Cynllun Gwerthuso Ceffylau Ifanc

Mae Cynllun Gwerthuso Ceffylau Ifanc, a hyrwyddir gan Ffederasiwn Marchogol Prydain a South Essex Insurance Brokers, yn asesu'n wrthrychol botensial ceffylau pedair blwydd oed o ran cadernid, y gallu i'w hyfforddi, y gallu i neidio, cyflymder ac anian. Mae'r gwerthusiadau:

- yn rhoi data am feirch a chesig er mwyn ei gwneud yn bosibl i adnabod anifeiliaid da mor gynnar â phosibl;
- yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu gwerthoedd bridio amcangyfrifedig (gweler paragraff 8.13 isod);
- nodi ansawdd mewn ceffylau unigol;
- yn amlygu'r ceffylau ifanc mwyaf talentog ac yn creu marchnad i geffylau ifanc wedi'u gwerthuso;
- yn rhoi gwybodaeth am werth mewn rhaglenni hyfforddi dilynol;
- yn darparu deunydd dibynadwy at ddefnydd ymchwil a datblygu.

Mae'r taflenni gwaith ar gael i'w defnyddio gan sefydliadau eraill.

- 8.7 Mae Cymdeithas Bridwyr Ceffylau Pedigri yn gofalu am anghenion y sector bridio ceffylau rasio pedigri. Fodd bynnag, o ran y sectorau bridio eraill byddai sefydlu cyrff arwain i helpu i wella safon ceffylau a merlod yn:
- annog mwy o gydweithredu o fewn a rhwng y sectorau bridio;
 - darparu rhwydwaith cyfathrebu mwy effeithlon rhwng bridwyr, sefydliadau bridio, marchogion a gyrwyr cystadleuol a hamdden a'u sefydliadau;
 - meithrin cysylltiadau agosach rhwng bridwyr ceffylau pedigri a bridwyr ceffylau nad ydynt yn rhai pedigri;
 - llefaru dros y diwydiant bridio ag un llais lle y bo'n briodol; er enghraifft, wrth ymdrin â'r Llywodraeth;
 - rhoi ffynonellau canolog o wybodaeth am fridio a chyngor arno;

- ei gwneud yn bosibl i staff cymwysedig a phrofiadol gael eu cyflogi i ymgymryd â marchnata a chyhoeddusrwydd;
- ymuno â'r byrddau croeso cenedlaethol i hyrwyddo teithiau prynu o amgylch greoedd ar gyfer darpar brynwyr gartref a thramor;
- sefydlu canolfannau lle y gellir cyflwyno anifeiliaid ifanc o safon gan nifer o fridwyr yn broffesiynol i'w gwerthu;
- annog ymchwil i'r farchnad o ran gofynion prynwyr ceffylau a merlod chwaraeon a hamdden, i gyfateb i'r wybodaeth sydd eisoes ar gael am geffylau rasio a bridiau brodorol;
- dangos manteision defnyddio meirch profedig a'u semen yn hytrach na bridio ar hap a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt;
- ymchwilio i effaith cyflwyno cynllun cymeradwyo meirch a fonitir gan y diwydiant;
- lleihau dyblygu ymdrech rhwng sefydliadau bridio;
- cynnig cyfle i ddatblygu Unedau Cymorth i Fridwyr, a allai ddod yn adnodd ac yn ganolfannau addysgol i fridwyr, datblygu cynlluniau bridio 'blaenllaw' a gwerthuso cynnydd genetig yn ogystal â hwyluso gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn wirfoddol i wella bridio;
- helpu i ddarbwylllo sefydliadau bridio bod angen cyflwyno systemau gwerthuso mwy safonol;
- helpu i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiant ceffylau y nodwyd bod ganddynt botensial yn ystod gwerthusiadau, ac annog ceidwaid i gyflwyno anifeiliaid ifanc i'w gwerthuso;
- helpu i wneud y defnydd gorau o'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol (gweler Cam Gweithredu 46 isod);
- rhoi cyhoeddusrwydd i fanteision Cynllun Nod Ansawdd Bridwyr (gweler isod) i'r greoedd a chwsmeriaid, ac annog greoedd i ymuno.

8.8 Byddai angen i endidau o'r fath gael eu hystyried gan y sefydliadau bridio sy'n bodoli eisoes gyda'u gwahanol safbwyntiau, yn gyrrff cynrychioliadol a diduedd nad ydynt yn fygythiad. Rhagwelir y bydd tri chorff arwain o'r fath. (1) Corff Arwain Ceffylau Chwaraeon (British Breeding o bosibl); (2) Corff Arwain Ceffylau a Merlod Brodorol a Chynhenid; a (3) Corff Arwain Ceffylau a Merlod Hamdden. Gan y byddai materion yn codi a fyddai'n bwysig i'r diwydiant cyfan, mae angen cael modd i'r tri chorff hyn, ynghyd â Chymdeithas Bridwyr Ceffylau Pedigri, weithredu ar y cyd pan fo angen (gallai hyn gael ei wneud drwy Gyddfederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain o bosibl).

8.9 Yn ysbryd cydweithredu a rhannu costau, dylid ystyried y datganiadau a wneir yn Nod 1 lle y cyhoeddir Canolfan Ceffylau Genedlaethol. Gallai canolfan o'r fath fod yn ganolfan i lawer o'r sefydliadau bridio y mae eu prif swyddfeydd yn aml yn dibynnu ar leoliad yr unigolyn sy'n dal swydd ysgrifennydd ar y pryd, gan arwain at gryn arbedion o ran gorbenion a gweithio mwy effeithiol. Gallai o bosibl fod yn lleoliad ar gyfer gwerthusiadau a graddio, yn fan gwerthu canolog i brynwyr o dramor ac yn atyniad canolog i'r rhai â diddordeb mewn ceffylau pedigri nad ydynt yn geffylau rasio, ceffylau a merlod chwaraeon a cheffylau a merlod hamdden i gyfateb i'r hyn a geir mewn sawl gwlad Ewropeaidd arall.

Mae gan fridio ceffylau pedigri, wrth gwrs, ganolfan gydnabyddedig eisoes yn Newmarket.

CAM GWEITHREDU 45: Cyrff arwain i helpu i wella ansawdd ceffylau a merlod

Cam Gweithredu: Sefydlu cyrff arwain i helpu i wella ansawdd ceffylau a merlod

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain yn y lle cyntaf.

Blaenoriaeth: Byrdymor

(b) Manteisio ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol i wella bridio

- 8.10 Mae ansawdd a photensial rhai ceffylau ym Mhrydain o ran perfformiad cystal ag unrhyw beth a geir yn y byd. Yn anffodus, cronfa fach ydyw, o dan gysgod llawer o anifeiliaid o safon gyffredin. Er mwyn atal y diwydiant bridio ceffylau rhag dirywio eto ac adennill y tir a gollwyd mae'n hanfodol gwella ansawdd cyffredinol y re genedlaethol. Ni wneir y defnydd gorau o arbenigedd a phrofiad aruthrol bridwyr y wlad hon gan fod tuedd i weithredu'n annibynnol. Yr ateb yw creu ffynhonnell o ddata cenedlaethol a chynhwysfawr, sy'n cynnwys gwybodaeth am fridio a pherfformiad, a fydd yn fodd i bawb elwa ar brofiadau ei gilydd.
- 8.11 Mae'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol (NED) yn brosiect ar y cyd rhwng Defra a'r diwydiant ceffylau. Bydd yn ffynhonnell ganolog o wybodaeth ddibynadwy am geffylau sydd wedi'u bridio, wedi'u cofrestru neu o dan berchenogaeth yn y DU. O 2006, dylai gwybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd ar-lein. Bydd prynwyr, gwerthwyr a bridwyr yn gallu mynd i un man i gael enw ceffyl ac unrhyw enw blaenorol, rhif cofrestru, brid, rhyw, oedran, uchder a phedigri ynghyd ag unrhyw werthusiad cystadleuaeth a chanlyniadau graddio. Bydd cymdeithasau bridiau, llyfrau greoedd, disgyblaethau cystadlaethau a chyrrff cyfrifol eraill yn darparu gwybodaeth wedi'i dilysu am bedigri, perfformiad, gwerthusiad a graddio (PPEG) yn wirfoddol. Y Llywodraeth fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ei angen i sefydlu NED a rheoli'r broses dan sylw, gyda'r diwydiant ceffylau yn gwneud cyfraniad sylweddol drwy gymryd rhan yn y broses gynllunio, gan roi cyngor proffesiynol, cyfrannu data ac o ran cysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd. Ar ôl ei sefydlu'n llawn, bydd angen i sefydliad NED ariannu ei hun i dalu am gostau gwasanaeth a datblygu. Daw refeniw o werthu data, ynghyd â chyfraniad parhaus gan Defra oherwydd ei diddordeb mewn cynnal a chadw'r system ddata graidd. Ymhlith manteision eraill y Gronfa Ddata bydd yn helpu i roi gwybodaeth fwy cywir am faint a siâp y diwydiant ceffylau, yn cynorthwyo o ran lles ceffylau i nodi ceidwaid anifeiliaid gadawedig ac atal dwyn (o'i defnyddio ar y cyd â gosod microsglodynion) a dangos cydymffurfiaeth y DU â deddfwriaeth yr UE ynglŷn â phasbortau.

- 8.12 Er mwyn i'r Gronfa Ddata lwyddo i roi data i helpu i wella bridio ceffylau, mae'n hanfodol bod cyrff y diwydiant y gelwir arnynt i roi gwybodaeth PPEG yn wirfoddol yn gwneud hynny. Mae'r un mor bwysig bod y system o Rifau Oes Unigryw i Geffylau (UELNs) yn cael ei chyflwyno mor fuan â phosibl.
- 8.13 Yn ogystal â'r manteision a rydd i fridwyr unigol, prynwyr ceffylau a chyrff masnachol ac ymchwil ac addysgu, mae'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol yn rhoi cyfle i'r sector bridio yn ei gyfanrwydd. Bydd yn ffynhonnell o wybodaeth i'w gwneud yn bosibl i gyfrifo Gwerthoedd Bridio Amcangyfrifedig meirch a chesig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fridwyr achlysurol a phroffesiynol gymharu gwerth bridio anifeiliaid ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau hyddysg a ddylai helpu i leihau bridio ar hap o anifeiliaid anaddas. Bydd NED yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dilysu am bedigri a pherfformiad anifeiliaid bridio, eu tras a'u hepilion a bydd yn arwain at brosesau marchnata ar sail gwybodaeth well. Bydd NED hefyd yn llywio'r gwaith ymchwil a wneir ar hyn o bryd i ganfod namau genetig sy'n dod i'r amlwg yn ystod hyfforddi a chystadlu.

CAM GWEITHREDU 46: Manteisio ar y data a geir yn NED

Cam Gweithredu: Defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael gan NED i: ddethol anifeiliaid yn well ar gyfer bridio, datblygu system seml o gymharu gwerthoedd bridio cesig a meirch; coladu a marchnata data am bedigri a pherfformiad; rhoi data i helpu i farchnata ceffylau a merlod a gwaith a wneir i ddileu namau genetig; a sicrhau bod sgoriau gwerthuso yn hysbys.

Cyfrifoldeb: Cyrff arwain newydd i wella bridio (gweler Cam Gweithredu 45).

Blaenoriaeth: Dechrau yn y byrdymor gyda'r canlyniad terfynol yn yr hirdymor.

(c) Codi safonau mewn greoedd

- 8.14 Er y cydnabyddir bod llawer o reoedd yn effeithlon, mae pryder bod eraill yn gweithio i safonau is, heb y polisiau perthnasol ar waith ac nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r elfennau sylfaenol o gadw cofnodion i gyflawni eu huchelgeisiau fel greoedd. Mae Cynllun Nod Ansawdd Bridwyr a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gyfle i unioni'r sefyllfa hon drwy osod safonau. Mae angen i'r diwydiant bridio gefnogi'r cynllun a chydweithredu yn y broses o'i gyflwyno fel safon gyffredin ar draws pedwar sector y diwydiant. Mae hwn yn gyfle arall i gyrff gydweithredu, o dan arweiniad eu priod gyrff arwain.

ASTUDIAETH ACHOS – Cynllun Nod Ansawdd y Bridwyr

Mae Ffederasiwn Marchogol Prydain, drwy British Breeding, wedi cyflwyno cynllun gwirfoddol gyda'r nod o roi mwy o hyder i'r rhai sy'n bridio a/neu'n prynu ceffylau a merlod a gwneud ceffylau/merlod o'r fath a'u semen yn fwy gwerthadwy. Cyflawnir hyn drwy gydnabod a gwella ansawdd cadw cofnodion ac atal clefydau a damweiniau ar reoedd, sydd yn ei dro yn gydnabyddiaeth bellach o sgiliau bridwyr ac yn gwneud eu data bridio yn fwy dilyd. Mae hawl gan y greoedd hynny sy'n cyrraedd y safonau a bennwyd i arddangos Nod Ansawdd Bridwyr ar eu papur ysgrifennu, mewn deunydd hysbysebu ac fel plac ar y wal.



I gwsmeriaid mae'r nod ansawdd yn brawf bod y re wedi cyrraedd y safonau angenrheidiol yn nhyb y Ffederasiwn ar gyfer gweithredu safle lle mae iechyd, lles ac effeithlonrwydd cenhedlu'r stoc bridio yn hollbwysig; a lle y gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd caseg/march/ebol yn dychwelyd adref yn rhydd o glefyd ac anaf ac y ceisir gwasanaeth priodol gan filfeddyg lle y bo angen.

I reoedd mae'n golygu bod ganddynt arf marchnata newydd yn yr ystyr y gellir yn rhesymol ddisgwyl i gwsmeriaid edrych yn fwy ffafriol ar reoedd sy'n dwyn y logo ar eu papur ysgrifennu ac yn eu hysbysebion. Fodd bynnag, rhaid talu pris yn yr ystyr bod rhaid i reoedd gyrraedd a chynnal y safonau uchel a bennwyd er mwyn cael Nod Ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfio â chanllawiau'r Bwrdd Ardoll Betio Rasio Ceffylau a Chymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain a chadw cofnodion manwl ar gyfer ceffylau a merlod preswyl a'r rhai sy'n ymweld, ac, os yw'n gymwys, cynhyrchu, trin a chludo semen ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi.

- 8.15 Pan fydd ceffyl neu ferlyn yn llwyddo yn y cylch cystadlu, mae'r marchog yn cael cydnabyddiaeth ac mae enw'r anifail yn dod yn gyfarwydd, ac mae'r noddwr hefyd yn cael cyhoeddusrwydd fel arfer. Fodd bynnag, yn wahanol i'r cae rasio, prin fod y bridwyr a'r hyfforddwr yn cael cydnabyddiaeth a phrin fod y bridio yn cael ei nodi. Mae hyn yn digalonni bridwyr, na fyddai eraill yn y gadwyn wedi cael bri heblaw am eu gwaith hwythau. At hynny, mae bridwyr o safon a chanddynt ychydig o gesig yn unig yn aml yn gorfod gwerthu ceffylau yn ifanc am brisiau cymharol isel, oherwydd ni all eu busnes fforddio eu cynnal nes eu bod yn ddigon hen i ddechrau cael eu hyfforddi o ddifrif a dangos eu gwerth. Mae angen cymhellion ychwanegol ar fridwyr, yn enwedig y rhai bychain, fel y gellir cadw eu harbenigedd a chynnal y gronfa genynnau gyffredinol. Gallai Cynllun Gwobrwyo Bridwyr y Bwrdd Ardoll Betio Rasio Ceffylau ar gyfer ceffylau pedigri fod yn fodel i ddatblygu cynllun cymell i'r sector nad yw'n bridio ceffylau pedigri. Ceir cynlluniau tebyg mewn gwledydd eraill lle telir cymelldaliadau i berchenogion neu lle telir ffioedd gre dros berchenogion nad ydynt ond yn cadw nifer fach o gesig o safon y maent yn barod i'w bridio â meirch o'r safon orau.

ASTUDIAETH ACHOS - Cesig Premiwm y Dalaith

Yn yr Almaen, mae Hanofer a sawl talaith arall yn cynnal cynllun i fridwyr bach, lle rhoddir y rhagddodiad StPrSt (caseg breimiwm y dalaith) i'r cesig gorau o flaen eu henwau am oes. Mae'r cesig premiwm cydnabyddedig hyn bob amser yn denu pris uchel pan fyddant yn dod ar y farchnad.

CAM GWEITHREDU 47: Cydnabod cesig o safon

Cam Gweithredu: Penderfynu ar feini prawf y cytunwyd arnynt ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud caseg (ac eithrio cesig pedigri rasio) yn gymwys i fod yn gaseg 'Bremiwm'. Dechrau Dynodiad Caseg Bremiwm. Sefydlu rhaglenni gwerthuso Cesig Premiwm.

Cyfrifoldeb: Y tri Chorff Arwain arfaethedig ar gyfer ceffylau nad ydynt yn geffylau pedigri.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

CAM GWEITHREDU 48: Premiymau ar gyfer cesig o safon

Cam Gweithredu A: Cynhyrchu digon o incwm o fentrau British Breeding a nawdd er mwyn gallu cynnig premiymau i:-

- cesig a meirch a fridiwyd ym Mhrydain (ac eithrio cesig a meirch pedigri rasio) sy'n cyrraedd safonau graddio penodedig;
- bridwyr ym Mhrydain sy'n cael llwyddiant ysgubol;
- llwyddiant gan geffylau a merlod a fridiwyd ym Mhrydain mewn cystadlaethau dethol.

Cam Gweithredu B: Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno consesiynau treth wladol a threth leol ar gyfer anifeiliaid o'r fath.

Cyfrifoldeb: British Breeding.

Blaenoriaeth: Byrdymor i'r tymor canolig.

(ch) Cydbwyso gwelliannau genetig ag amrywiaeth genetig

- 8.16 Mae angen cydbwyso'r ymgais am welliant genetig â chynnal amrywiaeth genetig, gan sicrhau 'iechyd' genetig y re genedlaethol a chynnal y cyfanswm genetig.

ASTUDIAETH ACHOS – Adroddiad 2002 y DU ar Adnoddau Genetig Anifeiliaid Fferm

Dangosodd hwn fod amrywiaeth mawr o adnoddau genetig ceffylau a bridiau brodorol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i raglenni bridio ac yn cyflawni amcanion allweddol o ran bioamrywiaeth yn ogystal ag atgyfnerthu hunaniaeth a diwylliant rhanbarthau. Ers hynny sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cenedlaethol i lywio polisi'r Llywodraeth a helpu i fonitro a rheoli adnoddau genetig anifeiliaid fferm. Yn ogystal â chynhyrchu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, mae'r Pwyllgor yn anelu at:

- nodweddu bridiau a hyrwyddo eu manteision a'u defnydd (er enghraifft, y defnydd o fridiau brodorol megis merlod Exmoor a'r Fforest Newydd mewn rhaglenni pori sy'n cyflawni amcanion pwysig eraill o ran bioamrywiaeth);
- cadw rhestr o anifeiliaid pedigri mewn cydweithrediad â chymdeithasau bridiau;

- cytuno ar flaenoriaethau cadwraeth gyda rhanddeiliaid, yn enwedig ar gyfer y bridiau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf megis Suffolk Punch a Cleveland Bay;
- gwella bridiau.

ASTUDIAETH ACHOS – Y duedd i etifeddu anhwylderau

Mae Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain a'r Ymddiriedolaeth Iechyd Anifeiliaid yn gwneud gwaith ar y duedd i etifeddu anhwylderau mewn ceffylau pedigri. Dros amser gellid cymhwyso hyn i bob ceffyl gyda'r nod o ddileu rhai rhagdueddiadau (er enghraifft gwythiennau toredig).

(d) Gwarchod ceffylau a merlod brodorol a chynhenid

- 8.17 Mae'r DU yn unigryw yn y ffaith bod yma amrywiaeth mawr o fathau o geffylau a merlod brodorol sydd wedi datblygu dros y canrifoedd. Mae'r anifeiliaid hyn yn frodorol i sawl ardal o gefn gwlad ac maent wedi datblygu mewn ymateb i'r ardaloedd lle maent yn byw a'r hinsawdd y maent wedi gorfod byw ynddo. Maent yn wir yn rhan o dreftadaeth y wlad, ac mae gan bob brid brodorol ei lyfrau gre ei hunan sydd mewn llawer achos yn gallu olrhain eu tras dros y ganrif ddiwethaf. Mae marchnad fawr i anifeiliaid o'r fath, yn y wlad hon a thramor a chywir dweud nad oes gan unrhyw wlad arall yn y byd ddim byd i'w gymharu â bridiau brodorol Prydain. Maent yn boblogaidd iawn ac mae'r poblogrwydd hwnnw wedi cynyddu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. A nifer fawr o gystadlaethau wedi'u cyfyngu i fridiau brodorol yn unig erbyn hyn, mae'r farchnad i'r anifeiliaid hynny wedi cynyddu. Bellach maent yn gymwys i gystadlu ar y lefel uchaf gyda rowndiau olaf cystadlaethau yn y prif sioeau, gan gynnwys Sioe Ceffyl y Flwyddyn ac Olympia. Mae'r dosbarthiadau bridiau ar dennyn sy'n boblogaidd bellach wedi cael eu hestyn i nifer fawr o ddosbarthiadau perfformiad o dan gyfrwy ac mewn harnais. Mae bridiau brodorol yn gallu bod yn addas i bob aelod o'r teulu ac mae llawer ohonynt yn wydn, yn amlbwrpas ac yn haws eu cadw'n aml.
- 8.18 Awgrymodd ymatebion i'r ymgynghoriad fod rhai o'r cymdeithasau bridiau ceffylau a merlod brodorol a chynhenid yn ystyried mai eu prif rôl oedd diogelu'r brid heb ei newid a sicrhau ei barhad, a bod y bridio hwnnw, yn enwedig ym maes merlod brodorol yn cael ei wneud fel hobi yn bennaf. Fodd bynnag, mae ceffylau a merlod, yn enwedig y bridiau brodorol, yn ddi-os, yn atyniad i dwristiaid ac, mewn llawer ardal o Gymru a Lloegr, yn gyfrifol am symiau sylweddol o refeniw'r rhanbarth. Trafodir rôl ceffylau a merlod mewn prosiectau pori er lles cadwraeth yn fanylach yn Nod 6 a cheir rhagor am eu defnydd mewn prosiectau twristiaeth yn Nod 3.

ASTUDIAETH ACHOS – Cynllun i droi Merlod Bryniau Gogledd Lloegr (*Fell Ponies*) yn atyniad i dwristiaid

Nododd David Anthony Murray, mewn adroddiad a noddwyd yn rhannol gan Defra fod y merlod prin mewn perygl o fod cyn brinned â morfilod gleision neu ddyfrgwn ac awgrymodd y dylid trefnu ymweliadau i weld Merlod Bryniau Gogledd Lloegr yn eu cynefin. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i bobl ganfod lle mae'r merlod a dod o hyd iddynt eu hunain ar y Bryniau.

CAM GWEITHREDU 49: Cymorth i fridiau brodorol a chynhenid

Cam Gweithredu: Dechrau trafodaethau gyda Defra, English Nature, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a Bwrdd Croeso Lloegr o ran cydnabod merlod a cheffylau brodorol a chynhenid fel rhan hanfodol o'r broses o ddiogelu cynefinoedd naturiol ac fel ased gwerthfawr i'r diwydiant twristaidd.

Cyfrifoldeb: Cyrff arwain ar gyfer ceffylau a merlod brodorol a chynhenid.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

(dd) Hyfforddi ceffylau ifanc

- 8.19 Weithiau mae bwlch mawr rhwng potensial y ceffyl a fagwyd gan y bridiwr a gallu a pherfformiad yr anifail sy'n cael ei farchogaeth neu ei yrru yn y pen draw. Nid oes diben bridio ceffylau a merlod o safon oni bai eu bod yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r perfformiad gorau posibl beth bynnag fo'u rôl. Mae'n rhaid annog y rhai sy'n hyfforddi ceffylau ifanc i'w galluogi i fagu ceffylau sy'n perfformio hyd eithaf eu gallu corfforol. Mae'r gofyniad pwysig hwn hefyd yn dangos, unwaith eto, y cyswllt hanfodol rhwng iechyd a lles ceffylau ac ymdrechion y diwydiant i gyflawni ei botensial llawn.

Adnoddau, Monitro a Gweithredu

Y camau nesaf

Gweithredu – Y cynllun gweithredu

Er bod gwaith yn mynd rhagddo mewn sawl maes, ni chaiff y Camau Gweithredu yn y Strategaeth hon eu cymryd yn llawn ar unwaith. Fodd bynnag, o gael ymrwymiad a chydgyssylltu gan bob sector o'r diwydiant, caiff cynnydd ei wneud. Datblygir Cynllun Gweithredu ar wahân i bennu pwy sy'n gyfrifol am weithredu ar bethau, yr hyn y dymunir ei gyflawni, y sefyllfa sydd ohoni a'r camau nesaf. Bydd y cynllun hwn, a gaiff ei gyhoeddi ar ddechrau 2006, yn fodd i fesur effeithiolrwydd y Strategaeth hon a'r cynnydd a wneir o ran ei rhoi ar waith. Gellir ei defnyddio fel canllaw dros y flwyddyn nesaf i fonitro cynnydd a bydd yn sylfaen i adroddiad cynnydd, a gynhyrchir ar ddiwedd 2006/dechrau 2007. Gall y Cynllun Gweithredu hwn newid wrth i'r diwydiant ddatblygu ac wrth i'r Camau Gweithredu gael eu cymryd, felly bydd y broses adolygu yn bwysig i sicrhau bod y Cynllun hwn yn datblygu ochr yn ochr â'r diwydiant. Mae'n bosibl y caiff rhagor o adroddiadau eu cynhyrchu yn y blynyddoedd dilynol neu ar ddiwedd y cyfnodau priodol.

Adnoddau

Ni chaiff y Strategaeth hon ei gweithredu heb fynd i gostau. Er mwyn cyflawni'r amcanion ar y cyd, bydd angen i bob rhan o'r diwydiant ceffylau barhau i fuddsoddi digon yn natblygiad y diwydiant, a bydd angen i'r Llywodraeth barhau i chwarae ei rhan. Dim ond os oes disgwyliad sicr y bydd y Strategaeth yn dwyn ffrwyth ar ffurf diwydiant mwy iach a chynaliadwy, sy'n cyfrannu'n fwy effeithiol i'r economi, cymunedau gwledig a chyflogaeth a nifer o fanteision eraill i'r cyhoedd y bydd y gwahanol bartion yn gwneud y buddsoddiad hwnnw. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i'r Strategaeth gael cefnogaeth gyffredinol er mwyn sicrhau cyllid digonol i'w gweithredu. Bydd y broses adroddiadau a amlinellir uchod yn ddefnyddiol i gadarnhau a oes digon o ymrwymiad ac a roddir digon o adnoddau.

CAM GWEITHREDU 50: Monitro'r Strategaeth

Cam Gweithredu: Cyhoeddi Cynllun Gweithredu yn ystod gwanwyn 2006. Cynhyrchu adroddiadau dilynol ar gynnydd ar gamau addas i fonitro llwyddiant y strategaeth a datblygiad y diwydiant ceffylau.

Cyfrifoldeb: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain a Defra.

Blaenoriaeth: Byrdymor.

Atodiad A

TARGEDAU CYTUNDEB GWASANAETH CYHOEDDUS ADRANNAU'R LLYWODRAETH

O dan drefniadau monitro Perfformiad Gwasanaeth Cyhoeddus y Llywodraeth, mae'n ofynnol i bob Adran gytuno ar nifer o dargedau yn ymwneud â meysydd allweddol o'u cyfrifoldebau polisi gyda Thrysorlys EM. Mae'r targedau hyn, a amlinellwyd mewn Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus⁶³ ar wahân, yn newid sylweddol yn ansawdd gwasanaeth penodol, neu welliant ym mywydau pobl ar draws y DU. Mae'r targedau hyn yn flaenoriaethau i'r Adrannau a chaiff symiau mawr o gyllid cyhoeddus eu sianelu tuag at eu cyflawni. Caiff y Targedau eu hadolygu fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2007.

Mae gan y Diwydiant Ceffylau y potensial i gyfrannu tuag at gyflawni llawer o'r targedau hyn, a thrwy hynny ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell a gwella ansawdd bywyd i bawb. Yn gyfnewid am hynny, gallai'r diwydiant elwa ar ymwneud yn agosach â blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth, ac felly dod yn rhan o brif ffrwd polisi cyhoeddus. Fodd bynnag, y diwydiant sy'n gorfod dadlau dros ei gyfraniad drwy ymwneud yn adeiladol wedi'i danategu gan dystiolaeth glir a darbwyllo.

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
Adran Addysg a Sgiliau Nod cyffredinol: Helpu i adeiladu economi gystadleuol a chymdeithas gynhwysol drwy: greu cyfleoedd i bawb ddatblygu eu dysgu; rhyddhau potensial pobl i wneud y gorau ohonynt eu hunain; cael rhagoriaeth mewn safonau addysg a sgiliau	Amcan I: parhau â gwelliannau mewn addysg gynradd. 1. Codi safonau mewn Saesneg a Mathemateg er mwyn sicrhau'r canlynol: - erbyn 2004 mae 85% o blant 11 oed yn cyrraedd lefel 4 neu uwch ac mae 35% yn cyrraedd lefel 5 neu uwch, gan barhau â'r perfformiad hwn tan 2006; - erbyn 2006, mae nifer yr ysgolion lle mae llai na 65% o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 4 neu uwch yn llawer llai.
	Amcan II: trawsffurfio addysg uwchradd. 2. Codi safonau mewn Saesneg, Mathemateg, TGCh a gwyddoniaeth mewn addysg uwchradd er mwyn sicrhau'r canlynol: - erbyn 2004 mae 75% o blant 14 oed yn cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg, Mathemateg a TGCh (70% mewn gwyddoniaeth) yn genedlaethol, ac erbyn 2007 85% (80% mewn gwyddoniaeth); - erbyn 2007, mae nifer yr ysgolion lle mae llai na 60% o blant 14 oed yn cyrraedd lefel 5 neu uwch yn llawer llai; - erbyn 2007 mae 90% o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg erbyn 12 oed.

⁶³ Mae pob un o'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus Adrannol ar wefan y Trysorlys: www.hm-treasury.gov.uk/performance/index.cfm

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
	Amcan III: cynnwys disgyblion 4. Cynyddu nifer y plant 5-16 oed sy'n manteisio ar gyfleoedd chwaraeon drwy gynyddu canran y plant ysgol sy'n treulio o leiaf dwy awr yr wythnos ar Addysg Gorfforol o safon dda a chwaraeon ysgolion o fewn y cwricwlwm a thu hwnt iddo o 25% yn 2002 i 75% erbyn 2006. Targed ar y cyd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
	Amcan IV: codi cyrhaeddiad ymhlith plant 14-19 oed. 5. Codi safonau mewn ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau'r canlynol: • rhwng 2002 a 2006 mae canran y plant 16 oed sy'n ennill cymwysterau sy'n cyfateb i bum TGAU graddau A* i C yn codi 2 bwynt canran bob blwyddyn ar gyfartaledd ac ymhob ysgol mae o leiaf 20% o ddisgyblion yn cyrraedd y safon hon erbyn 2004 gan godi i 25% erbyn 2006; • mae canran y bobl ifanc 19 oed sy'n cyrraedd y safon hon yn cynyddu 3 phwynt canran rhwng 2002 a 2004, gyda chynnydd arall o 3 phwynt canran erbyn 2006.
	Amcan V: gwella sgiliau pobl ifanc ac oedolion a gwella ansawdd darpariaeth dysgu ôl-16 a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan ynddi. 6. Erbyn 2004, mae o leiaf 28% o bobl ifanc yn dechrau Prentisiaeth Fodern erbyn 22 oed. 7. Erbyn 2010 bydd 90% o bobl ifanc erbyn 22 oed wedi cymryd rhan mewn rhaglen lawn amser sy'n eu paratoi ar gyfer addysg uwch neu gyflogaeth sgil uchel.
	Amcan VI: mynd i'r afael â phrinder sgiliau ymhlith oedolion. 10. Gwella sgiliau sylfaenol 1.5 miliwn o oedolion rhwng lansio Sgiliau am Oes yn 2001 a 2007, gyda charreg filltir o 750,000 erbyn 2004. 11. Lleihau nifer yr oedolion yn y gweithlu nad ydynt yn meddu ar gymwysterau NVQ 2 neu gymwysterau cyfatebol o leiaf 40% erbyn 2010. Gan weithio tuag at hyn, sicrhau bod miliwn o oedolion yn y gweithlu yn cyrraedd lefel 2 rhwng 2003 a 2006.

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Nod Cyffredinol: Cymunedau ffyniannus, cynhwysol a chynaliadwy ym mhob rhanbarth	Amcan I: gweithio gyda phob un o Adrannau a pholisïau'r Llywodraeth i gael mwy o gynhwysiant cymdeithasol, adfywio cymdogaethau a ffyniant rhanbarthol. 1. Hyrwyddo'r broses o integreiddio polisïau yn well yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol; yn arbennig gweithio gydag adrannau i'w helpu i gyrraedd targedau sylfaen eu Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer adfywio cymdogaethau a chynhwysiant cymdeithasol. 2. Gwneud gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad economaidd rhanbarthau Lloegr a thros y tymor hir i gau'r bwlch cyson mewn cyfraddau twf rhwng y rhanbarthau, gan bennu mesurau i wella perfformiad a rhoi adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y mesurau hyn erbyn 2006. Targed ar y cyd â Thrysorlys EM a'r Adran Masnach a Diwydiant.
Yr Adran Iechyd Nod Cyffredinol: Trawsnewid y system iechyd a gofal cymdeithasol fel ei bod yn cynhyrchu gwasanaethau cyflymach a thecach sy'n sicrhau iechyd gwell ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd	Amcan II: gwella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. 6. Lleihau'n sylweddol gyfraddau marwolaethau oherwydd y prif glefydau sy'n lladd erbyn 2010: clefyd y galon o leiaf 40% ymhlith pobl o dan 75; canser o leiaf 20% ymhlith pobl o dan 75. 7. Gwella canlyniadau bywyd oedolion a phlant â phroblemau iechyd meddwl drwy welliannau o flwyddyn i flwyddyn yn y gwasanaethau mewn argyfwng a CAMHS sydd ar gael, a lleihau'r gyfradd marwolaethau oherwydd hunanladdiad ac anafiadau amhenodol o leiaf 20% erbyn 2010. 8. Erbyn 2010 lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd 10% fel y mesurwyd gan farwolaethau ymhlith babanod a disgwyliad oes ar adeg genedigaeth.

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
Y Swyddfa Gartref Nod Cyffredinol: Adeiladu cymdeithas ddiogel, cyfiawn a goddefgar.	Amcan I: Lleihau troseddau ac ofn troseddau, gan gynnwys troseddau cyfundrefnol a rhyngwladol. 1. Lleihau troseddau ac ofn troseddau; gwella perfformiad cyffredinol, gan gynnwys drwy leihau'r bwlch rhwng ardaloedd Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anrhefn sydd â'r nifer fwyaf o droseddau a'r ardaloedd cymharol gorau; a lleihau: • troseddau yn ymwneud â cherbydau 30% o 1998-99 i 2004; • bwrgeriaeth yn y cartref 25% o 1998-99 i 2005; • lladrad yn y 10 ardal lle cynhelir mentrau Troseddu ar y Stryd 14% o 1999-2000 i 2005; cynnal y lefel honno. Targed sy'n cyfrannu at Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus y System Cyfiawnder Troseddol Amcan III: rhoi dedfrydau carcharol a chymunedol effeithiol i leihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. 5. Diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu 5%: • i droseddwyd ifanc; • i oedolion sydd wedi'u dedfrydu i dymor o garchar ac oedolion sydd wedi'u dedfrydu i ddedfrydau cymunedol; • parhau â'r gyfradd isel bresennol o garcharorion sy'n dianc o'r carchar, gan gynnwys carcharorion Categori A. • cyfrannu at Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus y System Cyfiawnder Troseddol Amcan VI: cefnogi cymunedau cryf a gweithgar lle mae pobl o bob hil a chefnidir yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cymryd rhan yn gydradd. 8. Cynyddu gweithgarwch yn y sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys cynyddu cyfranogiad cymunedau 5% erbyn 2006.
Yr Adran Drafnidiaeth Nod Cyffredinol: Trafnidiaeth sy'n gweithio i bawb.	5. Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ym Mhrydain Fawr mewn damweiniau ar y ffordd 40% a nifer y plant sy'n cael eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol 50% erbyn 2010 o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 1994-98, gan fynd i'r afael â'r achosion llawer mwy niferus mewn cymunedau difreintiedig.

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
Yr Adran Masnach a Diwydiant Nod Cyffredinol: Sicrhau ffyniant i bawb drwy wella cynhyrchiant a chystadleugarwch drwy wyddoniaeth ac arloesi o'r radd flaenaf, menter a busnes llwyddiannus, a marchnadoedd teg a chystadleuol.	Amcan IV: menter a busnes llwyddiannus. 6. Helpu i adeiladu cymdeithas lawn mentergarwch lle mae cwmnïau bach o bob math yn ffynnu ac yn cyflawni eu potensial, gyda (i) cynnydd yn nifer y bobl sy'n ystyried dechrau busnes, (ii) gwelliant yng nghynhyrchiant cyffredinol cwmnïau bach a (iii) mwy o fentergarwch mewn cymunedau difreintiedig. 7. Gwneud gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad economaidd rhanbarthau Lloegr a thros y tymor hir cau'r bwlch cyson mewn cyfraddau twf rhwng y rhanbarthau, gan bennu mesurau i wella perfformiad a rhoi adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y mesurau hyn erbyn 2006. Targed ar y cyd â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Thrysorlys EM.
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Nod Cyffredinol: Gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi anelu at ragoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth, y diwydiant creadigol a'r diwydiant hamdden.	Amcan I: Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a datblygu ein sectorau. 1. Cynyddu nifer y plant 5-16 oed sy'n manteisio ar gyfleoedd chwaraeon drwy gynyddu canran y plant ysgol sy'n treulio o leiaf dwy awr yr wythnos ar Addysg Gorfforol o safon dda a chwaraeon mewn ysgolion o fewn y cwricwlwm a'r tu hwnt iddo o 25% yn 2002 i 75% erbyn 2006. Targed ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau. 2. Cynyddu'n sylweddol nifer y defnyddwyr newydd 20 oed a hyn o grwpiau â blaenoriaeth sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

Adran	Amcanion a Thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Nod Cyffredinol: Datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bywyd o ansawdd gwell i bawb, heddiw ac i'r cenedlaethau i ddod, gan gynnwys: • amgylchedd gwell yn y wlad hon ac yn rhyngwladol, a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol; • ffyniant economaidd drwy ffermio cynaliadwy, pysgota, bwyd, dŵr a diwydiannau eraill sy'n bodloni gofynion defnyddwyr; • economïau a chymunedau ffyniannus mewn ardaloedd gwledig a chefn gwlad y gall pawb ei fwynhau.	Amcan I: diogelu a gwella'r amgylchedd gwledig, trefol, morol a byd-eang, ac arwain y gwaith o integreiddio'r rhain â pholisïau eraill ar draws y Llywodraeth ac yn rhyngwladol. 3. Gofalu am ein treftadaeth naturiol, gwneud cefn gwlad yn rhywbeth sy'n atyniadol i bawb ac y gall pawb ei fwynhau, a diogelu amrywiaeth biolegol drwy: wrth-droi'r gostyngiad hirdymor yn nifer yr adar ar dir fferm erbyn 2020; fel y mesurwyd yn flynyddol yn erbyn y tueddiadau sylfaenol: • sicrhau bod 95% o safleoedd bywyd gwyllt o bwys cenedlaethol mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010; • agor mynydd-dir, rhos, gweundir a thwyn a thir comin cofrestredig i'r cyhoedd erbyn 2005.
	Amcan II: gwella cyfleoedd a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. 4. Cau'r bwlch mewn cynhyrchiant rhwng y chwarterl o ardaloedd gwledig â'r perfformiad gwaethaf a chanolrif Lloegr erbyn 2006, a gwella argaeledd gwasanaethau i bobl wledig.